General
Dental
Council

# Adroddiad Blynyddool a Chyfrifon
# 2024

HC 1125

# Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024

Adroddiad blynyddol a gyflwynir i Senedd San Steffan yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984

Adroddiad blynyddol a gyflwynir i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984.

Cyfrifon a gyflwynir i Senedd San Steffan unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984.

Cyfrifon a gyflwynir i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i gael ei argraffu ar 16 Gorffennaf 2025.

SG/2025/82

HC 1125

© Hawlfraint y **Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2025**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gdc-uk.org

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn
**information@gdc-uk.org neu ffoniwch: 020 7167 6000**

ISBN 978-1-5286-5858-4

E03390378 07/25

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr a ailgylchwyd.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

**Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ........ 2**

**Adran un: ........ 4**

Dadansoddi perfformiad ........ 4
Pwrpas statudol ........ 5
Ein gwerthoedd ........ 8
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ........ 9
Trosolwg busnes 2024 ........ 12
Cyflawniadau a chynnydd ........ 14
Perfformiad yn erbyn safonau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ........ 26
Perfformiad cofrestru ........ 28
Crynodeb cofrestru ........ 29
Perfformiad Addasrwydd i Ymarfer ........ 34
Crynodeb o berfformiad Addasrwydd i Ymarfer 2024 ........ 35
Cynaliadwyedd ........ 40
Adolygiad ariannol ........ 43

**Adran dau: ........ 52**

Adroddiad Atebolrwydd ........ 52
Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol ........ 53
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ........ 61
Datganiad llywodraethu ........ 62
Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff ........ 70
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ Senedd y DU a Senedd yr Alban ........ 86
Adroddiad archwilydd annibynnol y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ Senedd y DU a Senedd yr Alban ........ 92

**Adran tri: ........ 98**

Datganiadau ariannol ........ 98
Cyfrifon ........ 99
Nodiadau i'r cyfrifon ........ 107
Cynghorwyr ........ 140
Penderfyniad ar y Cyfrifon ........ 141

# Rhagair gan y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr

## Ein prif rôl yw diogelu’r cyhoedd trwy osod y fframwaith ar gyfer rheoleiddio gweithwyr proffesiynol a sicrhau diogelwch cleifion.

Mae gweithwyr deintyddol proffesiynol yn darparu gofal diogel ac effeithiol i’w cleifion, ac rydym yn cefnogi eu proffesiynoldeb. Rydym yn deall y pwysau y maen nhw’n ei wynebu, ac rydym yn diolch iddynt am eu gwaith caled.

Mae’r sector deintyddol wedi parhau i wynebu’r un heriau ag yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi gweld cynnydd yng ngofynion cleifion a mwy o dystiolaeth bod yna newid wrth i weithwyr deintyddol proffesiynol symud i ffwrdd o wasanaethau deintyddol y GIG i’r sector preifat, gan gynyddu ymhellach y problemau mynediad i gleifion sy’n ceisio gwasanaethau GIG. Gall hyn gael effaith tymor hwy ar ddiogelwch cleifion ac mae’n rhywbeth y byddwn yn parhau i’w amlygu gyda’n holl randdeiliaid, gan na ellir anwybyddu’r effaith.

Er na newidiodd ein rôl a’n pwrpas yn 2024, yr hyn a newidiodd oedd y ffactorau eraill sy’n dylanwadu ar y ffordd rydym yn cyflawni ein rôl. Ym mis Mehefin 2024, ymunodd Tom Whiting, ein Prif Weithredwr newydd â ni, gan ddod ag ymrwymiad i ymgysylltu, gwrando a deall, yn fewnol ac yn allanol. Trwy ymweld â gweithwyr proffesiynol deintyddol lle maen nhw’n gweithio a siarad yn eu cyfarfodydd a’u cynadleddau, mae wedi dangos ei ymrwymiad i fod yn rhywun y gall y sector weithio gydag ef ac wedi tynnu sylw at y ffaith ein bod am fod yn rheoleiddiwr dibynadwy ac effeithiol.

Fe wnaethom weithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad hefyd er mwyn cytuno ar gyfres ddiwygiedig o werthoedd i lywio sut rydym yn meddwl ac yn gweithredu yn 2025 a thu hwnt. Ein nod yw bod **yn barchus**, **yn dryloyw**, **yn gynhwysol** ac **yn bwrpasol**. Rydym yn disgwyl y bydd gweithwyr proffesiynol deintyddol a rhanddeiliaid yn gweld a phrofi’r gwerthoedd hyn wrth i ni eu hymgorffori ar draws y bwrdd.

Gan ein bod wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnawn, fe wnaethom ddiweddaru ein strategaeth Cydraddoldeb,

Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn 2024 a dechrau adrodd yn rheolaidd yn erbyn ein hamcanion. Mae gennym waith i'w wneud yn y maes hwn o hyd – ni wnaethom fodloni safonau EDI newydd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (ASP) y llynedd, ond rydym wedi ymrwymo i wneud yn well yn y dyfodol.

Roedd bodloni safon gofrestru'r ASP yn gam cadarnhaol iawn, o ystyried ein bod wedi prosesu ein nifer blynyddol uchaf erioed o geisiadau cofrestru (12,978). Mae lleihau'r ôl-groniad o geisiadau gan ddeintyddion cymwysedig tramor i gofrestru yn y DU fel hylenydd deintyddol neu therapydd deintyddol – cyn i'r llwybr hwnnw gau ym mis Mawrth 2024 – yn un arall. Mae'n hen bryd moderneiddio'r systemau a'r prosesau ar gyfer cofrestru gweithwyr deintyddol proffesiynol, ac rydym yn disgwyl i weithwyr deintyddol proffesiynol weld gwahaniaeth wrth i ni gychwyn ar raglen i ddigideiddio ein gwasanaethau eleni.

Er na wnaethom fodloni safon yr ASP ar gyfer Addasrwydd i Ymarfer, fe wnaethom barhau i wella prosesau yn y maes hwn, gyda'r prif amcan o leihau straen ac effaith negyddol ymchwiliad. Mae llawer mwy i'w wneud, ac mae gennym gynlluniau cadarn i barhau â'r gwaith pwysig hwn yn 2025.

Rydym wedi ymgynghori ar adolygu safonau addysg hefyd ac edrychwn ymlaen at ddiweddaru'r rhain eleni, ynghyd â pharhau i sicrhau ansawdd addysg ddeintyddol israddedig, cymeradwyo rhaglenni newydd a chydweithio â rhanddeiliaid i weithredu'r Fframwaith Ymarferwyr Diogel.

Yn 2024, fe wnaethom gasglu a rhannu rhagor o wybodaeth am y gweithlu deintyddol nag erioed o'r blaen. Fe wnaeth hyn ein helpu i lywio'r ddadl am fynediad i ddeintyddiaeth y GIG – rhywbeth rydym yn cydnabod sy'n broblem o hyd i'r cyhoedd – ac mae'n adnodd defnyddiol i gynllunwyr y gweithlu ledled y DU.

Yn olaf, fe wnaethom barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y pedair gwlad mewn digwyddiadau, cynadleddau a chyfarfodydd y diwydiant a thrwy gynnull y Rhwydwaith Arweinyddiaeth Ddeintyddol. Mae ein gwaith i wrando, deall ac ymateb i'r materion sy'n wynebu'r sector yn ysgogi ein penderfyniadau a'n blaenoriaethau. Bydd adeiladu a meithrin perthnasoedd yn parhau i fod yn bwysig iawn i ni.

Yn 2025 bydd canllawiau diwygiedig ar gael ar y Safonau ar gyfer Addysg a Chwmpas Ymarfer, ar ôl ymgysylltu helaeth ac amhrisiadwy â rhanddeiliaid. Byddwn yn feiddgar yn ein cynlluniau i wella addasrwydd i ymarfer, gwella canllawiau ar wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb, darparu mwy o gefnogaeth i weithwyr deintyddol proffesiynol, trwy hyfforddi ein staff a chyfeirio pobl at gymorth, a cheisio mynd i'r afael â'r ofn a deimlir a'i leihau.

Rydym eisiau gwella ein gallu digidol a moderneiddio ein prosesau, er mwyn gwella'r profiad i weithwyr deintyddol proffesiynol sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein, fel cofrestru ac adnewyddu. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein gweithlu a'n diwylliant i adeiladu sefydliad sy'n cyflawni yn unol â'n gwerthoedd newydd.

Yn 2025 byddwn yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus ar ein Strategaeth Gorfforaethol rhwng 2026 a 2028. Edrychwn ymlaen at glywed barn ar yr hyn sydd angen i ni ei gyflawni i fod yn rheoleiddiwr dibynadwy ac effeithiol, ac i barhau i gefnogi a gweithio gyda gweithwyr deintyddol proffesiynol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion.



**Yr Arglwydd Toby Harris |** Cadeirydd



**Tom Whiting |** Prif Weithredwr a Chofrestrydd

# Adran un:

# Dadansoddi perfformiad

Mae'r adran hon yn crynhoi ein diben statudol, pwy ydym ni, yr hyn a wnawn, a phwy rydym yn ei reoleiddio. Mae'n cynnwys crynodeb o'n cyflawniadau a'n cynnydd drwy gydol 2024 ac mae'n tynnu sylw at ein perfformiad cyffredinol o ran sicrhau diogelwch cleifion ac amddiffyn y cyhoedd.

# Pwrpas statudol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) yw rheoleiddiwr statudol aelodau'r tîm deintyddol ledled y DU. Mae 125,000 a mwy o bobl wedi'u cofrestru gyda ni (ar 31 Rhagfyr 2024), sy'n cynnwys 46,000 o ddeintyddion a 79,000 o broffesiynolion gofal deintyddol (DCPs).

Rydym yn rheoleiddio'r tîm deintyddol cyfan ar draws pedair gwlad y DU. Mae hyn yn cynnwys nyrsys deintyddol, deintyddion, hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, technegwyr deintyddol, therapyddion orthodontig a thechnegwyr deintyddol clinigol.

## Ein rôl a'n pwrpas

Ein **prif rôl yw amddiffyn y cyhoedd**. Mae hon yn rôl a roddwyd i ni gan Senedd San Steffan ac a nodir yn y Ddeddf Deintyddion.

Rydym yn cyflawni hyn trwy'r amcanion canlynol:

- Diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.
- Hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio.
- Hybu a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny.

Mae ein rôl o ran diogelwch cleifion yn bwysicach nawr nag erioed o'r blaen, gan fod yr heriau ynghylch mynediad at wasanaethau'r GIG yn achosi cynnydd mewn anghydraddoldebau iechyd y geg, yn enwedig ymhlith y rhai nad ydynt yn gallu talu am driniaeth ddeintyddol breifat. Rydym yn ymwybodol hefyd bod rhagor o gleifion yn ystyried mynd dramor am driniaeth, ac mae gennym rôl o ran sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r hyn i'w ddisgwyl a'r risgiau cysylltiedig.[1]

Mae cael tîm deintyddol hapus a chadarnhaol sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn allweddol wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd hyn, a gwerth pob aelod o'r tîm deintyddol wrth ddarparu gofal da i gleifion.

Er mwyn diogelu'r cyhoedd, rydym wedi rhoi nifer o gamau sylfaenol ar waith fel a ganlyn:

- Cynnal cofrestr o weithwyr proffesiynol deintyddol.
- Sicrhau mai dim ond y bobl hynny sy'n bodloni ein safonau sy'n cael eu derbyn i'n cofrestrau.
- Gosod a chefnogi safonau proffesiynol uchel ym maes addysg ac ymarfer deintyddol.
- Gweithredu os oes unrhyw weithiwr proffesiynol deintyddol wedi methu â chyrraedd ein safonau.

Dylai cleifion a'r cyhoedd fod yn hyderus bod y driniaeth a dderbyniant yn cael ei rhoi gan weithiwr deintyddol proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso'n briodol ac sy'n bodloni ein safonau

1. https://www.gdc-uk.org/standards-guidance/information-for-patients-public/going-abroad-for-dental-treatment

Rydym yn cyflawni ein pwrpas drwy ddefnyddio ein pwerau statudol i:

- Sicrhau ansawdd y rhaglenni addysg a hyfforddiant deintyddol sy'n arwain at gofrestriad â'r GDC.
- Caniatáu cofrestru dim ond y gweithwyr proffesiynol deintyddol hynny sy'n bodloni ein gofynion ar addysg a hyfforddiant, iechyd a chymeriad da. Dim ond y rhai sydd wedi cofrestru â ni sy'n cael ymarfer deintyddiaeth yn y DU.
- Sicrhau ansawdd hyfforddiant arbenigol sy'n arwain at ddeintyddion yn gallu disgrifio eu hunain fel arbenigwyr.
- Gosod safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer y tîm deintyddol cyfan.
- Ymchwilio i gwynion a godir yn erbyn gweithwyr proffesiynol deintyddol, a lle bo hynny'n briodol, cymryd camau drwy ein proses Addasrwydd i Ymarfer.
- Ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol deintyddol ddiweddaru eu sgiliau'n rheolaidd drwy ein gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.
- Amddiffyn y cyhoedd rhag pobl sy'n cyflawni gwaith deintyddol heb fod wedi cofrestru.

Yn ogystal, rydym yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid sydd â chyfrifoldeb am agweddau eraill ar ddeintyddiaeth. Er enghraifft, y gwasanaethau iechyd a'r llywodraethau ar draws y pedair gwlad sy'n gyfrifol am bolisi, deddfwriaeth, contractau'r GIG a chynllunio'r gweithlu; y cyrff aelodaeth proffesiynol sy'n cynrychioli'r gwahanol broffesiynau; Pwyllgor Deoniaid a Chyfarwyddwyr Deintyddol Ôl-radd (COPDEND) a'r Cyngor Ysgolion Deintyddol ar faterion addysg; y Coleg Deintyddiaeth Gyffredinol a'r Colegau Brenhinol mewn perthynas ag ymarfer clinigol; a'r pedwar rheoleiddiwr systemau sy'n arolygu deintyddfeydd.

Rydym yn ariannu'r Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Deintyddol Proffesiynol, swyddogaeth ddyfarnu'r GDC, sydd ar wahân ac yn annibynnol ar ein swyddogaeth ymchwilio. Mae'r Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Proffesiynol Deintyddol yn hwyluso gwaith ein pwyllgorau gwrandawiadau annibynnol o weithwyr proffesiynol deintyddol a phanelwyr lleyg.

Yn ogystal, rydym yn darparu'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol (DCS) sy'n darparu gwasanaeth diduedd am ddim i helpu cleifion a gweithwyr proffesiynol deintyddol i ddefnyddio cyfryngu i ddatrys cwynion am ofal deintyddol preifat. Mae hyn yn cael ei ariannu trwy'r incwm rydym yn ei gasglu gan weithwyr proffesiynol deintyddol.

## Pwy ydym ni

Mae'r GDC yn un o ddeg rheoleiddiwr iechyd a gofal sy'n cael eu goruchwylio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Rydym yn cael ein llywodraethu gan Gadeirydd a Chyngor anweithredol gyda chwe aelod lleyg a chwe aelod proffesiynol deintyddol cofrestredig.

Yn 2024, roeddem yn cyflogi cyfartaledd o 406 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (2023: 377). Yn ogystal, mae tua 530 o gymdeithion a gwirfoddolwyr (2023: 550) wedi ein helpu i gyflwyno gweithgareddau amrywiol gan gynnwys Paneli Addasrwydd i Ymarfer ac Apêl, Paneli Asesu Cofrestru, Paneli Cwynion DCS, ac arolygiadau o ddarparwyr addysg.

Mae gennym bedair cyfarwyddiaeth, dan arweiniad y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol sydd, ynghyd â'r Prif Weithredwr, yn ffurfio'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (ELT):

- Adnoddau Corfforaethol.
- Rheoleiddio.
- Strategaeth.
- Cyfreithiol a Llywodraethu.

Y Prif Weithredwr yw'r Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd.

Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn gyfrifol am:

- Arwain a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gweithrediadau'r GDC, a gwella eu hansawdd a'u heffeithlonrwydd.
- Gweithredu'r strategaeth gorfforaethol.
- Cefnogi'r Cyngor wrth wneud penderfyniadau ar gyfeiriad strategol y GDC.
- Nodi ac adrodd risgiau strategol i'r Cyngor drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg a sicrhau bod perchnogaeth pob risg yn cael ei dyrannu ar y lefel briodol gydag atebolrwydd clir.

## Strwythur y sefydliad

**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**

- **Adnoddau Corfforaethol**
  - Cyllid a Chaffael
  - Pobl a Datblygu Sefydliadol
  - TG
  - Gweithrediadau Gwasanaethau Cwsmeriaid
  - Prosiectau Corfforaethol a Swyddfa Rheoli Prosiectau
  - Rheoli Risg ac Archwilio Mewnol
  - Rheoli Adnoddau Corfforaethol
  - Cyfleusterau
- **Rheoleiddio**
  - Cofrestru*
  - Addasrwydd i Ymarfer
  - Rheoli Rheoleiddio
  - Gwrandawiadau Gweithwyr Deintyddol Proffesiynol
  - Gwasanaeth Cwynion Deintyddol
- **Strategaeth**
  - Addysg a Sicrhau Ansawdd
  - Polisi ac Ymchwil
  - Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- **Cyfreithiol a Llywodraethu**
  - Llywodraethu
  - Gwasanaethau Cyflwyno Cyfreithiol
  - Gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Mewnol
  - Llywodraethu Gwybodaeth
  - Rheolaeth Gyfreithiol

# Ein gwerthoedd

Ein huchelgais yw bod yn sefydliad sy'n wirioneddol seiliedig ar werthoedd. Yn 2024, buom yn cydweithio â chydweithwyr GDC ar bob lefel i gytuno ar ein gwerthoedd diwygiedig, gan herio ein hunain i fod **yn barchus, yn dryloyw, yn gynhwysol ac yn bwrpasol**.

**Parchus**




Rydym yn gweithio ac yn meithrin perthnasoedd yn seiliedig ar ymddiriedaeth, empathi a thegwch

**Tryloyw**




Rydym yn agored, yn onest ac yn ddibynadwy ym mhopeth a wnawn, gan weithredu a siarad ag uniondeb

**Cynhwysol**



Rydym yn gwerthfawrogi pob gwahaniaeth, a'r safbwyntiau maen nhw'n eu cynnig

**Pwrpasol**



Rydym yn glir yn ein pwrpas cyhoeddus ac yn canolbwyntio ar gyflawni effeithiol

Yn 2025, byddwn yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr i ymgorffori'r gwerthoedd hyn mewn ffordd ystyrlon a chynaliadwy. Ein dyhead yw bod y gwerthoedd hyn yn dod yn ffordd o weithio i bawb yn y maes.

Yn ogystal, byddwn yn dechrau rhannu a dangos ein gwerthoedd yn y ffordd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, gweithwyr proffesiynol deintyddol, ac ymgeiswyr sy'n ystyried ymuno â'r gofrestr.

# Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud fel rheoleiddiwr a chyflogwr cyfrifol. Er mwyn bod yn rheoleiddiwr effeithiol a chynhwysol, mae gennym rôl bwysig wrth hyrwyddo EDI a nodi a mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb trwy bob un o'n swyddogaethau rheoleiddio.

Ein nod **yw bod yn rheoleiddiwr cynhwysol**; hyrwyddo cynhwysiant a dangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnawn.

Fel awdurdod cyhoeddus, mae ein hymrwymiad i EDI a'r ffordd rydym yn ymdrin ag EDI wedi'u hategu gan ein dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. O dan y ddyletswydd hon, rhaid i ni roi sylw dyladwy i'r angen i wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi datblygu llawer gwell dealltwriaeth o amrywiaeth y gweithlu deintyddol rydym yn ei reoleiddio, gan fod llawer mwy o weithwyr proffesiynol deintyddol wedi darparu gwybodaeth am eu nodweddion gwarchodedig fel rhan o'u proses adnewyddu flynyddol. Bellach mae gennym yr wybodaeth hon ar gyfer 96% a mwy o'r holl weithwyr proffesiynol deintyddol.

Rydym yn casglu'r data hwn fel rhan o'n rôl fel rheoleiddiwr, er mwyn sicrhau bod ein prosesau rheoleiddio yn deg. Rydym yn defnyddio'r data hwn i'n helpu i ddeall proffil cyfnewidiol y gofrestr ac a yw rhai grwpiau yn fwy tebygol o ymuno â'r gofrestr neu adael y gofrestr.

Mae deall mwy am y bobl sy'n codi pryderon gyda ni yn bwysig. Felly, yn 2024, fe aethom ati i ddechrau casglu gwybodaeth ychwanegol am nodweddion gwarchodedig ganddynt. Byddwn yn dechrau rhannu'r wybodaeth hon trwy ein hadroddiadau ystadegol Addasrwydd i Ymarfer (FTP) o 2025.

## Ein Strategaeth EDI

Mae ein Strategaeth EDI ar gyfer 2024–2025 yn adeiladu ar uchelgeisiau ein strategaeth flaenorol ac mae ein dyhead yn parhau yr un fath. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r proffesiwn ehangach i ymgorffori EDI ar draws yr hyn y mae'r GDC yn ei wneud ac ar draws y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol deintyddol yn gweithio gyda chleifion a'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys annog eraill i sicrhau bod EDI yn cael lle amlwg yn eu harferion gwaith.

Yn 2024, fe wnaethom ddatblygu rhaglen helaeth o weithgareddau gyda'r nod o helpu i gyflawni ein strategaeth EDI ac yn y pen draw i'n galluogi i wireddu ein dyhead bod EDI wedi'i ymgorffori yn ein hamcanion strategol ehangach a'i ymgorffori yn ein strategaeth gorfforaethol 2026–2028.

## Amcanion EDI ar gyfer 2024–2025

**1**

Datblygu a chefnogi proffesiwn cynhwysol sydd wedi'i baratoi i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf i bob claf.

**2**

Nodi a chael gwared ar unrhyw rwystrau y mae cleifion, y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol deintyddol a rhanddeiliaid yn eu hwynebu wrth ymgysylltu â ni.

**3**

Sicrhau bod ein prosesau rheoleiddio a'r penderfyniadau a wnawn yn deg ac yn gyson ac yn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**4**

Sicrhau bod ein camau gweithredu ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu harwain a'u llywio gan wybodaeth a gafwyd trwy ddata, ymchwil ac adborth.

**5**

Sefydlu diwylliant cynhwysol yn y gweithle ar bob lefel yn y GDC lle mae'r holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu hintegreiddio, eu gwerthfawrogi a'u cynnwys.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, fe wnaethom amlinellu cyfres o flaenoriaethau a'r camau gweithredu a fydd yn dangos yr hyn roeddem yn bwriadu ei wneud a'r hyn rydym wedi'i gyflawni. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Mae rhagor o wybodaeth am ein Cynllun Gweithredu EDI ar gyfer 2024–2025 gan gynnwys y cynnydd rydym wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r rhain, a datganiad gan ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr, ar gael ar dudalennau strategaeth EDI ein gwefan.[2]


Rydym wedi ymrwymo i integreiddio ein cyfrifoldebau EDI yn yr holl waith a wnawn. Mae hyn yn golygu y bydd y gwaith a gyflawnir trwy ein Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio yn ystyried EDI trwy gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (EIA) ar gyfer ein holl brosiectau a rhaglenni. Fel rhan o'n Strategaeth EDI 2024–2025, fe wnaethom fapio lle byddwn yn cael effaith gadarnhaol ar ein gweithwyr, ein gweithwyr proffesiynol deintyddol neu aelodau o'r cyhoedd. Byddwn yn gweithio trwy'r camau gweithredu y mae angen i ni eu cwblhau i gyflawni hyn fel rhan o'n cynllun gweithredu EDI cyffredinol.

2. https://www.gdc-uk.org/about-us/our-organisation/reports/equality-diversity-and-inclusion-strategy-2024-2025

## Rhyw ac ethnigrwydd y Cyngor, staff a chymdeithion

Rydym yn croesawu gweithwyr o bob rhan o gymdeithas ac o dan y Cynllun Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd.[3] Rydym am annog pobl ag anableddau i wneud cais am swyddi gyda ni ac mae'r cynllun hwn yn rhoi cyfle iddynt ddangos eu sgiliau, eu talent a'u galluoedd yn y cam cyfweld.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion ein Rhwydweithiau Staff, ar gael yn yr adran adroddiad staff ar dudalen 79.




*Roedd yn well gan 7% o Gymdeithion beidio â nodi eu rhyw.

**Roedd yn well gan 19% o Gymdeithion beidio â dweud a oeddent yn arddel hunaniaeth ethnig leiafrifol.

***Roedd yn well gan 10% o staff beidio â dweud a oeddent yn arddel hunaniaeth ethnig leiafrifol

3. https://www.gov.uk/government/collections/disability-confident-campaign

# Trosolwg busnes 2024

## Adolygiad o'r cynllun busnes

Mae ein Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2023–2025 yn rhan o'n huchelgais hirdymor o symud y broses o reoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol tuag at atal niwed i gleifion a'r cyhoedd, yn hytrach nag ymateb i ganlyniadau'r niwed hwnnw.

2024 oedd ail flwyddyn ein Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2023–2025, sy'n nodi ein blaenoriaethau hyd ddiwedd 2025.

Mae gan y strategaeth bedwar nod strategol:

**1**

Mae gweithwyr proffesiynol deintyddol yn bodloni ac yn cynnal safonau uchel o ofal deintyddol diogel ac effeithiol.

**2**

Caiff pryderon sylw effeithiol a chymesur er mwyn diogelu'r cyhoedd a chefnogi dysgu proffesiynol.

**3**

Mae'r sefydliadau cywir yn ymdrin â risgiau sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles y cyhoedd.

**4**

Mae rheoleiddio gweithwyr proffesiynol deintyddol yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn addasu i'r amgylchedd allanol sy'n newid.

Roedd y strategaeth yn cydnabod hefyd bod yn rhaid i ni foderneiddio a gwella ein perfformiad mewn rhai meysydd dros y tair blynedd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n parhau **i fod yn ddigyfnewid yw ein rôl yn amddiffyn y cyhoedd**.

Mae ein deddfwriaeth dros 40 mlwydd oed, ac rydym yn parhau i bwyso am ddiwygio deddfwriaethol a'r cyfleoedd a allai ddod yn sgil hynny. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu hyn, ac rydym yn gwybod na fydd hyn yn datrys yr holl broblemau presennol. O'r herwydd, fe wnaethom barhau i ysgogi gwelliannau yn ein fframwaith deddfwriaethol presennol yn 2025, gan gefnogi a grymuso'r tîm deintyddol i ddarparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i safonau uchel o broffesiynoldeb ar yr un pryd.

Roedd y sector deintyddol yn parhau i wynebu'r un pwysau a heriau y llynedd ag yn y blynyddoedd diwethaf, gyda chynnydd yn y galw gan gleifion a mwy o dystiolaeth o newid wrth i weithwyr proffesiynol deintyddol symud i ffwrdd o wasanaethau deintyddol y GIG i'r sector preifat, gan gynyddu ymhellach broblemau mynediad i wasanaethau'r GIG i gleifion.

Er mai eraill allai fod yn gyfrifol am y materion hyn, mae yna bethau y gallwn eu gwneud i lywio a chefnogi'r trafodaethau a'r cynlluniau ehangach. Er enghraifft, mae'r data patrymau gwaith rydym wedi'u coladu a'u cyhoeddi wedi darparu gwybodaeth a mewnwelediadau nad oedd gan y sector yn flaenorol. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio gyda'r sector i lywio

trafodaethau'r gweithlu a chyfrannu at y rhain lle gallwn.

Ym mis Hydref 2024, yn dilyn adolygiad manwl a thrwyadl, cymeradwyodd y Cyngor y cynllun ar gyfer 2025–2027 a gosododd y gyllideb a'r Ffi Gadw Flynyddol (ARF) ar gyfer 2025. Wrth wneud hynny, fe wnaethom gytuno i gadw'r un ffioedd ARF ar gyfer 2025, sef £621 i ddeintyddion a £96 i broffesiynolion gofal deintyddol.

Ein huchelgais o hyd yw cadw ffioedd yn rhesymol. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid i'r lefelau ARF a delir gan weithwyr proffesiynol deintyddol newid, fel y gallwn barhau i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rôl statudol o gynnal diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y ffioedd hyn yn cael eu hadolygu eto yn ddiweddarach yn 2025 ynghyd â'r gyllideb ar gyfer 2026, ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r strategaeth newydd ar gyfer 2026–2028.

## Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio 2024–2026

Roedd ein Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio (CCP) ar gyfer 2024 yn nodi ein blaenoriaethau a'n cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn. Cafodd ei adolygu a'i fonitro drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y gwaith â blaenoriaeth yn derbyn adnoddau a chefnogaeth, i'n galluogi i gyflawni'r hyn a oedd yn y cynllun gwaith.

Roedd 32 o brosiectau yn y cynllun gwaith yn 2024. O'r rhain, cwblhawyd 19, cafodd chwech eu tynnu o'r cynllun gan eu bod wedi'u cyfuno â phrosiectau eraill neu wedi'u dadflaenoriaethu, gohiriwyd tri, ac mae'r gweddill ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni erbyn diwedd 2026.

Dyma'r prosiectau a gafodd eu cwblhau a'u cau yn 2024:

- Datrys cwynion.
- Gwelliannau cyfathrebu digidol.
- Disgwyliadau ar gyfer ymarferydd diogel.
- Modelau indemniad.
- Uwchraddio caledwedd TG, seilwaith a pherifferolion.
- Cryfhau'r broses o wahanu'r swyddogaeth ddyfarnu.

Mae rhagor o fanylion am brosiectau'r Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio, gan gynnwys crynodeb o'r prosiectau a gyflawnwyd yn 2024 a'r nodau strategol y maent yn cyd-fynd â nhw, i'w gweld yn adroddiad y Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio 2025–2027[4], a gyhoeddir ar wahân.

4. https://www.gdc-uk.org/docs/default-source/about-us/corporate-strategy/gdc-corporate-costed-plan-25-27.pdf

# Cyflawniadau a chynnydd

## Yn 2024, fe wnaethom gyflwyno mewnwelediadau newydd a ychwanegodd at ddealltwriaeth y sector deintyddol o'r gweithlu a gwella prydlondeb ceisiadau cofrestru yn erbyn y nifer uchaf o geisiadau blynyddol a welsom erioed.

Rydym yn taflu goleuni newydd hefyd ar effaith Addasrwydd i Ymarfer ar les a chanfyddiadau gweithwyr proffesiynol deintyddol o'r GDC. Fe wnaethom gynnal rhagor o waith ymchwil i ganfyddiadau rhanddeiliaid o'r GDC, a gadarnhaodd fod canfyddiadau negyddol yn cael eu hysgogi'n bennaf gan ofn y prosesau FTP. Mae'r ofn hwn yn creu diffyg ymddiriedaeth, gan gyfyngu ar ein gallu i gyrraedd gweithwyr proffesiynol deintyddol gan fod yr ofn hwn yn lleihau eu tueddiad i ymgysylltu, gwrando neu gredu. Dros y tair blynedd diwethaf, fe wnaethom fynd ati'n fwy strategol a phenodol i fynd i'r afael â chanfyddiadau, ac mae arwyddion addawol bod hyn yn cael effaith. Mae'n amlwg hefyd bod angen gwneud llawer mwy i fynd i'r afael â'r ofn hwn a'r hyn sy'n ei achosi.

15 wythnos

**Amserlenni FTP gwell ar gyfer achosion clinigol unigol**

100%

**Pob DPA cofrestru wedi'i fodloni**

3

**digwyddiad y Rhwydwaith Arweinwyr Deintyddol wedi'u cynnal**

4,000 a Mwy

**o fyfyrwyr a phroffesiynolion deintyddol newydd gymhwyso wedi'u hymgysylltu â nhw**

55%

**o ddeintyddion wedi cwblhau data patrymau gweithio**

58%

**o DCPs wedi cwblhau data patrymau gweithio**

## Llywio'r ddadl ynghylch y gweithlu deintyddol

Fe wnaeth canfyddiadau ein rhaglen ymchwil ddarparu tystiolaeth ychwanegol bod y sector deintyddol yn parhau i fod dan bwysau, a bod y cyhoedd yn parhau i'w chael hi'n anodd cael mynediad at ddeintyddiaeth y GIG. Yn y cyd-destun hwn, ymrwymwyd i gefnogi'r sector er mwyn deall yn well heriau ei weithlu. Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd data cynhwysfawr newydd am batrymau gwaith deintyddion, ac yna data am broffesiynolion gofal deintyddol (DCPs) ym mis Hydref. Fe wnaeth 24,000 a mwy o ddeintyddion (55%) a bron i 44,000 (58%) o DCPs gwblhau'r arolwg gwirfoddol, ac rydym yn ddiolchgar i'r holl weithwyr proffesiynol deintyddol a ddarparodd y data hwn, ac am y gefnogaeth gan y cymdeithasau proffesiynol a anogodd eu haelodau i gymryd rhan.

Rydym bellach yn gwybod mwy am batrymau gweithio gweithwyr proffesiynol deintyddol nag erioed o'r blaen. Am y tro cyntaf, gallwn weld darlun cynhwysfawr ar draws y pedair gwlad o ble mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn gweithio a'r cydbwysedd rhwng practisau preifat a phractisau'r GIG, a rolau a gweithgareddau clinigol ac anghlinigol. Rydym yn hyderus y bydd y darlun hwn yn cefnogi cynlluniau strategol a phenderfyniadau gan wasanaethau iechyd, llywodraethau a darparwyr deintyddol, gan fynd ati yn y pen draw i helpu cleifion i dderbyn y gofal sydd ei angen arnynt.

Fe wnaethom gasglu ail flwyddyn o ddata deintyddion fel rhan o'u hadnewyddiad blynyddol ym mis Rhagfyr 2024 a byddwn yn adrodd ar hyn yn 2025. Byddwn yn gwneud yr un peth gyda DCPs yn ddiweddarach yn 2025. Fe wnaethom gyhoeddi dadansoddiad casgliadol pellach hefyd o'r data deintyddion ym mis Rhagfyr a bwriadwn wneud yr un peth ar gyfer DCPs yn ddiweddarach yn 2025.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth, gan gynnwys crynodeb o'r canfyddiadau allweddol, yn adran patrymau gwaith ein gwefan.[5]



5. https://www.gdc-uk.org/about-us/our-organisation/reports/working-patterns-data

## Dysgu o ganfyddiadau ein Hymchwil Canfyddiadau

Cyhoeddwyd ymchwil i ganfyddiadau rhanddeiliaid ym mis Rhagfyr 2024 ac mae'n dangos gwelliannau sy'n arwyddocaol yn ystadegol mewn canfyddiadau o'r GDC ers 2020. Cynyddodd safbwyntiau cadarnhaol ymhlith gweithwyr proffesiynol deintyddol o 16% yn 2020 i 20% yn 2023, gyda chanfyddiadau negyddol yn gostwng o 65% i 56%. Mae'r gwelliant hwn yn werthfawr ac yn bwysig, ond mae'n amlwg bod gennym ffordd bell i fynd.

Yn gyffredinol, roedd gan fyfyrwyr farn fwy ffafriol, gyda 26% yn mynegi barn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg, yn enwedig gweithwyr proffesiynol deintyddol, yn dal i fod â chanfyddiadau negyddol o'r GDC.

Roedd ymwybyddiaeth gref ymhlith rhanddeiliaid o'n swyddogaethau craidd, fel cynnal y gofrestr ddeintyddol (87%), ymchwilio i bryderon addasrwydd i ymarfer (78%) a gosod a hyrwyddo safonau proffesiynol (72%). Fodd bynnag, mae'r camsyniad mwyaf cyffredin yn parhau – sef bod y GDC yn gosod safonau clinigol (48%, dim newid o 2020) – ac yna eu bod yn cynrychioli buddiannau gweithwyr proffesiynol deintyddol (30%).

Roedd gweithwyr proffesiynol deintyddol sydd wedi cofrestru â ni yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn teimlo'n fwy cadarnhaol tuag atom o gymharu â'r rhai sydd wedi'u cofrestru ers chwe blynedd neu ragor. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod 'trobwynt' pan fydd barn yn dod yn fwy negyddol, a allai gael ei ysgogi gan brofiadau yn y gorffennol neu benderfyniadau etifeddol.

Mae'r ymchwil i ganfyddiadau rhanddeiliaid yn ei gwneud hi'n glir mai ofn yw prif sbardun canfyddiadau o'r GDC – ein bod yn cosbi, ein bod wedi colli gafael ar bethau a'n bod yn anghymesur. Mae ofn yn bwysig oherwydd ei fod yn rhwystro rheoleiddio effeithiol. Pan fydd gweithwyr proffesiynol deintyddol yn ymarfer gan fod ofn ymyrraeth reoleiddiol fympwyol ac anghymesur, maent yn tueddu i ymarfer mewn modd amddiffynnol, treulio amser ar gadw cofnodion gormodol a gallant hyd yn oed gyfyngu ar gwmpas eu hymarfer. Nid yw hyn o fudd i gleifion. I'r gwrthwyneb, mae'n debygol o leihau maint ac ansawdd gofal deintyddol.

Byddwn yn defnyddio'r mewnwelediadau hyn i ddatblygu ein strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu allanol ar gyfer y dyfodol yn 2025. Nid mater o reoli enw da yw mynd i'r afael â'r ofn a gwrthsefyll canfyddiadau negyddol o'r GDC – mae'n sylfaenol i'n nod craidd o amddiffyn y cyhoedd. Mae'n bwysig bod y rhai rydym yn eu rheoleiddio yn ymddiried ynom, ac ni ellir ymddiried ynom os mai ofn sydd fwyaf amlwg yn y canfyddiadau.

4% ↑

**cynnydd mewn barn gadarnhaol ymhlith gweithwyr proffesiynol deintyddol o 16% i 20% ers 2020**

## Rheoli nifer cynyddol o geisiadau cofrestru

Gwyddom fod ymuno â'r gofrestr yn foment arwyddocaol yng ngyrfa gweithiwr proffesiynol deintyddol. Gall unrhyw oedi a phroblemau fod yn anodd i'r unigolyn a'i gyflogwr.

Yn 2024, fe wnaethom brosesu 12,978 o geisiadau, cynnydd o'n record uchaf yn 2023 o 11,476. Roedd hyn yn cynnwys ceisiadau newydd, teitlau ychwanegol ac ychwanegiadau at ein rhestrau arbenigol, ac arweiniodd at gofrestru 2,164 o ddeintyddion newydd a 9,728 o DCPs newydd yn 2024. Mae gwneud y broses gofrestru'n gyflymach yn parhau i fod yn bwysig, ond rydym eisiau moderneiddio hefyd trwy leihau'n sylweddol y ddibyniaeth ar bapur yn ystod y broses hon. Ar ôl adolygu'r prosesau presennol a'r prosesau a fydd yn ofynnol yn y dyfodol, fe wnaethom nodi gwelliannau posibl a newidiadau gweithredol ar gyfer y GDC ac ymgeiswyr, gan gynnwys symud i broses ymgeisio ddigidol, ar-lein. Ar ôl ymarfer caffael, fe wnaethom benodi PwC y llynedd fel ein partner i gyflawni'r gwelliannau hyn i'n prosesau cofrestru, gyda'r nod o'i gwneud hi'n haws i bobl ddarparu'r dystiolaeth a'r ddogfennaeth angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cynnal safonau cofrestru uchel.

Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn ddiweddarach yn 2025, ar ôl cwblhau gwerthusiad llawn o'r costau a'r buddion a chael cymeradwyaeth ffurfiol gan y Cyngor i fwrw iddi a lansio yn gynnar yn 2026.

## Gwella dealltwriaeth o'r broses adnewyddu flynyddol

Gwyddom ei bod yn anodd ac yn bryderus pan fydd gweithiwr proffesiynol deintyddol yn cael ei dynnu o'r gofrestr oherwydd iddo gwblhau ei broses adnewyddu flynyddol yn anghywir. Am y tair blynedd diwethaf, rydym wedi cydweithio â'r holl gymdeithasau proffesiynol perthnasol i wella dealltwriaeth pobl (yn enwedig DCPs) o'r broses a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i adnewyddu eu cofrestriad yn hwylus.

Eleni, fe wnaethom ddarparu cynnwys wedi'i dargedu i gyhoeddiadau a sianeli perthnasol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofynion indemniad a DPP ar gyfer DCPs, ac fe wnaethom siarad â channoedd o DCPs mewn digwyddiadau allanol y diwydiant a dosbarthu taflenni iddynt. Arweiniodd hyn at 45% yn llai o hysbysiadau tynnu am beidio â chydymffurfio â'r gofyniad indemniad a gostyngiad o 24% yn y DCPs nad oeddent yn cydymffurfio â'u DPP o gymharu â 2023.

**Yn 2024 cynyddodd ceisiadau ORE**

**53%**

## Gwella mynediad i'r arholiad cofrestru tramor (ORE)

Fe wnaeth y galw am leoedd ar yr ORE barhau i fod yn fwy na'r ddarpariaeth er gwaethaf y ffaith i gapasiti arholiadau gynyddu o'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd ceisiadau 53% yn 2024, gyda 3,628 wedi'u derbyn (2023: 2,366). Cynhaliwyd dwy sesiwn Rhan Un gyda chyfanswm capasiti o 1,200, cynnydd o 50% ar yr 800 a gynhaliwyd yn 2023, a phedair sesiwn Rhan Dau gyda chapasiti o 576, cynnydd o 33% ar y 432 a gynhaliwyd yn 2023.

Ymunodd cyfanswm o 354 o ddeintyddion â'r gofrestr yn 2024 ar ôl pasio'r ORE. Mae gweithwyr proffesiynol deintyddol sy'n cymhwyso dramor yn gwneud cyfraniad pwysig a gwerthfawr i'r gweithlu deintyddol yn y DU. Roedd tua 30% o ddeintyddion cofrestredig wedi cymhwyso y tu allan i'r DU a 5% o'r holl DCPs. Mae rhagor o fanylion am y dadansoddiad hwn i'w gweld ar dudalennau 31 i 33.

Mae rheoli galw am ORE yn parhau i fod yn heriol oherwydd y nifer cynyddol o geisiadau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, fe wnaethom gwblhau ymarfer ymgysylltu â'r farchnad cynnar er mwyn nodi cyflenwyr a chapasiti newydd posibl, yna dechreuwyd y broses gaffael ar gyfer contract newydd ar ddiwedd 2024. Bydd y broses hon yn dod i ben yn ddiweddarach yn 2025, a'n nod yw cael mwy o gapasiti ar waith erbyn canol 2026.

Fe wnaethom welliannau newydd i'r ORE yn 2024, gan gynnwys datblygu Polisi Ffoaduriaid newydd sy'n rhoi mynediad blaenoriaeth i'r ORE i ddeintyddion cymwysedig sydd â statws ffoaduriaid. Rhoddwyd y polisi hwn ar waith yn gynnar yn 2025, ac mae'n cydnabod heriau deintyddion nad ydynt yn gallu dychwelyd i'w gwlad enedigol, ac mae nifer o ymgeiswyr wedi manteisio arno yn barod.

## Lleihau'r ôl-groniad o geisiadau gan ddeintyddion sydd wedi cymhwyso dramor fel hylenyddion deintyddol a therapyddion deintyddol

O 7 Mawrth 2023, mae'n ofynnol i bob ymgeisydd tramor sy'n gwneud cais i gofrestru fel DCP (pob teitl), feddu ar gymhwyster tramor perthnasol ar gyfer y teitl y mae'n gwneud cais amdano. Y canlyniad yw nad oedd ymgeiswyr sy'n cyflwyno ceisiadau ar ôl y dyddiad hwn bellach yn gallu dibynnu ar ddiploma tramor mewn deintyddiaeth (gradd neu ddiploma sy'n cymhwyso rhywun fel deintydd) i ymuno â'r gofrestr DCP ac roedd yn ofynnol iddynt gael cymhwyster DCP tramor perthnasol i gofrestru fel DCP. Roedd y newid yn alinio ein gofynion ar gyfer cymwysterau tramor â'r rhai ar gyfer ymgeiswyr y DU.

O ganlyniad i'r newid mewn gofynion cymhwystra, cawsom nifer digynsail o geisiadau trwy'r llwybr asesu Proffesiynolyn Gofal Deintyddol (DCP) tramor – cawsom 5,700 a mwy o geisiadau o fewn ychydig wythnosau, gan greu ôl-groniad mawr o geisiadau. Gwnaed cynnydd sylweddol gan y tîm Cofrestru ar y ceisiadau hyn gydol 2024, gyda'r holl geisiadau yn cael eu hadolygu a 2,600 yn cael eu hasesu gan banel asesu. Bydd rhagor o baneli asesu yn gynnar yn 2025 pan rydym yn rhagweld y bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei gwblhau.

O ganlyniad i'r cynnydd a wnaed, ynghyd â gwelliannau eraill yn y broses gofrestru, fe wnaethom adennill ein safon sy'n ymwneud â phrydlondeb gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.

## Gwella'r broses ymgeisio ar gyfer y rhestr arbenigol

Erbyn diwedd 2024, roedd 4,457 o weithwyr proffesiynol ar draws y 13 disgyblaeth arbenigol.

Gall deintyddion sydd wedi'u cofrestru â GDC nad ydynt yn meddu ar Dystysgrif Cwblhau Hyfforddiant Arbenigol wneud cais i ymuno â rhestr arbenigol trwy gyflwyno tystiolaeth bod ganddynt lefel gyfatebol o wybodaeth a phrofiad a gafwyd mewn ffyrdd eraill. Gelwir hyn hefyd yn gais wedi'i asesu. Yn 2023, fe wnaethom gymryd cyfrifoldeb am y broses asesu ceisiadau rhestrau arbenigol (SLAA), a oedd wedi'i chyflawni'n flaenorol gan ddarparwr allanol, ac a oedd wedi'i hoedi am bron i flwyddyn.

Ar ôl recriwtio a hyfforddi aseswyr a gwella'r prosesau ymgeisio, fe wnaethom glirio'r ôl-groniad o geisiadau erbyn mis Mawrth 2024.

Fe wnaeth gwaith pellach i ymgorffori'r gwasanaeth hwn barhau trwy gydol 2024 pan wnaethom ymgynghori ar y llwybrau mynediad i'r rhestrau arbenigol a gwneud rheoliadau newydd i lywodraethau'r llwybrau hynny, yn enwedig mewn perthynas â'r llwybr ar gyfer cais wedi'i asesu. Cynlluniwyd y newidiadau hyn er mwyn sicrhau eglurder i ymgeiswyr a chysondeb rhwng gwahanol grwpiau ymgeiswyr.

## Diweddaru safonau a gwybodaeth addysg

Rydym yn darparu sicrwydd ansawdd ar gyfer addysg a hyfforddiant deintyddol israddedig er mwyn sicrhau bod pob rhaglen yn bodloni ein safonau. Mae'n ddyletswydd statudol arnom i sicrhau mai dim ond i fyfyrwyr sy'n bodloni'r safonau angenrheidiol y mae darparwyr addysg yn dyfarnu cymhwyster iddynt.

Ers 2018, rydym wedi gweld twf o **16%** flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn rhaglenni newydd a chynnydd pellach yn y diddordeb mewn ysgolion a rhaglenni newydd yn 2024.

Gan gydnabod y twf hwn, buom yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Fyfyrwyr a'r Cyfrin Gyngor i ddatblygu canllawiau i'r rhai sydd eisiau ennill statws awdurdod deintyddol, a gyhoeddwyd gennym yn gynnar yn 2025.

Ar ôl diweddaru'r Fframwaith Ymarferwyr Diogel yn 2023, fe wnaethom barhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid o bob rhan o'r maes addysg ddeintyddol yn 2024 i ddiwygio'r Safonau ar gyfer Addysg. Mae trafodaethau a chydweithredu cadarnhaol yn dangos bod y newidiadau mewn addysg ddeintyddol a'r ecosystem gofal iechyd ehangach ers cyhoeddi'r safonau presennol wedi cael eu cydnabod. Fe wnaethom ymgynghori ar gynigion i adolygu'r safonau ym mis Tachwedd 2024. Yn dilyn yr adolygiad a dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cymeradwywyd y Safonau Addysg diwygiedig gan y Cyngor a byddant yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2025.

Yn ogystal, cyhoeddwyd y cwricwlwm diwygiedig ar gyfer arbenigedd deintyddol, gan ddod i rym o fis Medi 2024.

## Ymateb i effaith Addasrwydd i Ymarfer (FTP) ar weithwyr proffesiynol deintyddol

Yn 2022, fe wnaethom ymrwymiad i nodi ac adrodd ar nifer y gweithwyr proffesiynol deintyddol a fu farw tra bod pryderon addasrwydd i ymarfer yn cael eu hymchwilio neu eu hunioni. Cymerodd y gwaith i greu'r adroddiad fwy o amser na'r disgwyl, gan fod yn rhaid i ni fynd i'r afael â materion o ran y ffordd roeddem yn cofnodi a dadansoddi'r wybodaeth berthnasol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd, gan gwmpasu'r cyfnod rhwng 2019 a 2022, pan fu farw 20 o weithwyr proffesiynol deintyddol tra bod eu hachosion yn weithredol, gydag achosion marwolaeth wedi'u categoreiddio fel naturiol, allanol neu amhenodol, ac un is-gategori o hunanladdiad.

Yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn sgil y gwaith pwysig hwn oedd bod rhai gweithwyr proffesiynol deintyddol wedi cyflawni hunanladdiad tra'n destun ymchwiliad FTP gweithredol. Mae pob marwolaeth yn drasiedi, a phan fydd y data a'r hyn rydym yn ei wneud i wella FTP yn cael eu rhoi o'r neilltu, yr hyn sydd ar ôl yw marwolaeth pobl, rhai mewn amgylchiadau trasig. Rydym yn parhau i weithio'n ddiwyd i leihau effaith FTP ar iechyd meddwl gweithwyr proffesiynol deintyddol.

Ers peth amser, rydym wedi bod yn gwella prosesau FTP lle gallwn. Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom adolygu'r hyn rydym yn ei gyhoeddi yn dilyn gwrandawiad pwyllgor gorchmynion interim i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng preifatrwydd aelod cofrestredig o ystyried bod honiadau heb eu profi, a'r angen i amddiffyn y cyhoedd trwy brosesau agored a thryloyw.

Fe wnaethom ddatblygu a chyhoeddi canllawiau diwygiedig ar dynnu gweithiwr proffesiynol deintyddol o'r cofrestrau deintyddol yn wirfoddol tra'i fod yn destun ymchwiliad, gyda'r nod o sicrhau tryloywder, cysondeb a chymesuredd wrth wneud penderfyniadau. Fe wnaethom ymgynghori hefyd ar y canllawiau a roddwn i bwyllgorau ymarfer i gynorthwyo gyda'r gwaith o wneud penderfyniadau cymesur a chyson. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau newydd ar wahaniaethu ac aflonyddu, mesurau i gefnogi tystion bregus ac addasiadau rhesymol i aelodau cofrestredig. Caiff y canllawiau diwygiedig eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2025.

Fe wnaethom newidiadau gweithredol i hysbysu a chefnogi'n well gweithwyr proffesiynol deintyddol yn ystod y broses gwynion a FTP. Fe wnaethom gyhoeddi cynnwys newydd er mwyn sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol deintyddol ddealltwriaeth gliriach a mwy cyson o ran pryd y bydd y GDC yn dod yn rhan o'r broses. Roedd hyn yn cynnwys beth i'w ddisgwyl yn ystod y broses, pa gefnogaeth sydd ar gael iddynt, a chydnabyddiaeth ein bod yn deall y pwysau y gall hyn ei achosi iddynt fel unigolion.

Dechreuodd gwaith yn 2024 i ddatblygu proses Adolygu Digwyddiadau Difrifol a fydd yn cael ei rhoi ar waith pe bai marwolaeth yn digwydd yn ystod FTP, lle mae rhyw arwydd bod y broses FTP yn ffactor cyfrannol. Roeddem yn gwerthfawrogi awgrymiadau cynnar gan randdeiliaid ynglŷn â'r hyn y dylai'r broses hon ei ystyried, ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu â rhanddeiliaid eto pan fyddwn yn bwrw iddi â'r gwaith hwn.

Ym mis Rhagfyr, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cadarnhawyd bod y newid i gynnal gwrandawiadau deintyddol proffesiynol ar-lein yn ddiofyn yn cael ei wneud yn barhaol. Daeth y penderfyniad hwn yn dilyn rhoi gwrandawiadau o bell ar waith yn llwyddiannus yn 2022 pan gynhaliwyd 87% a mwy o wrandawiadau sylweddol o bell. Roedd y penderfyniad hwn yn adlewyrchu'r manteision clir a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth gynnal ein hymrwymiad i degwch a diogelu'r cyhoedd, mae gwrandawiadau o bell wedi arwain at lai o straen ac arbedion cost sylweddol, ac maent yn fwy hygyrch i gyfranogwyr. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio bod gweithwyr proffesiynol deintyddol yn cadw'r hawl i ofyn am wrandawiadau personol, ac rydym yn hyderus y byddant yn cael eu caniatáu yn y rhan fwyaf o achosion.

## Gwella prydlondeb FTP

Fe wnaethom sicrhau gwelliannau sylweddol mewn prydlondeb FTP yn 2024. Fe wnaethom leihau ciwiau gwaith achos i lefel gynaliadwy yn y cam asesu, ac fe wnaeth ein timau gwaith achos ymchwilio glirio'r ôl-groniad o 2023.

Yn arwyddocaol, fe wnaethom fabwysiadu ffordd newydd o ymchwilio i bryderon clinigol cleifion unigol, gan haneru'r amser cyfartalog a gymerir i asesu'r pryder o 30 wythnos i 15 wythnos. Gwnaed y newid hwn yn barhaol ar ôl cynllun peilot ac mae'n cael adborth cadarnhaol gan randdeiliaid, sy'n dangos ein gallu i symleiddio ymchwiliadau penodol wrth gynnal ein hymrwymiad i amddiffyn y cyhoedd.

Rydym yn gwybod bod mwy o waith i'w wneud, ac rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo'n llwyr i wella ymhellach ein prosesau FTP a'n prydlondeb yn y flwyddyn i ddod.

## Cyfeirio cwynion at y sefydliad cywir

Rhaid cyfeirio cwynion at y sefydliad cywir er mwyn lleihau oedi wrth eu datrys a sicrhau bod cleifion a gweithwyr proffesiynol yn gallu bod yn hyderus bod eu pryderon yn cael sylw digonol.

Ym mis Ebrill, gwnaethom gwblhau ein prosiect datrys cwynion – gan gydnabod nad oes angen i'r GDC ymdrin â phob cwyn, gwnaethom adolygu a gwella'r wybodaeth ar ein gwefan i helpu i gyfeirio cwynion at y sefydliad cywir. Fe wnaeth hyn helpu i sicrhau bod y pryderon a dderbyniwn yn briodol i ni eu hymchwilio neu fod y cyhoedd yn cael eu cyfeirio at sefydliadau eraill sy'n fwy addas i ymdrin â'u cwyn.

Yn 2024, fe wnaethom ailgyfeirio tua 2% o'r holl bryderon addasrwydd i ymarfer yn ôl i'r GIG, ac fe wnaeth y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol ymdrin â 3,300 a mwy o ymholiadau yn ymwneud â chwynion am driniaeth ddeintyddol breifat.

## Adolygu a diweddaru ein safonau a'n canllawiau

Un o'n cyfrifoldebau statudol yw gosod safonau ar gyfer y tîm deintyddol, ac mae gennym fframwaith helaeth o safonau a chanllawiau ar gael i helpu gweithwyr proffesiynol deintyddol i ddeall eu cyfrifoldebau proffesiynol. Mae rheoli a diweddaru'r fframwaith hwn yn dasg sylweddol, ac yn 2024, aethom ati i wneud hyn fesul cam mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid fel rhan o'n rhaglen waith ehangach ar broffesiynoldeb.

Ar ôl adborth manwl i'w groesawu, fe wnaethom ymgynghori a chytuno ar gynigion i ddod â gofynion adrodd ar gyfer materion iechyd, troseddol a rheoleiddiol at ei gilydd a chreu gwell canllawiau ar Adrodd Materion i'r GDC. Daeth y canllawiau hyn i rym ym mis Chwefror 2025.

Fe wnaethom ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid trwy gydol y flwyddyn ar ein fframwaith proffesiynoldeb a defnyddio eu hadborth i lywio datblygiad polisi a'n dull gweithredu cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen helaeth o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ein cynigion i ddiweddaru ein Canllawiau Cwmpas Ymarfer yn dilyn ein hymgynghoriad yn 2023. Bydd ein datblygiad polisi yn parhau yn y ddau faes hyn yn 2025, gan gynnwys cyhoeddi ein Canllawiau Cwmpas Ymarfer wedi'u diweddaru a datblygu cyfres gynhwysfawr o ddeunyddiau ategol i helpu gweithwyr proffesiynol i wneud penderfyniadau effeithiol yn unol â'n fframwaith proffesiynoldeb.

Yn 2024, gwnaethom gwblhau dadansoddiad o arferion gweithredol a gofynion y rheolau ar gyfer ein cynllun datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i nodi pa newidiadau y gallem eu gwneud i leihau'r baich gweinyddol ar aelodau cofrestredig. Trwy'r adolygiad hwn, fe wnaethom nodi sawl newid y gellid eu gwneud i'r cynllun presennol, o fewn ein deddfwriaeth bresennol. Cymeradwywyd y newidiadau hyn gan y Cyngor ym mis Rhagfyr ac fe'u cyflwynwyd yn gynnar yn 2025.

## Defnyddio ein rôl ymgynnull i ddod â’r sector ynghyd i dynnu sylw at yr heriau sy’n wynebu cleifion a’r proffesiwn

Fe wnaethom gynnull tri digwyddiad Rhwydwaith Arweinyddiaeth Ddeintyddol (DLN) yn 2024, gan ddwyn arweinwyr o bob rhan o’r pedair gwlad ynghyd, gan gynnwys cynrychiolwyr o’r sector addysg, cymdeithasau proffesiynol, cyflogwyr, undebau amddiffyn, grwpiau cynrychiolwyr cleifion, y Llywodraeth a’r GIG. Amcanion y Rhwydwaith yw rhannu gwybodaeth a meithrin cysylltiadau, creu gwell dealltwriaeth o gylch gwaith, blaenoriaethau a heriau cyffredin pawb, ac annog cydweithredu a pherchnogaeth er mwyn datrys heriau cyffredin.

Ar ôl cynnal ei ddigwyddiad cyntaf ym mis Tachwedd 2022, mae’r Rhwydwaith yn unigryw gan ei fod yn dod ag arweinwyr o’r sector deintyddol cyfan at ei gilydd, gyda 120 a mwy o uwch-arweinwyr deintyddol yn mynychu pob digwyddiad. Yn 2024, roedd y tri digwyddiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cynnal gweithlu effeithiol, sy’n addas ar gyfer y dyfodol.
- Arweinyddiaeth iechyd a lles yn y tîm deintyddol.
- Gweithlu: Faint o weithwyr proffesiynol deintyddol sy’n ddigon?

Mae’r Rhwydwaith wedi cynllunio digwyddiadau ym mis Mawrth, mis Mehefin a mis Tachwedd 2025.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol deintyddol

Fe wnaethom fynychu 400 a mwy o gyfarfodydd, cyflwyniadau a digwyddiadau rhanddeiliaid yn 2024. Yn ogystal, roedd gennym bresenoldeb mewn chwe digwyddiad allanol allweddol y diwydiant, gan gynnwys Arddangosfa Ddeintyddol BDIA a’r Sioeau Deintyddiaeth yn Llundain a Birmingham, a oedd yn caniatáu inni gynyddu ein cyrhaeddiad ac ymgysylltu â channoedd o weithwyr proffesiynol deintyddol ym mhob digwyddiad.

Blaenoriaeth allweddol i’n Prif Swyddog Gweithredol, a ymunodd â’r GDC ym mis Mehefin 2024, yw ymgysylltu, gwrando a deall materion a heriau’r proffesiwn. Felly, yn ogystal â’n rhaglen ymgysylltu bresennol, fe wnaethom ddatblygu rhaglen newydd i’w alluogi i gwrdd â’r holl randdeiliaid allweddol ac ymweld â lleoliadau deintyddol. Cwblhaodd naw ymweliad yn 2024, gan gael adborth cadarnhaol gan y gweithwyr proffesiynol deintyddol a’r rhanddeiliaid dan sylw. Yn ogystal, siaradodd mewn sawl digwyddiad proffil uchel trwy gydol y flwyddyn, gan adeiladu ar y rhaglen ymgysylltu bresennol.

**Dros 400**

**o gyfarfodydd, cyflwyniadau a digwyddiadau rhanddeiliaid wedi’u mynychu yn 2024**

## Cynyddu ein hymgysylltiad â gweithwyr proffesiynol deintyddol gyrfa gynnar a'r rhai sydd wedi cymhwyso dramor

Bob blwyddyn, mae tua 7,000 o fyfyrwyr yn cymryd lleoedd yn y DU i hyfforddi i ddod yn weithwyr proffesiynol deintyddol. Yn 2024, ymunodd 7,000 o weithwyr proffesiynol deintyddol a oedd wedi cymhwyso yn y DU a 2,000 o weithwyr proffesiynol deintyddol a oedd wedi cymhwyso dramor â'n cofrestr. Mae ymgysylltu â'r grwpiau pwysig hyn yn gynnar yn eu gyrfa yn eu helpu i ddeall beth mae'n ei olygu i weithio mewn proffesiwn wedi'i reoleiddio, rôl y rheoleiddiwr, sut rydym yn cefnogi gweithwyr proffesiynol deintyddol, gan helpu i fynd i'r afael â rhai o'u camsyniadau neu ganfyddiadau yn gynnar yn eu gyrfaoedd.

Cyflwynodd y rhaglen, sydd bellach yn ei chweched flwyddyn, 58 o sesiynau i fyfyrwyr ac i aelodau cofrestredig newydd (2023: 42), gan ymgysylltu â 3,700 a mwy o bobl, cynnydd o 16% ar y flwyddyn flaenorol.

Fel rhan o'r rhaglen hon, gofynnwyd i fyfyrwyr a gweithwyr proffesiynol deintyddol sydd newydd gymhwyso am eu canfyddiadau a'u barn am y geiriau y maent yn eu cysylltu â'r GDC. Roedd y canlyniadau yn galonogol iawn, gan ddangos dealltwriaeth gynyddol o'n rôl, gyda geiriau fel safonau, diogelwch cleifion a phroffesiynoldeb yn amlwg. Fodd bynnag, roedden nhw'n rhannu geiriau fel ymgyfreitha, cwynion a brawychus hefyd, sy'n dangos bod mwy o waith i'w wneud o hyd.




Mae'r adborth ar y rhaglen hon wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 95% a mwy o'r ymatebwyr yn dweud bod y sesiwn wedi gwella eu dealltwriaeth a'u canfyddiad cyffredinol o'r GDC, ac roedd y pethau allweddol a ddysgwyd yn cynnwys mwy o ddealltwriaeth o rôl y GDC a gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd proffesiynoldeb.

Cyflwynwyd tair gweminar hefyd i 300 a mwy o weithwyr proffesiynol deintyddol newydd gofrestru a gymhwysodd y tu allan i'r DU, gan ddarparu cynnwys a chefnogaeth benodol i'r grŵp cynyddol bwysig hwn o aelodau cofrestredig. Byddai dros 90% yn argymell y sesiwn i gydweithwyr a dywedodd 95% eu bod yn debygol o ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd yn y sesiwn yn y dyfodol.

Bydd y ddwy raglen yn parhau trwy 2025.

## Cefnogi ein staff

Fe wnaethom symud sawl prosiect yn ei flaen i gefnogi datblygiad a chyfraddau cadw ein staff. Fe wnaeth 87% gwblhau adolygiadau datblygiad personol (PDR) yn y cylch cyntaf, ac roedd gan 82% gynlluniau datblygu personol (CDP) ar waith erbyn diwedd 2024. Roedd hyn yn cynnwys gwaith i ddatblygu rhaglen 'yr holl fuddion', gwella prosesau datblygu'r gweithlu, lansio cod gwisg newydd a diweddaru a lansio'n fewnol ein gwerthoedd GDC newydd. Cafodd y newidiadau hyn eu cychwyn yn dilyn gweithgarwch ymgysylltu mewnol sylweddol, gan gynnwys 17 o sesiynau staff yn cynnwys 200 a mwy o gydweithwyr.

Fe wnaethom ddatblygu a lansio proses adolygu newydd ar gyfer datblygiad personol a phlatfform dysgu newydd i'n staff. Er mwyn helpu i gyfathrebu'r newidiadau hyn, fe wnaethom gryfhau ein tîm cyfathrebu mewnol, gan arwain at welliannau cadarnhaol i'n sianeli cyfathrebu mewnol, gan gynnwys darparu'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r cyfarwyddwyr gweithredol yn rheolaidd a negeseuon cyfathrebu pwrpasol i reolwyr pobl. Yn ogystal, fe wnaethom gynnal cyfres o sesiynau cymorth PDR ar-lein trwy gydol 2024, ar gyfer 102 o bobl. Roedd hyn yn darparu cymorth ychwanegol i staff a rheolwyr wrth ddefnyddio'r system, gan gefnogi sgyrsiau ac ymgysylltu o safon.

**87%**

**o staff wedi cwblhau adolygiadau datblygiad personol (PDR)**

**82%**

**o staff â chynlluniau datblygu personol (CDP) ar waith erbyn diwedd 2024**



# Perfformiad yn erbyn safonau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

## Mae ein perfformiad yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (ASP), corff goruchwylio annibynnol y 10 rheoleiddiwr iechyd a gofal proffesiynol.

Bob blwyddyn, mae'r ASP yn asesu ein perfformiad blynyddol yn erbyn 18 o Safonau Rheoleiddio Da. Ar gyfer ein hasesiad 2023–2024, canfu'r ASP ein bod wedi bodloni 16 o'r 18 Safon.

4 o 5

**Safonau Cyffredinol**

2 o 2

**Canllawiau a safonau**

2 o 2

**Addysg a hyfforddiant**

4 o 4

**Cofrestru**

4 o 5

**Addasrwydd i Ymarfer**

16 o 18

**O safonau wedi'u bodloni i gyd**

Y ddau faes na wnaethom eu bodloni oedd sut rydym yn integreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) yn ein gwaith fel rheoleiddiwr a phrydlondeb ein prosesau Addasrwydd i Ymarfer. Rydym eisoes wedi rhoi newidiadau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain.

Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwaith a wnawn i gyflawni ein strategaeth EDI yn fwy gweladwy. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn, gan gynnwys y cynnydd rydym yn ei wneud a'r gwaith y mae angen i ni ei gwblhau o hyd, yn adran EDI ein gwefan.[6] Er mwyn mynd i'r afael â phrydlondeb ein prosesau FTP, fe wnaethom welliannau a oedd yn ein galluogi i gau achosion yn gyflymach pan fo'n briodol gwneud hynny. Fe wnaethom gyflawni hyn trwy adolygu sut rydym yn ymchwilio i bryderon ymarfer clinigol, gan ganiatáu i ni gau llawer o'r achosion hyn yn llawer cynharach yn y broses.

Er ein bod yn siomedig nad ydym wedi bodloni'r ddwy safon hyn, roeddem yn falch bod adolygiad yr ASP yn cydnabod y gwaith rydym wedi'i wneud yn 2024 i fodloni'r 16 safon i ni eu bodloni'n llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys y gwelliannau sylweddol a wnaethom wrth brosesu ceisiadau cofrestru yn gyflymach, a oedd yn golygu ein bod wedi bodloni'r holl safonau Cofrestru eleni, ac mae'r gwaith rydym wedi'i wneud i sicrhau bod detholiad amrywiol o leisiau a rhanddeiliaid wedi helpu i lywio ein gwaith polisi ac ymchwil.

Rydym yn gwybod bod rhagor o waith i'w wneud dros y flwyddyn i ddod, ac rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo'n llwyr i wella prosesau FTP a gweithredu ein strategaeth EDI. Byddwn yn parhau â'n gwaith i adolygu ein canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau FTP a'n safonau ymddygiad a pherfformiad ar gyfer y tîm deintyddol a byddwn yn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwahaniaethol yn briodol a'i herio'n briodol. Yn ogystal, rydym yn bwriadu cyhoeddi ein Safonau ar gyfer Addysg wedi'u diweddaru yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ddiwedd 2024, a fydd yn ystyried y gefnogaeth i fyfyrwyr a hyfforddeion ag anghenion amrywiol.

6. https://www.gdc-uk.org/about-us/our-organisation/reports/equality-diversity-and-inclusion-strategy-2024-2025

7. https://cy.professionalstandards.org.uk/cyhoeddiadau/monitoring-report-general-dental-council-202324

Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn ein perfformiad blynyddol 2023–2024 yn yr Adroddiad Adolygu Perfformiad ar wefan yr ASP.[7]

**"Rydym yn gwybod bod rhagor o waith i'w wneud dros y flwyddyn i ddod, ac rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo'n llwyr i wella prosesau FTP a gweithredu ein strategaeth EDI."**

# Perfformiad cofrestru

## Trosolwg

Rydym yn cynnal cofrestr o weithwyr proffesiynol deintyddol sy’n bodloni ein safonau ac sy’n gallu ymarfer deintyddiaeth yn gyfreithlon yn y DU.

Rhaid i bawb sy’n ymuno â’r gofrestr fod â chymwysterau priodol, neu basio asesiad, a bodloni gofynion iechyd, cymeriad ac iaith Saesneg i’w hystyried yn addas i ymarfer fel aelod o’r tîm deintyddol.

Mae sawl ffordd o gofrestru:

- Cymhwyster y DU cydnabyddedig.
- Diploma Ewropeaidd perthnasol.
- Cymhwyster tramor cydnabyddedig.
- Asesiad o addasrwydd i gofrestru, drwy asesiad o sgiliau a gwybodaeth gan banel y GDC.
- Pasio Rhan 1 a 2 o’r Arholiad Cofrestru Tramor (ORE).

Rydym yn cofrestru’r tîm deintyddol cyfan, ar draws pedair gwlad y DU. Mae hyn yn cynnwys deintyddion, nyrsys deintyddol, hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, therapyddion orthodontig, technegwyr deintyddol a thechnegwyr deintyddol clinigol.

## Rhestri arbenigol

Rydym yn cynnal rhestri o ddeintyddion sydd â chymwysterau neu brofiad priodol i gael eu hystyried yn arbenigwyr mewn meysydd deintyddol penodol.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Rhaid i bob gweithiwr deintyddol proffesiynol ddiweddaru ei sgiliau a’i wybodaeth yn ystod ei yrfa. Mae DPP yn un o’r gofynion ar gyfer cofrestru gyda’r GDC. Mae’r gofynion hyn yn amrywio yn ôl proffesiwn deintyddol, ond mae’n rhaid i bob gweithiwr proffesiynol deintyddol gwblhau o leiaf ddeg awr o DPP pob dwy flynedd.

## Prydlondeb cofrestru

Yn dilyn y nifer sylweddol a digynsail o geisiadau DCP rhyngwladol (tua 5,700) a ddaeth i law ar gyfer 2023 (pan gaeodd y llwybr cofrestru hwn), fe wnaethom recriwtio 22 o weithwyr achos ychwanegol i gefnogi’r gwaith o symud y ceisiadau hyn yn eu blaenau. Fe wnaethom gynyddu capasiti’r paneli asesu o 150 i 300 y mis hefyd. Yn 2024, aseswyd dros 2,600 o geisiadau gan baneli asesu cofrestriadau, gan arwain at 844 a mwy o gofrestriadau.

Mae clirio’r ôl-groniad gan gynnal safonau trylwyr a sicrhau diogelwch y cyhoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i’r tîm Cofrestru, a fu’n craffu ar yr holl geisiadau a gafwyd. Mae paneli asesu ac ailasesu yn debygol o barhau hyd canol 2025.

Yn 2024, llwyddodd y swyddogaeth Cofrestru i gwblhau 12,978 o geisiadau ar draws pob llwybr, cynnydd ar uchafswm o 11,476 o geisiadau yn flaenorol, a gwblhawyd yn 2023.



# Crynodeb cofrestru

**125,736**
**o bobl ar y gofrestr**

**+4.8%**

**79,374**
**o DCPs**

**46,362**
**o Ddeintyddion**

**12,978**
**o geisiadau wedi'u prosesu**

**78%**
**yn fenywaidd**

**11,892**
**o ychwanegiadau newydd at y gofrestr**

**48%**
**o'r gofrestr yn nyrsys deintyddol**

## Nifer y gweithwyr proffesiynol deintyddol ar gyfer 2024*

Roedd 125,736 o weithwyr proffesiynol deintyddol ar ein cofrestr ar ddiwedd 2024 (2023: 120,030). Roedd hyn yn gynnydd o 4.8% o gymharu â'r llynedd. Dim ond unwaith y mae DCPs sydd â mwy nag un teitl, er enghraifft, hylenydd deintyddol sydd hefyd yn therapydd deintyddol, yn cael ei gyfrif yn y tabl hwn.

**Math o gofrestriad - Deintydd**

Nifer y gweithwyr proffesiynol deintyddol

**46,362**

37% o'r cyfanswm

**Math o gofrestriad - Proffesiynolyn Gofal Deintyddol**

Nifer y gweithwyr proffesiynol deintyddol

**79,374**

63% o'r cyfanswm

**Cyfanswm 125,736**

*Mae'r holl dablau yn ddyddiedig 31 Rhagfyr 2024.

## Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl teitl proffesiynol

Gall gweithwyr proffesiynol deintyddol ddal mwy nag un teitl cofrestredig.

**Cyfanswm nifer y teitlau cofrestredig**

135,962

| | | |
|---|---|---|
| **Nyrs Ddeintyddol** | **65,123** | (47.9%) |
| **Deintydd** | **46,362** | (34.1%) |
| **Hylenydd Deintyddol** | **10,493** | (7.7%) |
| **Therapydd Deintyddol** | **7,363** | (5.4%) |
| **Technegydd Deintyddol** | **5,025** | (3.7%) |
| **Therapydd Orthodontig** | **1,157** | (0.9%) |
| **Technegydd Deintyddol Clinigol** | **439** | (0.3%) |

**Cyfanswm nifer y teitlau newydd a ychwanegwyd yn 2024**

11,892

| | | |
|---|---|---|
| **Nyrs Ddeintyddol** | **6,670** | (56.1%) |
| **Deintydd** | **2,164** | (18.2%) |
| **Therapydd Deintyddol** | **1,567** | (13.2%) |
| **Hylenydd Deintyddol** | **1,189** | (10.0%) |
| **Technegydd Deintyddol** | **168** | (1.4%) |
| **Therapydd Orthodontig** | **123** | (1.0%) |
| **Technegydd Deintyddol Clinigol** | **13** | (0.1%) |

**Roedd 135,962 o deitlau cofrestredig ar ddiwedd 2024 (2023: 129,052), cynnydd o 5.4%.**

## Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl llwybr cofrestru

### Deintyddion, yn ôl y llwybr cofrestru

**Wedi cymhwyso yn y DU (68.9%)**

31,953

**Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (18.4%)**

8,514

**ORE - arholiad statudol y DU (9.3%)**

4,326

**Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (3.4%)**

1,569

**Cyfanswm (100%)**

46,362

### Ychwanegiadau newydd at y gofrestr deintyddion yn 2024, yn ôl llwybr cofrestru

**Wedi cymhwyso yn y DU (52.8%)**

1,144

**Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (30.2%)**

654

**ORE - arholiad statudol y DU (16.4%)**

354

**Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (0.6%)**

12

**Cyfanswm (100%)**

2,164

## DCPs, yn ôl llwybr cofrestru

### Nyrs Ddeintyddol

**65,123**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (64,904 | 99.7%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (136 | 0.2%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (83 | 0.1%)

### Hylenydd Deintyddol

**10,493**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (7,865 | 74.9%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (478 | 4.6%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (2,150 | 20.5%)

### Therapydd Deintyddol

**7,363**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (4,745 | 64.6%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (4 | 0.1%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (2,614 | 35.5% )

### Technegydd Deintyddol

**5,025**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (4,783 | 95.2%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (211 | 4.2%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (31 | 0.6%)

### Therapydd Orthodontig

**1,157**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (1,042 | 90.0%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (2 | 0.2%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (113 | 9.8%)

### Technegydd Deintyddol Clinigol

**439**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (436 | 99.3%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (0 | 0%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (3 | 0.7%)

Wedi cymhwyso yn y DU (83,775)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (831)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (4,994)

**Cyfanswm 89,600**

### Ychwanegiadau newydd at y gofrestr DCP yn 2024, yn ôl llwybr cofrestru

#### Nyrs Ddeintyddol

**6,670**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (6,635 | 99.5%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (0 | 0%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (35 | 0.5%)

#### Therapydd Deintyddol

**1,567**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (404 | 25.8%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (0 | 0%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (1,163 | 74.2%)

#### Technegydd Deintyddol

**168**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (139 | 82.7%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (3 | 1.8%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (26 | 15.5%)

#### Hylenydd Deintyddol

**1,187**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (465 | 39.2%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (3 | 0.2%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (719 | 60.6%)

#### Therapydd Orthodontig

**123**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (70 | 56.9%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (0 | 0%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (53 | 43.1%)

#### Technegydd Deintyddol Clinigol

**13**

**Cyfanswm cymwysedig**

Wedi cymhwyso yn y DU (11 | 84.6%)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (1 | 7.7%)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (1 | 7.7%)

Wedi cymhwyso yn y DU (7,724)
Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (7)
Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd (1,997)

**Cyfanswm 9,728**

## Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl Rhyw

**Cyfanswm nifer y Deintyddion***

46,357

| | |
|---|---|
| **Gwryw** | **21,701** (46.8%) |
| **Benyw** | **24,656** (53.2%) |

**Cyfanswm nifer y DCPs**

79,374

| | |
|---|---|
| **Gwryw** | **5,916** (7.5%) |
| **Benyw** | **73,458** (92.5%) |

Gwryw (27,617 | 22.0%) Benyw (98,114 | 78.0%) **Cyfanswm 125,731**

*Nodyn: Ni ddarparodd pum deintydd fanylion am eu rhyw.

Ceir rhagor o fanylion am ein perfformiad cofrestru yn yr adroddiad ystadegau Cofrestru, a gyhoeddir ar wahân.
https://www.gdc-uk.org/about-us/what-we-do/the-registers/registration-reports

# Perfformiad Addasrwydd i Ymarfer

## Trosolwg

Un o'n rolau pwysig yw ymchwilio i bryderon a chymryd camau pan fydd gweithiwr proffesiynol deintyddol wedi gwyro'n ddifrifol o'n safonau. Pan fydd pryderon yn cael eu codi gyda ni sy'n bodloni ein trothwy, byddwn yn ymchwilio a oes arwydd y gallai addasrwydd unigolyn i ymarfer gael ei amharu mewn ffordd a allai effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd neu hyder yn y gweithwyr proffesiynol deintyddol rydym yn eu rheoleiddio.

Pan ddywedwn fod gweithiwr proffesiynol deintyddol yn "addas i ymarfer", rydym yn golygu bod ganddo'r sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd a'r cymeriad priodol i ymarfer ei broffesiwn yn ddiogel ac effeithiol.

Fodd bynnag, mae addasrwydd i ymarfer yn ymwneud â mwy na dim ond perfformiad clinigol neu iechyd gweithiwr deintyddol proffesiynol. Mae'n cynnwys hefyd unrhyw gamau y maen nhw'n ei gymryd a allai effeithio ar hyder y cyhoedd yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio. Gallai hyn gynnwys materion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymarfer proffesiynol, fel cyflawni trosedd.

Os oes pryderon am ymddygiad neu gymhwysedd gweithiwr deintyddol sy'n golygu risg ddifrifol i gleifion, neu sy'n amharu'n ddifrifol ar hyder y cyhoedd mewn deintyddiaeth, byddwn yn ymchwilio a lle bo'n briodol yn gweithredu i liniaru'r risg. Gallai pryderon ddod yn uniongyrchol gan glaf, drwy atgyfeiriad gan gorff arall (er enghraifft, hysbysiad gan yr heddlu am euogfarn neu rybudd troseddol), neu o ffynonellau eraill.

Mae'r mathau o faterion rydym yn ymchwilio iddynt yn cynnwys:


- Camgymeriadau mewn gofal clinigol, er enghraifft, camgymeriadau gyda diagnosis neu driniaeth ddeintyddol.
- Methu archwilio claf yn iawn, cael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan y claf cyn rhoi triniaeth, cadw cofnodion boddhaol neu ymateb yn rhesymol i anghenion claf.
- Diffyg yswiriant indemniad proffesiynol.
- Problemau o ran atal haint (er enghraifft, defnyddio cyfarpar clinigol budr wrth roi triniaeth).
- Achosion difrifol o dorri cyfrinachedd claf.
- Troseddau posibl gan gynnwys twyll, camymddwyn rhywiol, lladrata neu anonestrwydd gan weithiwr deintyddol proffesiynol.
- Iechyd gwael neu gyflwr meddygol sy'n effeithio'n sylweddol ar allu gweithiwr cofrestredig i drin cleifion yn ddiogel.

Os penderfynir bod addasrwydd i ymarfer gweithiwr proffesiynol deintyddol yn ddiffygiol, efallai y byddwn yn penderfynu gwneud dim, neu'n gosod cosb, sy'n cynnwys y canlynol:

- Rhoi cerydd.
- Gosod amodau ar gofrestriad.
- Atal cofrestriad dros dro.
- Tynnu'r unigolyn oddi ar y gofrestr deintyddion neu'r gofrestr proffesiynolion gofal deintyddol.

Mae gan weithwyr proffesiynol deintyddol y canfuwyd bod eu haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol hawl i apelio i'r Uchel Lys (neu i'r Llys Sesiwn yn yr Alban). Mae gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol hawl apelio hefyd mewn achosion lle mae o'r farn nad yw penderfyniad yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

# Crynodeb o berfformiad Addasrwydd i Ymarfer 2024



**125,736**
**o bobl ar y gofrestr**

**1,401**
**o bryderon wedi dod i law**

**73**
**o wrandawiadau wedi'u cynnal**

**18**
**o bobl wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr**


**0.01%**
**o'r gofrestr**

**15 wythnos**

**Amser cyfartalog i asesu achosion clinigol cleifion unigol, o gymharu â 30 wythnos ar gyfer achosion eraill**

## Cyfradd canlyniad penderfyniadau ar bob cam o’r broses Addasrwydd i Ymarfer yn 2024

Mae’r diagram isod yn dangos cyfradd cyfartalog canlyniad penderfyniadau ar wahanol gamau’r broses addasrwydd i ymarfer (dyma gyfartaledd yr achosion a roddwyd ar waith yn 2024 yn hytrach na nifer yr achosion a ddaeth i law).



## Gweithgarwch Addasrwydd i Ymarfer yn 2024

Mae ein proses FTP yn cynnwys sawl cam, o asesu'r pryderon a ddaw i law, eu hystyried gan ein tîm Archwilwyr Achosion ac, os cyrhaeddir y trothwy priodol, eir ymlaen i'r cam gwrandawiad gerbron Pwyllgor Ymarfer.

Er mwyn gwella profiad y rhai sy'n ymwneud â'r broses ac i sicrhau y gwneir penderfyniadau o ansawdd da, fe wnaethom fuddsoddi'n sylweddol yn y timau sy'n cyflawni ein swyddogaethau FTP yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Roedd hyn yn golygu ein bod wedi gostwng nifer yr achosion yn y cam Asesu o oddeutu 1,200 o achosion yng nghanol 2023, i oddeutu 550 o achosion erbyn diwedd 2024. Mae nifer yr achosion yn y cam Asesu wedi aros yn gyson dros y 18 mis diwethaf, gyda'r tîm yn parhau i wella'r amser yr ymdrinnir ag achosion yn y cam hwnnw, heb gyfaddawdu ar ansawdd y canlyniadau. Mae'r gweithgarwch cynyddol hwn, yng nghyfnodau cynnar ein proses, wedi arwain at atgyfeirio pum achos ychwanegol ar gyfer gwrandawiad, bob mis yn 2024. Roedd y cynnydd yn yr atgyfeiriadau hyn yn golygu bod mwy o achosion yn aros am wrandawiadau ar ddiwedd ein proses.

Rydym bellach yn buddsoddi yn rhan olaf ein proses FTP – ein timau cyfreithiol a gwrandawiadau – er mwyn sicrhau bod yr achosion hyn yn cael eu clywed yn gyflym.

| Newidiadau yn y cyfraddau cyfartalog ar gyfer canlyniadau penderfyniadau ar wahanol gamau'r broses FTP | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|
| **O bob 100 achos a ddaeth i law:** | | | |
| Ymlaen i asesiad | 85 | 86 | 84 |
| Ymlaen i benderfyniad arholwr achos | 34 | 34 | 32 |
| Ymlaen i wrandawiad gan y Pwyllgor Ymarfer | 16 | 13 | 12 |
| Sancsiynau wedi'u gosod | 13 | 11 | 8 |
| Dim camau pellach | 3 | 2 | 4 |

| Gweithgarwch Addasrwydd i Ymarfer | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|
| Pryderon newydd a ddaeth i law | 1,264 | 1,297 | 1,401 |
| Penderfyniadau asesu a wnaed | 1,267 | 1,441 | 1,294 |
| Penderfyniadau archwilwyr achosion a wnaed | 326 | 356 | 515 |
| Llwyth achosion asesu ar ddiwedd y flwyddyn | 899 | 618 | 564 |

Roedd llawer o'r achosion asesedig a gafodd eu cwblhau wedi dechrau cyn 2024. Atgyfeiriwyd 38% o'r achosion a adolygwyd yn ystod y cam asesu i archwilwyr achosion a chaewyd 62% ohonynt. Cafwyd 198 o atgyfeiriadau gan archwilwyr achosion i'r Pwyllgorau Ymarfer, cynnydd o 50% o gymharu â 2023 (132).

Yn ogystal, atgyfeiriodd archwilwyr achosion 16 o'r achosion hyn i'r Pwyllgor Gorchmynion Interim.

Ceir rhagor o fanylion am ein perfformiad yn yr adroddiad ystadegol Addasrwydd i Ymarfer, a gyhoeddir ar wahân.[8]

8. https://www.gdc-uk.org/about-us/our-organisation/reports/fitness-to-practise-reports

## Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Deintyddol Proffesiynol

Y Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Deintyddol Proffesiynol yw swyddogaeth farnu'r GDC ac mae'n gweithredu'n annibynnol ac ar wahân i'n swyddogaeth ymchwilio ni.

Mae achosion a atgyfeirir gan archwilwyr achosion yn cael eu clywed gan un o dri Phwyllgor Ymarfer statudol: Ymddygiad Proffesiynol, Perfformiad Proffesiynol neu Iechyd. Mae pob panel yn cynnwys tri phanelwr, dau weithiwr deintyddol proffesiynol, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn ddeintydd, ac aelod lleyg. Os yw'r aelod cofrestredig yn broffesiynolyn gofal deintyddol, rhaid i un o'r panelwyr fod yn broffesiynolyn gofal deintyddol hefyd.

Cynhaliodd y Pwyllgorau Ymarfer 73 o wrandawiadau cychwynnol yn 2024 (2023: 91). Roedd cynnydd yn nifer yr achosion a oedd yn aros am wrandawiad cychwynnol gyda 209 ar ddiwedd 2024 (2023:147). Roedd hyn oherwydd y cynnydd sylweddol yng nghyfradd prosesu achosion gan y timau Asesu wrth iddynt wella perfformiad a arweiniodd at nifer uwch o atgyfeiriadau at Bwyllgor Ymarfer, gyda 15.8 o achosion yn cael eu hatgyfeirio bob mis ar gyfartaledd. (2023: 10.5 achos y mis). O'r 209 o achosion hyn, roedd 77 wedi methu ein targed naw mis erbyn diwedd 2024 (2023:70).

Yr amser canolrifol rhwng gwrandawiadau cychwynnol yn dechrau a'r atgyfeiriad gan arholwyr achos oedd 10 mis a chwe diwrnod (2023: 10 mis ac un diwrnod). Dechreuodd 43% o fewn naw mis i'w hatgyfeirio (2023: 47%).

Hyd y rhan fwyaf o'r gwrandawiadau cychwynnol oedd pum niwrnod, sydd yr un fath ag yr oedd yn 2023.

Dental Professionals Hearings Service

## Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau'r holl wrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer sylweddol yn 2023 a 2024

| Heb amharu (32.4%) | Wedi'i geryddu (12.2%) | Amodau (5.4%) |
|---|---|---|
| 24 | 9 | 4 |
| I fyny o 2023 (18.7%) | I fyny o 2023 (6.6%) | I lawr o 2023 (7.7%) |
| ↑ 17 | ↑ 6 | ↓ 7 |
| **Atal dros dro (25.7%)** | **Dileu (24.3%)** | **Cyfanswm** |
| 19 | 18 | 74[9] |
| I lawr o 2023 (40.6%) | I lawr o 2023 (26.4%) | I lawr o 2023 |
| ↓ 37 | ↓ 24 | ↓ 91 |

## Gorchmynion interim

Ar unrhyw gam yn y broses Addasrwydd i Ymarfer, gallwn wneud cais am orchymyn interim i gyfyngu ar ymarfer cofrestrai hyd nes y bydd yr achos wedi'i ddatrys. Rydym yn gwneud hyn os ydym yn penderfynu bod risg wirioneddol o niwed sylweddol i aelod o'r cyhoedd, lle mae gwarchod hyder y cyhoedd yn y proffesiwn o fudd i'r cyhoedd, er mwyn cynnal safonau proffesiynol neu pan fo hynny er lles y gweithiwr cofrestredig ei hun.

Yn 2024, cyflwynodd y Pwyllgor Gorchmynion Interim 99 o benderfyniadau (2023: 122). O'r rhain, ni chyflwynwyd unrhyw orchymyn mewn 37 o achosion (2023:30), gosodwyd amodau interim mewn 39 o achosion (2023:52) a chyflwynwyd ataliad dros dro mewn 23 o achosion (2023:40).

9. Cafwyd un gwrandawiad gyda dau ganlyniad.

# Cynaliadwyedd

Mae adrodd ar gynaliadwyedd yn mynd y tu hwnt i agweddau ariannol ac yn cwmpasu nodau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG). Rydym wedi ymrwymo i gefnogi arferion cynaliadwy a mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau hyn.

## Annog yr ymddygiadau cywir

Rydym yn ceisio lleihau ein heffaith amgylcheddol mewn sawl ffordd ymarferol. Mae ein swyddfa yn Llundain yn ymgorffori dyluniad cynaliadwy, effeithlonrwydd ynni a phroses lleihau carbon deuocsid ($CO_2$), a system rheoli adeilad sy'n ein galluogi i fod yn fwy effeithlon o ran ynni. Yn ein swyddfa yn Birmingham, rydym wedi gweithio gyda'r landlord i ailgylchu cymaint o ffrydiau gwastraff â phosibl ac wedi gwella'r system wresogi, awyru ac aerdymheru ar draws y llawr, o ran defnydd ynni. Mae gan y ddwy swyddfa synwyryddion goleuo sy'n golygu bod y golau'n pylu ar ôl cyfnod o anweithgarwch. Mae mannau ailgylchu ym mhob cegin hefyd.

Anogir staff i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a manteisio ar y cynllun Beicio i'r Gwaith sy'n caniatáu i ni alluogi gweithwyr i brynu beic fel rhan o fudd aberthu cyflog. Mae cyfleusterau storio diogel ar gyfer beiciau yn y ddwy swyddfa.

Ym mis Rhagfyr, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, fe wnaethom gyhoeddi newid parhaol i gynnal ein gwrandawiadau proffesiynol deintyddol ar-lein yn ddiofyn. Roedd y penderfyniad hwn yn adlewyrchu'r manteision clir a welsom dros y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys llai o deithio i gyfranogwyr, arbedion cost sylweddol, a gwell hygyrchedd i gyfranogwyr. Bydd gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn parhau i fod ar gael mewn achosion fel cefnogi cyfranogwyr agored i niwed a darpariaeth ar gyfer tystion nad ydynt yn gallu rhoi tystiolaeth o bell.

Yn dilyn ymarfer caffael llawn, fe wnaethom benodi PwC fel ein partner i wella ein prosesau cofrestru a lleihau ein dibyniaeth ar bapur yn sylweddol. Bydd hyn yn newid sut mae pobl yn gwneud cais i ymuno â'r gofrestr ar draws pob llwybr cofrestru. Ar ôl ei weithredu, bydd y gostyngiad mewn papur yn lleihau ein hôl troed carbon ac yn lleihau faint o wybodaeth sydd angen i ni ei gwaredu'n ddiogel.

Rydym yn ystyried materion cynaliadwyedd yn ein harferion caffael a buddsoddi. Mae ein cynghorwyr buddsoddi, sy'n rheoli ein portffolio asedau ariannol, yn defnyddio cysyniadau Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol, a gefnogir gan y Cenhedloedd Unedig, mewn unrhyw benderfyniad buddsoddi.

## Menter Werdd

Mae ein staff wedi sefydlu fforwm o'r enw'r Fenter Werdd, gofod i staff gydweithio ar syniadau, rhannu mewnwelediadau, a gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo arferion gwaith mwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar.

**Mae'r fforwm yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:**

### Ymrwymiad i nodau cynaliadwyedd

Lleihau'r defnydd o ynni, lleihau gwastraff, cwtogi allyriadau carbon, a chyflawni ardystiad mewn safonau cynaliadwyedd.

### Hyrwyddo arferion ecogyfeillgar

Eirioli dros arferion sy'n helpu'r amgylchedd, fel annog ailgylchu, lleihau'r defnydd o bapur, newid i oleuadau effeithlon o ran ynni, hyrwyddo gwaith o bell i leihau allyriadau cymudo, neu gefnogi'r broses o gyrchu cynhyrchion cynaliadwy.

### Ymgysylltu â gweithwyr ac addysg gweithwyr

Cynnal digwyddiadau, gweithdai ac ymgyrchoedd i addysgu ein pobl am gynaliadwyedd. Roedd hyn yn cynnwys trefnu 'heriau swyddfa werdd', darparu adnoddau i helpu staff i ddeall mwy am gynaliadwyedd, a hyfforddiant ar sut i weithredu arferion gwyrdd yn y gwaith.

### Cydweithio â rhanddeiliaid

Cydweithio â rhanddeiliaid, gan gynnwys gwerthwyr, cymunedau lleol, neu sefydliadau amgylcheddol, i nodi cyfleoedd i greu partneriaeth â grwpiau amgylcheddol, cymryd rhan mewn glanhau cymunedol, neu eirioli dros arferion cynaliadwy o ran cadwyni cyflenwi.

Yn 2025, rydym yn bwriadu datblygu cyfres o fesurau sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd swyddfa a newid ymddygiad staff. Mae enghreifftiau o'r mesurau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys:

- Darparu gwybodaeth am gamau y gellir eu cymryd i leihau allyriadau personol (hysbysu).
- Darparu lle i staff drafod a gofyn cwestiynau am y newid yn yr hinsawdd a materion amgylcheddol.
- Darparu gwybodaeth am ddyddiadau ESG allweddol (e.e. Diwrnod y Ddaear, Uwchgynhadledd Hinsawdd Fyd-eang, UNFCCC COP 30).
- Ymchwilio a chynnig achrediadau/dyfarniadau y mae'r GDC yn gymwys ar eu cyfer.
- Nodi ffyrdd o leihau'r defnydd o ynni.

## Ein hôl troed carbon

Ein hallyriadau carbon mesuradwy ar gyfer 2024 oedd 183 tunnell o'r hyn sy'n cyfateb i garbon deuocsid (tCO2e), yr un fath ag yn 2023. Ein ffynhonnell fwyaf o allyriadau oedd trydan a nwy, gan gyfrif am bron i 85% o'n holl allyriadau. Er bod ein milltiroedd busnes wedi cynyddu yn 2024, gostyngodd ein hallyriadau cyffredinol oherwydd cynnydd mewn teithio ar drenau a gostyngiad mewn teithio yn y car. Roedd y newid hwn oherwydd mwy o deithio rhwng ein swyddfeydd yn Llundain a Birmingham, mwy o ymgysylltiad wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid, nifer cynyddol o arolygiadau darparwyr addysg, a nifer uwch o wrandawiadau wyneb yn wyneb.

Cyfrifwyd ein hôl troed carbon drwy ddefnyddio data hygyrch ar gyfer ein defnydd o ynni a theithio busnes, gan ddefnyddio gofynion perthnasol safon gorfforaethol y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr a manylion allyriadau absoliwt ac wedi'u normaleiddio (cymharol).

| Math o allyriad | Gweithgarwch | Unedau 2023 | 2023 (tCO2e) | % o'r cyfanswm | Unedau 2024 | 2024 (tCO2e) | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynni anuniongyrchol (Cwmpas 2) | Allyriadau o brynu trydan, gan gynnwys gwres, stêm ac oeri (KWh). | 324,471 | 70.41 | 38.6% | 452,573 | 86.40 | 47.2% |
| | Allyriadau o brynu nwy, gan gynnwys gwres, stêm ac oeri (KWh). | 410,468 | 75.18 | 41.2% | 317,222 | 60.59 | 33.1% |
| Allyriadau anuniongyrchol eraill (Cwmpas 3) | Allyriadau sy'n gysylltiedig â cholledion grid, wrth gael trydan o'r orsaf ynni i'r sefydliad (KWh). | 324,471 | 6.44 | 3.5% | 452,573 | 8.98 | 4.9% |
| | Teithio busnes (milltiroedd). | 270,947 | 30.52 | 16.7% | 393,163 | 27.20 | 14.8% |
| **Cyfanswm yr allyriadau (tCO2e)** | | | **182.55** | **100%** | | **183.17** | **100%** |


*Mae allyriadau Cwmpas 1 yn deillio o gerbydau a pheiriannau sy'n eiddo i'r sefydliad ac yn cael eu gweithredu ganddo.

# Adolygiad ariannol


## Mae'r sylwebaeth ganlynol yn crynhoi ein gwariant net a'n sefyllfa ariannol ar 31 Rhagfyr 2024, wedi'i rannu yn ôl gweithgareddau rheoleiddio a chefnogol.

Ceir rhagor o fanylion yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol ar dudalennau 98 i 106. Mae cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan yn dilyn adolygiad o asedau hawl-i-ddefnyddio, sydd wedi effeithio ar falansau yn y cyfnod blaenorol hefyd. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 1.14.


### Dadansoddiad o incwm a gwariant (£'000)




### Dadansoddiad o wariant gweithgarwch rheoleiddio (£'000)



## Dadansoddiad o weithgareddau cefnogol




Cynyddodd y costau mewn Cyllid, AD a Phrif Swyddog Gweithredol dros 25% yn 2024, o gymharu â 2023.

Roedd y gost gynyddol hon oherwydd y canlynol:

- Buddsoddi yn ein pobl, a oedd yn cynnwys prosiectau ar newid diwylliant sefydliadol, datblygu'r gweithlu, y prosiect holl fuddion a mwy o weithgarwch cyfathrebu mewnol.
- Adnoddau i dîm caffael a rheoli contractau pwrpasol i wella effeithlonrwydd mewn gweithgarwch caffael, paratoi ar gyfer y Rheoliadau Contractio Caffael newydd a mynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol yn ein rheolaeth o drefniadau contractio masnachol.
- Sefydlogi adnoddau ein Tîm Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol, lle bu anawsterau wrth recriwtio a chadw yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

## Ystadegau ariannol allweddol 2024

| | Nodyn | 2024 £'000 | Ailddatganwyd 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm gweithredu:** | | | |
| Ffioedd cofrestru | 2 | 39,062 | 40,679 |
| Ffioedd arholiadau | 2 | 3,004 | 1,807 |
| Incwm gweithredu arall | 2 | 29 | 11 |
| **Cyfanswm** | | **42,095** | **42,497** |
| **Gwariant gweithredu yn ôl gweithgaredd:** | | | |
| Gweithgareddau rheoleiddio | | 31,261 | 28,133 |
| Gweithgareddau cymorth | | 13,614 | 11,085 |
| **Cyfanswm** | | **44,875** | **39,218** |
| **Gwarged gweithredu** | | **(2,780)** | **3,279** |
| Trethiant | 7 | (870) | (516) |
| Incwm buddsoddi ac addasiad | 2,10 | 3,307 | 2,296 |
| Enillion o werthu asedau | | 3 | 3 |
| **Gwarged wedi'i gadw** | | **(340)** | **5,062** |

O'n hincwm gweithredu yn 2024, roedd 69.7% wedi'i neilltuo ar gyfer cyflawni gweithgarwch rheoleiddio (2023: 71.7%), defnyddiwyd 25.6% ar gyfer swyddogaethau galluogi hanfodol (2023: 25.3%) a defnyddiwyd 4.7% ar gyfer gwariant arall nad yw'n arian parod (2023: 2.9%).

## Sylwebaeth ariannol

### Dadansoddiad incwm

Mae'r GDC yn cael ei ariannu'n bennaf drwy ffioedd sy'n cael eu talu gan ddeintyddion a phroffesiynolion gofal deintyddol y mae'n ofynnol iddynt fod wedi cofrestru gyda'r GDC i ymarfer deintyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae deintyddion yn talu ffi ar wahân hefyd i gynnal eu cofnod ar y rhestri arbenigol.

Gostyngodd cyfanswm yr incwm gweithredu £0.4 miliwn yn y flwyddyn 2024 i £42.1 miliwn, (2023: £42.5m). Y prif sbardunau ar gyfer y gostyngiad hwn oedd:

- Gostyngiad o £3.3m o ganlyniad i benderfyniad y Cyngor i leihau'r ffi gofrestru flynyddol (ARF) am ddwy flynedd (2024 a 2025) i ddychwelyd cronfeydd wrth gefn dros ben (ARF Deintydd: gostyngiad o £69; ARF DCP: gostyngiad o £18).
- Cynnydd o £1.7m mewn incwm cydnabyddedig mewn perthynas â cheisiadau DCP tramor, lle cafodd y ciw cofrestru o flynyddoedd blaenorol ei brosesu'n llawn yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd hyn at ryddhau incwm gohiriedig a oedd wedi'i ddal yn flaenorol.
- Cynnydd o £1.2m mewn incwm Arholiadau Cofrestru Tramor o ganlyniad i gynnydd yn nifer y lleoedd arholi yn 2024.

## Dadansoddiad gwariant

Cynyddodd cyfanswm y gwariant gweithredu £5.7m yn 2024, i £44.9m (2023: £39.2m). Y newidiadau arwyddocaol (amrywiadau dros £0.25 miliwn) i'n gwariant yn ôl swyddogaeth reoleiddio yn 2024 oedd:

- Cynnydd o £3.1m mewn costau staff, sy'n cynnwys:
  - o £0.5m yn ymwneud â chynnydd dros dro yn yr adnodd Cofrestru i gyflymu amser prosesu ceisiadau cofrestru rhyngwladol.
  - o £0.5m yn ymwneud ag adnodd Arholwr Achos dros dro ychwanegol i gefnogi'r broses o brosesu hen achosion Addasrwydd i Ymarfer.
  - o £0.2m ar gyfer adnoddau addysg a sicrhau ansawdd ychwanegol i ymateb i'r galw am arolygiadau sicrhau ansawdd o ddarparwyr addysg ddeintyddol.
  - o £0.3m ar gyfer rolau rheoli newid i gefnogi'r busnes trwy newid diwylliannol ac i gefnogi prosiectau allweddol fel datblygu'r gweithlu a'r prosiect holl fuddion.
  - o £0.2m i gefnogi dull caffael a rheoli contractau i sicrhau effeithlonrwydd contractio a pharatoi ar gyfer y Ddeddf Caffael Cyhoeddus newydd.
  - o £1.4m oherwydd ein gallu i recriwtio a chadw pobl mewn rolau gweithredol allweddol, a oedd yn swyddi gwag hirdymor heb eu cynllunio yn 2023.
- Cynnydd o £0.9m yng nghostau rhedeg yr Arholiad Cofrestru Tramor sy'n gysylltiedig â darparu sesiynau arholiad ychwanegol yn 2024.
- Cynnydd o £0.3m yng nghostau asesu'r panel cofrestru, sy'n cynrychioli prosesu nifer uwch o geisiadau cofrestru yn y cyfnod.
- Cynnydd o £0.3m oherwydd ein buddsoddiad mewn pobl, sy'n cynnwys prosiectau ar newid diwylliant sefydliadol, datblygu'r gweithlu a'r prosiect holl fuddion
- Cynnydd o £1.0m mewn perthynas â darpariaeth newydd ar gyfer tâl gwyliau di-dâl yn dilyn penderfyniad y Cyngor i gydnabod statws gweithiwr ar gyfer categorïau penodol o'n gweithlu Cyswllt.

Gydol 2024, gwnaethom barhau i elwa ar arbedion effeithlonrwydd a gynhyrchwyd gan fentrau blaenorol a oedd yn cynnwys ein Strategaeth Ystadau 2018 a'n hadolygiad o Addasrwydd i Ymarfer, a chyflawnwyd £3.7m o arbedion parhaus o'r prosiectau hyn. Daw'r arbedion cronnus dros y pum mlynedd hyd at Ragfyr 2024 i gyfanswm o £17.3m.

Rydym yn cyfyngu ar adrodd ar arbedion i uchafswm o 5 mlynedd. Ar hyd y broses o wneud arbedion effeithlonrwydd, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sicrhau nad yw gweithredu unrhyw brosiectau arbedion yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd. Rydym yn defnyddio'r arbedion hyn i sicrhau hyfywedd y sefydliad drwy gynyddu ein cronfeydd wrth gefn i lefel gynaliadwy ac ariannu rhaglenni sy'n buddsoddi mewn mesurau i ddiogelu'r cyhoedd yn fwy effeithlon.

## Dadansoddiad darpariaethau a rhwymedigaethau digwyddiadol

Yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl ar achos Somerville v Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ar statws gweithiwr (2022), lle dyfarnwyd bod Mr Somerville yn weithiwr, gwnaethom gynnal adolygiad llawn a manwl o'r gweithwyr cyswllt sydd wedi'u cymryd ymlaen gennym. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad, ar gyfer dosbarthiadau penodol o'n gweithlu cyswllt, bod y trefniadau hynny yn gyson â statws gweithiwr.

Daeth y Cyngor i benderfyniad ar 30 Mai 2025 i gydnabod statws gweithiwr ar gyfer y grwpiau cyswllt yr effeithir arnynt, gyda'r contractau hynny'n cael eu trosglwyddo o fis Mehefin 2025 i gontractau gweithwyr.

Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad y GDC i sicrhau bod ei arferion cyflogaeth yn cyd-fynd â'r safonau cyfreithiol cyfredol, yn enwedig yn dilyn cadarnhad y Llys Apêl yn achos Somerville y gall unigolion gael statws gweithiwr hyd yn oed heb isafswm rhwymedigaeth i dderbyn gwaith. Yn unol â dyfarniad Somerville, nid oes unrhyw rwymedigaeth i'n gweithwyr dderbyn unrhyw aseiniad penodol, nac i'r GDC gynnig gwaith – gan gynnal yr hyblygrwydd sydd wedi bod yn werthfawr i'r ddau barti a sicrhau hefyd bod amddiffyniadau priodol ar waith ar gyfer gweithwyr.

Fel rhan o'r newid hwn, mae'r GDC yn mynd i'r afael â hawliau gwyliau blynyddol hanesyddol, gyda gweithwyr cyswllt yn cael eu digolledu am wyliau blynyddol di-dâl a gronnwyd yn ystod eu cyfnod cymryd ymlaen cyfredol, sy'n dyddio'n ôl i ddechrau eu contract parhaus presennol neu i'r pwynt cynharaf y mae'r GDC yn cadw cofnodion ariannol ar ei gyfer (2016). Mae hyn wedi'i gydnabod yn y datganiadau ariannol hyn fel "darpariaeth tâl gwyliau" newydd o £1.0m. (Nodyn 15)

Yn ogystal, rydym wedi cydnabod rhwymedigaeth ddigwyddiadol hefyd sy'n dod i gyfanswm o £340k (Nodyn 20) i gydnabod y canlynol:

- Gall rhai trefniadau ragflaenu 2016, ac efallai y bydd rhwymedigaeth bellach yn ddyledus.
- Efallai fod gan rai gweithwyr cyswllt hawl i gael eu cofrestru'n awtomatig mewn cynllun pensiwn gweithle, felly, efallai y bydd rhwymedigaeth bellach sy'n ymwneud â chyfraniadau pensiwn cyflogwr yn ddyledus hefyd.

## Sefyllfa ariannol

Y cyfalaf a ddefnyddiwyd oedd £52.3 miliwn ar 31 Rhagfyr 2024 (2023: £52.6 miliwn) yn cynnwys cyfanswm asedau o £94.2 miliwn (2023: £94.9 miliwn) a rhwymedigaethau cyfredol ac anghyfredol o £41.9 miliwn (2023: £42.3m).

## Rhagolwg

Yn 2024, adolygwyd ein Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio ar gyfer y cyfnod 2025-2027. Wrth wneud hyn, adolygwyd a diwygiwyd ein cynlluniau i'r dyfodol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol 2023–2025 y Cyngor.[10]

Mae cyfanswm cyllideb 2025, y cytunwyd arni gan y Cyngor ym mis Hydref 2024, yn adlewyrchu cynnydd o £2.5 miliwn (5.6%) ar ein cyllideb yn 2024. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu gwaith a ohiriwyd o gyfnodau cynharach mewn Addasrwydd i Ymarfer, buddsoddiad mewn gwella prosesau ar-lein i wneud cais i gofrestru a chynnydd anochel i'n gorbenion oherwydd effaith yr economi fyd-eang a chwyddiant y DU. Mae rhagor o fanylion am ein gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025-2027 i'w gweld yn ein Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio ar gyfer 2025.[11]

Byddwn yn parhau i sicrhau arbedion ariannol o fesurau a gymerwyd eisoes yn y blynyddoedd ariannol blaenorol. Fel rhan o waith datblygu ein Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio, rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd ariannol ac effeithiolrwydd gweithredol yn y dyfodol.

10. https://www.gdc-uk.org/about-us/our-organisation/our-corporate-strategy-and-costed-corporate-plans/corporate-strategy-2023-2025

11. https://www.gdc-uk.org/docs/default-source/about-us/corporate-strategy/gdc-corporate-costed-plan-25-27.df?sfvrsn=7da23ea6_7

# Y gronfa bensiwn

Yn unol â'r safon adrodd ariannol ar gyfer costau pensiwn, IAS 19, prisiwyd elfen buddion diffiniedig ein cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2024 gan Broadstone Consultants & Actuaries Limited, actiwari'r cynllun pensiwn.

Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar asesu rhwymedigaethau'r Cynllun. Mae'r rhain yn seiliedig ar ganlyniadau'r prisiad actiwaraidd tair-blynyddol ffurfiol ar 1 Ebrill 2024, wedi eu rhagamcangyfrif, gan ganiatáu ar gyfer yr enillion disgwyliedig o fuddsoddi, cyfraniadau gwirioneddol a llifau arian ac wedi eu haddasu i ganiatáu ar gyfer y tybiaethau IAS19 a ddisgrifir isod. Amcangyfrif felly yw'r canlyniadau.

Gall canlyniadau dan y safonau adrodd newid yn ddramatig yn dibynnu ar amodau'r farchnad. Mae'r rhwymedigaethau wedi'u cysylltu ag arenillion ar fondiau corfforaethol sydd â sgôr AA, tra bod cyfran fawr o asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn ecwitiau neu fuddsoddiadau sy'n targedu taliadau ecwiti. Mae'n bwysig nodi mai'r gwahaniaeth rhwng y tybiaethau a ddefnyddir i ragamcanu llif arian yn y dyfodol a'r rhai a ddefnyddir i'w disgowntio sy'n bwysig, yn hytrach na gwerth absoliwt rhagdybiaethau unigol.

Mae IAS19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyfradd ddisgownt ddeillio o'r arenillion sydd ar gael ar fondiau corfforaethol 'o ansawdd uchel' sydd wedi'u dyddio'n briodol ar y dyddiad y mae'r cyfrifiadau ar waith. Yn gyffredinol, dehonglir bod bondiau o'r fath yn cael eu graddio ar lefel AA neu statws cyfatebol. Mae'r rhagdybiaeth cyfradd ddisgownt 0.9% yn uwch yn 2024 nag yn 2023. Effaith y symudiad hwn (gan gymryd bod popeth arall yn gyfartal) yw gostyngiad yng ngwerth rhwymedigaethau.

Yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd ar 31 Rhagfyr 2023, mae'r rhagdybiaeth chwyddiant RPI wedi'i ddeillio fel cyfartaledd pwysoledig o gyfraddau a nodwyd ar gromlin chwyddiant Banc Lloegr, yn seiliedig ar lifau arian rhagamcanol o gynllun model gyda hyd debyg i rwymedigaethau ein cynllun. Yna cymhwyswyd didyniad o 0.1% i ddileu unrhyw bremiwm risg chwyddiant. Y rhagdybiaeth RPI, yn seiliedig ar amodau'r farchnad ar 31 Rhagfyr ar y sail hon yw 3.3% y flwyddyn.

Mae'r rhagdybiaeth RPI arfaethedig 0.1% y flwyddyn yn uwch nag ar 31 Rhagfyr 2023, sydd oherwydd cynnydd bach yn y disgwyliadau chwyddiant dros y cyfnod. Bydd y cynnydd hwn, â chymryd bod popeth arall yn gyfartal, mewn chwyddiant tybiedig yn arwain at gynnydd bach mewn gwerth a roddir ar y rhwymedigaethau.

Mae amcanestyniadau tymor hir a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi awgrymu'n flaenorol bwlch canolrifol rhwng RPI a CPI o tua 1% y flwyddyn. Mae amcangyfrifon hirdymor canolog Banc Lloegr wedi awgrymu bwlch tebyg. Ar ôl cadarnhau newidiadau i RPI o 2030, mae'n rhesymol tybio y bydd y bwlch o 1% y flwyddyn rhwng RPI a CPI yn parhau tan 2030 ond y bydd yn gostwng i lefelau isel iawn (y gwahaniaeth rhwng CPI a CPIH) wedi hynny.

Er budd dull pragmatig, defnyddir un gyfradd 'gyfartalog' ar gyfer CPI tybiedig, fel yn y blynyddoedd blaenorol. Mae 'cyfran' RPI-CPI ar gyfartaledd o 0.4% y flwyddyn wedi'i gymhwyso, sydd ychydig yn is na'r gyfran 0.5% y flwyddyn a dybiwyd y llynedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfnod llai o amser hyd at 2030.

Y rhagdybiaeth CPI arfaethedig yn seiliedig ar amodau'r farchnad ar 31 Rhagfyr ar y sail hon yw 2.9% y flwyddyn (2023: 2.7%).

Yn dilyn cytundeb rhwng y Cyflogwr a'r Ymddiriedolwyr, torrwyd y cysylltiad â chodiadau cyflog ar gyfer aelodau gohiriedig cyflogedig o 31 Mawrth 2024. Bydd yr aelodau yr effeithir arnynt yn derbyn codiadau ailbrisio gohiriedig yn y dyfodol yn lle hynny, ynghyd â budd-dal iawndal ychwanegol pan fyddant yn ymddeol. Roedd lefel y budd-dal hwn a'r pensiynau gohiriedig terfynol ar 31 Mawrth 2024 wedi'u cwblhau ar y dyddiad adrodd. Mae effaith dileu'r cyswllt cyflog a'r budd-dal iawndal ychwanegol wedi'i addasu fel cost gwasanaeth blaenorol drwy'r cyfrif elw a cholled (£322k).

Ar 31 Rhagfyr 2024, roedd gan y Cynllun warged o £7.7m ar sail y tybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd. O dan ofynion 'IFRIC 14: The Limit on a Defined Benefit Asset, Minimum Funding Requirements and their Interaction', rhaid i ni gyfyngu'r gwarged yn y datganiadau ariannol gan na allwn sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged hwnnw.

Fel sy'n gyffredin gyda threfniadau cynllun pensiwn tebyg eraill, nid yw gweithredoedd ymddiriedolaeth y cynllun yn caniatáu i unrhyw warged wrth ddirwyn y cynllun i ben gael ei ddychwelyd i'r cyflogwr. Yn hytrach, byddai unrhyw warged sy'n deillio o hynny yn cael ei ddosbarthu i'w aelodau. Felly, mae unrhyw warged (ased pensiwn) sydd gan y cynllun ar adeg y prisiad yn perthyn i'r cynllun, sy'n endid cyfreithiol ar wahân.

Rhoddir manylion llawn y gwerthusiad a'r rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd yn nodyn 16 i'r cyfrifon hyn.

## Risgiau hylifedd

Gostyngodd ein balans arian parod i £58.4 miliwn (2023: £60.3 miliwn) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balansau'n gylchol ac ar eu huchaf ym mis Rhagfyr/Ionawr ac ym mis Gorffennaf/Awst pan fydd y rhan fwyaf o ddeintyddion a DCPs yn talu eu ffioedd cadw blynyddol yn llawn, gyda nifer fach yn dewis talu eu ffi gadw flynyddol drwy bedwar rhandaliad chwarterol. Mae ein gwariant wedi'i wasgaru'n gyfartal gydol y flwyddyn ariannol.

Rydym yn asesu ein hylifedd yn y dyfodol yn rheolaidd, ac mae'r gwaith hwn yn cefnogi paratoi'r cyfrifon fel busnes hyfyw. Cwblhawyd y gwaith hwn yn fanwl ac fe'i hystyriwyd gan y Cyngor fel rhan o'n cylch cynllunio Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio 2025-2027 ym mis Hydref 2024, a chafodd ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Chwefror 2025.

Mae'r senarios rydym wedi'u modelu yn cynnwys asesu ystod o risgiau incwm, ac effaith amhariad ar ein portffolio buddsoddi. Yn dilyn ein modelu, rydym yn fodlon nad yw'n agored i unrhyw risg sylweddol o hylifedd.

Buddsoddir y balansau nad oes eu hangen am resymau gweithredol tymor byr yn unol â'n hegwyddorion buddsoddi, a adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Tachwedd 2023.

## Cronfeydd wrth gefn

Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2024 oedd £52.3 miliwn (2023: £52.6 miliwn), ac o'r rhain, roedd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn £45.2 miliwn (2023: £47.2).

Ar 31 Rhagfyr 2024, roedd gennym £32.2 miliwn o gronfeydd hylifedd a chronfeydd heb eu neilltuo oedd ar gael ar unwaith ("cronfeydd wrth gefn rhydd"). Yn yr un modd â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, mae gennym gronfeydd wrth gefn rhydd i sicrhau y gall ein gweithgareddau rheoleiddio barhau drwy unrhyw gyfnod o ostyngiad annisgwyl mewn incwm neu wariant uwch (risg ariannol).

Cedwir ein cronfeydd wrth gefn rhydd hefyd i liniaru yn erbyn unrhyw lithro/gohirio ein gweithgarwch gweithredol rhwng blynyddoedd, amrywiadau tymor byr yng ngwerth ein portffolio buddsoddi a rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddion diffiniedig. Gall unrhyw amrywiadau tymor byr mewn prisiadau effeithio ar werth cronfeydd wrth gefn rhydd sydd ar gael i ni o flwyddyn i flwyddyn.

Caiff ein strategaeth a'n hegwyddorion buddsoddi eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad i sicrhau bod lefel y risg buddsoddi'n cyd-fynd â pharodrwydd y Cyngor i dderbyn risg. Mae rhwymedigaethau ein cynllun pensiwn buddion diffiniedig yn risg ariannol hirdymor. Mae'r Cyngor yn parhau i geisio lliniaru a rheoli'r risg hon drwy gyfleoedd ariannol i leihau risg y cynllun.

Mae ein dull presennol o gyllidebu yn lleihau lefel y gyllideb wrth gefn sydd gennym ar gyfer ansicrwydd ariannol. Yn hytrach, rydym yn gosod unrhyw risg ac ansicrwydd ariannol posibl o ran gwariant yn erbyn cronfeydd wrth gefn rhydd. Mae hyn yn golygu bod mwy o debygolrwydd o'r angen i alw yn erbyn cronfeydd wrth gefn rhydd, o gymharu â'r gorffennol.

Cafodd ein polisi cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2025 ei adolygu a'i gytuno ddiwethaf gan y Cyngor ym mis Hydref 2024 ac fe'i pennwyd gan gyfeirio at lefel y risg ariannol sy'n wynebu ein sefydliad. Nod y Cyngor yw rheoli ein cronfeydd wrth gefn ar lefel nad yw'n ormodol nac yn peryglu ein solfedd.

Mae Polisi Cronfeydd Wrth Gefn cymeradwy y Cyngor yn ystyried y canlynol:

- Amcanion y Cyngor o ran cyflawni ein cyfrifoldebau statudol a rheoleiddiol.
- Ariannu cyfalaf gweithio a rheoli llif arian parod y Cyngor o ddydd i ddydd, gyda'r incwm ar ei uchaf ar adegau prysur yn yr haf a'r gaeaf.
- Risgiau i incwm a gwariant y Cyngor.
- Rhaglenni mawr o wariant cyfalaf a gynlluniwyd.

Wrth osod lefel darged, ystyriodd y Cyngor y polisi cronfeydd wrth gefn a'n gwaith o reoli risg ariannol yn well, a chymeradwyodd lefel darged ostyngedig o gronfeydd wrth gefn rhydd y dylid eu cadw. Penderfynodd y Cyngor fod cronfeydd wrth gefn rhydd ar o leiaf dau fis a hanner o wariant gweithredu ac uchafswm o bedwar mis a hanner yn briodol, gyda'r targed i fod yn dri mis o wariant gweithredu (fel y'i haddaswyd ar gyfer ein hasesiad presennol o risg ariannol, erbyn diwedd ein cynllun tair blynedd presennol o weithgarwch strategol).

Ym mis Hydref 2023, cytunodd y Cyngor i ostyngiad i'r Ffi Gadw Flynyddol ar gyfer Deintyddion a DCPs yn 2024 a 2025. Fe wnaeth y gostyngiad dros dro yn y Ffi Gadw Flynyddol hwyluso dychwelyd cronfeydd wrth gefn dros ben a ddelir gan y Cyngor i aelodau cofrestredig.

Ein lefel wirioneddol o gronfeydd wrth gefn rhydd ar 31 Rhagfyr 2024, fel y'i haddaswyd ar gyfer ein hasesiad cyfredol o risg ariannol, yw 3.1 mis o wariant gweithredu. Mae'r lefel hon yn adlewyrchu uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ein hincwm a'n gwariant, dros oes cynllun tair blynedd, ac mae o fewn ystod Polisi Wrth Gefn derbyniol y Cyngor.

Dyma ein sefyllfa wrth gefn ar y dyddiad adrodd isod:

| **Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2024** | **£000** |
|---|---|
| | 45,151 |
| **O’r arian hwn:** | |
| Cronfeydd wrth gefn wedi eu hymrwymo i asedau sefydlog | (13,008) |
| Rhagolwg o symudiad cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn unol â’r Cynllun Corfforaethol wedi’i Gostio 2025–2027 | (15,838) |
| Asesiad presennol o risg ariannol dros y Cynllun Corfforaethol wedi’i Gostio 2025–2027 | (5,428) |
| **Cronfeydd wrth gefn rhydd fel y’u haddaswyd ar gyfer asesiad presennol o risg ariannol** | **£10,877**<br>**3.1 mis** |

Bydd y polisi hwn yn parhau i gael ei adolygu’n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau’n briodol yng ngoleuni ein ffocws cynyddol ar heriau ac amcangyfrifon cynllunio ariannol tymor canolig.

## Archwilwyr allanol

Mae’r cyfrifon wedi’u harchwilio gan ein harchwilwyr, y Rheolwr a’r Archwilydd Cyffredinol, National Audit Office, 157–197 Buckingham Palace Road, Victoria, Llundain SW1W 9SP.

## Datgelu gwybodaeth archwilio i’r archwilwyr

Cyn belled ag y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol na ŵyr archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol amdani. Rydym wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gwybod am y wybodaeth honno.

**Tom Whiting,**
Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu

4 Gorffennaf 2025

# Adran dau:

# Adroddiad Atebolrwydd

Mae'r Adroddiad Atebolrwydd yn nodi sut rydym yn bodloni ein gofynion atebolrwydd allweddol i'r Senedd yn San Steffan.

# Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol

## Strwythur y Cyngor a'i Bwyllgorau

Mae'r GDC yn gorff corfforedig wedi'i gyfansoddi o dan Ddeddf Deintyddion 1984.

Y Cyngor yw corff strategol y GDC. Mae'n penderfynu ar bolisi, yn gosod cyfeiriad strategol ac yn cymeradwyo newidiadau sefydliadol allweddol. Mae'r Cyngor yn gweithio i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd a sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn y proffesiwn deintyddol.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 aelod: chwe aelod nad ydynt yn gofrestredig (lleyg) a chwe aelod cofrestredig (sydd wedi'u cofrestru gyda'r GDC ar hyn o bryd). Penodir aelodau'r Cyngor gan y Cyfrin Gyngor ac mae'r broses benodi yn cael ei sicrhau gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.

Mae Aelodau'r Cyngor gyda'i gilydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Gosod cyfeiriad strategol y GDC o fewn ei fframwaith statudol.
- Sicrhau bod gan y cyhoedd a rhanddeiliaid hyder yn y GDC ar y cyd â'r Prif Weithredwr.
- Dwyn y Weithrediaeth i gyfrif am reoli gweithrediadau o ddydd i ddydd a sicrhau bod gweithrediadau'r GDC yn cael eu trefnu mewn ffyrdd sy'n hwyluso'r broses o gyflawni swyddogaethau craidd yn y modd mwyaf effeithiol.
- Sicrhau bod y Cyngor yn modelu egwyddorion bywyd cyhoeddus ac ymddygiadau arweinyddiaeth y GDC.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Darparu arweinyddiaeth y Cyngor a'r GDC, a sicrhau bod y Cyngor yn gosod cyfeiriad strategol y GDC o fewn ei fframwaith statudol.
- Mewn partneriaeth â'r Prif Weithredwr, arwain cysylltiadau allanol y GDC, gan sicrhau bod gan y cyhoedd a rhanddeiliaid hyder yn y GDC.
- Darparu her a chraffu ar weithrediadau'r GDC, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol y sefydliad.
- Gosod tôn, ymddygiad a diwylliant cadarnhaol i'r sefydliad.

## Cylch gwaith y Cyngor

Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu. Materion a gedwir yn ôl i'r Cyngor yw:

- Strategaeth y GDC.
- Gwneud rheolau statudol.
- Cymeradwyo'r gyllideb a'r cynllun busnes blynyddol.
- Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon ac unrhyw adroddiad sydd angen ei gyflwyno gerbron dau Dŷ'r Senedd.
- Dwyn y Tîm Gweithredol i gyfrif am reoli'r sefydliad.
- Goruchwylio risgiau strategol a phennu parodrwydd i dderbyn risg.

## Aelodaeth y Cyngor a phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn 2024

| Aelod | Aelod Lleyg/Cofrestredig | Presenoldeb yn y Cyngor |
|---|---|---|
| Yr Arglwydd Toby Harris (Cadeirydd) | Lleyg | 5 o 5 |
| Reshard Auladin* | Lleyg | 2 o 2 |
| Terry Babbs** | Lleyg | 3 o 3 |
| Ilona Blue | Lleyg | 5 o 5 |
| Donald Burden | Aelod Cofrestredig | 5 o 5 |
| Anne Heal | Lleyg | 5 o 5 |
| Angie Heilmann MBE | Aelod Cofrestredig | 5 o 5 |
| Serbjit Kaur MBE | Aelod Cofrestredig | 4 o 5 |
| Sheila Kumar | Lleyg | 5 o 5 |
| Mike Lewis | Aelod Cofrestredig | 5 o 5 |
| Timea Milovecz | Aelod Cofrestru | 5 o 5 |
| Simon Morrow | Aelod Cofrestredig | 5 o 5 |
| Laura Simons | Lleyg | 5 o 5 |

*Ymunodd â'r Cyngor ar 1 Hydref 2024

**Tymor wedi dod i ben ar 30 Medi 2024

## Pwyllgorau statudol

Mae chwe phwyllgor statudol sy'n cyflawni gwaith y GDC, sy'n cynnwys panelwyr lleyg a phanelwyr cofrestredig annibynnol ac maent yn atebol i'r Cyngor. Nid yw Aelodau'r Cyngor yn eistedd ar y pwyllgorau statudol.

### Pwyllgor Ymchwilio

Mae'n ystyried honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer er mwyn penderfynu a ddylid cyfeirio'r honiadau at un o'r tri Phwyllgor Ymarfer (y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, y Pwyllgor Iechyd neu'r Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol) am ymchwiliad llawn. Mae swyddogaethau'r Pwyllgor Ymchwilio yn cael eu dirprwyo i archwilwyr achos yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol.

### Pwyllgor Gorchmynion Interim

Mae'n ystyried a oes angen gosod gorchymyn interim yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd. Wrth wneud hyn mae'n ystyried a oes risg i ddiogelu'r cyhoedd, a yw er budd y cyhoedd neu a yw er budd yr aelod cofrestredig ei hun ac a oes angen cyfyngu ar ymarfer yr aelod cofrestredig.

### Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Mae'n penderfynu a yw gallu'r sawl sydd wedi cofrestru i ymarfer fel gweithiwr proffesiynol deintyddol yn cael ei amharu gan gamymddygiad honedig, rhybudd, euogfarn neu benderfyniad corff rheoleiddio arall. Ochr yn ochr â materion ymddygiad, gall y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ystyried materion yn ymwneud ag iechyd neu berfformiad hefyd.

### Pwyllgor Iechyd

Mae'n ystyried achosion lle gall gallu gweithiwr proffesiynol deintyddol i ymarfer gael ei effeithio gan gyflwr corfforol neu iechyd meddwl. Gall hefyd, ochr yn ochr ag unrhyw faterion iechyd, ystyried materion ymddygiad neu berfformiad.

### Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol

Mae'n ystyried honiadau lle mae'n ymddangos bod perfformiad gweithiwr proffesiynol deintyddol yn ddiffygiol a lle gall y diffyg hwn amharu ar ei addasrwydd i ymarfer.

### Pwyllgor Apeliadau Cofrestru

Mae'n ystyried apeliadau gan weithwyr proffesiynol deintyddol am y rhesymau canlynol:

Gwrthod cofrestru.

Tynnu oddi ar y gofrestr*

Gwrthod dychwelyd i'r Gofrestr*


Tynnu oddi ar y Gofrestr am fethu â bodloni'r gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

*Nid yw Pwyllgorau Apeliadau Cofrestru yn ymdrin ag apeliadau mewn perthynas â phenderfyniadau gan Bwyllgorau Ymarfer lle mae gweithwyr proffesiynol deintyddol wedi derbyn cosb neu wedi cael eu dileu o'r gofrestr.

## Pwyllgorau Anstatudol

Yn ystod 2024, roedd tri phwyllgor anstatudol yn cefnogi'r Cyngor yn ei rôl a'i swyddogaethau: y pwyllgorau Archwilio a Risg, Cyllid a Pherfformiad, a Chydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu. Diben y pwyllgorau anstatudol hyn yw sicrhau bod materion penodol yn destun craffu a monitro manwl, ar ran y Cyngor, a rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar sail hyn. Roedd cadeiryddion y pwyllgorau'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ar ôl pob cyfarfod ac yn rhoi adroddiad blynyddol i'r Cyngor, ar ddiwedd y flwyddyn, gan grynhoi perfformiad yn erbyn eu rhaglenni gwaith.

Mae pob pwyllgor yn cynnwys aelodau cofrestredig ac aelodau lleyg o'r Cyngor. Yn ogystal, cefnogir y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Enwebu gan Aelod Annibynnol.



## Pwyllgor Archwilio a Risg

Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio a Risg yw cefnogi'r Cyngor drwy graffu i weld a yw'r sicrwydd ar faterion llywodraethu, systemau rheoli mewnol a rheoli risg, a ffynonellau sicrwydd annibynnol a ddarperir gan y gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol, yn gynhwysfawr ac yn ddibynadwy.

## Gweithgareddau allweddol

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo ac yn craffu ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer codi pryderon mewn perthynas â thwyllo, chwythu'r chwiban ac ymchwiliadau arbennig.

Yn 2024, bu'r Pwyllgor yn adolygu rhaglen archwilio mewnol y GDC ac yn craffu ar y dull rheoli risg strategol. Adolygodd y Pwyllgor hefyd y risgiau sy'n gysylltiedig â Llywodraethu Gwybodaeth, Gwasanaethau Pobl, Addasrwydd i Ymarfer a systemau TG.

## Aelodaeth

| Aelod | Presenoldeb |
|---|---|
| Sheila Kumar (Cadeirydd) | 8 o 8 |
| Simon Morrow | 8 o 8 |
| Serbjit Kaur | 5 o 8 |
| Laura Simons | 8 o 8 |
| Elizabeth Butler (aelod annibynnol) | 7 o 8 |

## Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yw darparu sicrwydd i'r Cyngor drwy herio a monitro'r Tîm Gweithredol ar berfformiad ariannol a metrigau perfformiad o fath arall a gweithio gyda'r Tîm Gweithredol i ddatblygu set ddata briodol a chymesur fel y gall y Cyngor gyflawni ei swyddogaethau.

## Gweithgareddau allweddol

Yn 2024, elfen sylweddol o waith y Pwyllgor oedd craffu ar ddatblygiad Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio 2025–2027 a chyllideb 2025 a goruchwylio'r gwaith hwnnw. Fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2024. Trafododd y Pwyllgor hefyd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig GDC a modelau amrywiol i gyflawni effeithlonrwydd ariannol.

Darparodd y Pwyllgor waith craffu manwl ar berfformiad y sefydliad, trwy dderbyn yr adroddiadau'r Cerdyn Sgorio Cytbwys a'r Rhagolwg Ariannol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau gweithredol a oedd yn canolbwyntio ar welliannau a chynnydd ar draws pob un o'r swyddogaethau Rheoleiddio. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar ddarpariaethau pensiwn ac ymgymerodd ag adolygiadau o bolisïau a gweithdrefnau ariannol.

Cwblhaodd y Pwyllgor raglen flynyddol o adolygiadau manwl a phenodol ar y gallu i sicrhau adnoddau ar gyfer gweithgarwch prosiectau, modelu incwm, a chyfathrebu ac ymgysylltu allanol.

## Aelodaeth

| Aelod | Presenoldeb |
|---|---|
| Terry Babbs (Cadeirydd)* | 5 o 5 |
| Ilona Blue (Cadeirydd)** | 7 o 7 |
| Reshard Auladin*** | 2 o 2 |
| Donald Burden | 6 o 7 |
| Anne Heal | 7 o 7 |

* Cadeirydd tan 30 Medi 2024.

** Aelod drwy gydol 2024 a Chadeirydd o 1 Hydref 2024.

*** Ymunodd â'r Pwyllgor ar 1 Hydref 2024.

## Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu

Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu (RemNom) yw rhoi sicrwydd i'r Cyngor drwy graffu ar y dull o wobrwyo'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, y Cyfarwyddwyr Gweithredol, Aelodau'r Cyngor, Aelodau Annibynnol o bwyllgorau anstatudol a deiliaid swyddi Cyswllt penodol.

Mae'r Pwyllgor yn craffu ar y broses o benodi a gwerthuso'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, Aelodau'r Cyngor ac Aelodau Annibynnol o bwyllgorau anstatudol, yn ogystal â'r trefniadau cynllunio ar gyfer penodi ac arfarnu'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, a'r cynllun olyniaeth ar eu cyfer.

## Gweithgareddau allweddol

Yn 2024, cymeradwyodd y Pwyllgor y broses benodi ar gyfer recriwtio aelod cofrestredig ar gyfer y Pwyllgor Sicrwydd Panelwyr Statudol ac aelod Swyddog Cyswllt Llywodraethu Annibynnol (IGA) newydd o'i Bwyllgor ei hun, ac fe gadarnhawyd y penodiadau hyn yn ystod y flwyddyn.

Cymeradwyodd y Pwyllgor brosesau penodi ac ailbenodi ar gyfer Aelodau'r Cyngor ac IGAs ar gyfer 2025 hefyd. Roedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) yn ystyriaeth allweddol i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r prosesau penodi a sefydlu.

Craffodd y Pwyllgor ar y broses arfarnu ar gyfer y Cadeirydd, Aelodau'r Cyngor a'r IGAs ar gyfer 2024, gan eu cymeradwyo, a chymeradwyodd y broses arfaethedig o osod amcanion ar gyfer 2025 ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol.

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni Cynllun Datblygu'r Gweithlu, a'r cynllun gweithredu sy'n deillio o Arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr 2023. Cafwyd sicrwydd ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer cynllunio olyniaeth hefyd.

## Aelodaeth

| Aelod | Presenoldeb |
|---|---|
| Anne Heal (Cadeirydd) | 4 o 4 |
| Mike Lewis | 3 o 4 |
| Angie Heilmann MBE | 4 o 4 |
| Timea Milovecz* | 4 o 4 |
| Ann Brown (aelod annibynnol) ** | 3 o 3 |
| Jane Slatter (Aelod annibynnol) *** | 1 o 1 |

* Ymunodd â RemNom ar 6 Ebrill 2024.

** Gadawodd RemNom ar 2 Hydref 2024.

*** Ymunodd â RemNom ar 3 Hydref 2024.

## Y Pwyllgor Penodiadau (y Pwyllgor Sicrwydd Panelwyr Statudol)

Mae'r Cyngor wedi arfer y pŵer i sefydlu Pwyllgor Penodiadau, sef y Pwyllgor Sicrwydd Panelwyr Statudol (SPC). Fe'i rheolir gan Orchymyn Rheolau Cyngor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Cyfansoddiad Pwyllgorau) 2009.

Cylch gwaith yr SPC yw rhoi sicrwydd i'r Cyngor drwy graffu ar y broses ar gyfer penodi aelodau o Bwyllgorau Statudol y Cyngor, a'u cynghorwyr. Mae'r Pwyllgor yn craffu hefyd ar y broses ar gyfer goruchwylio perfformiad aelodau'r Pwyllgor Statudol ac yn darparu cyngor ar oruchwylio perfformiad cynghorwyr.

## Gweithgareddau allweddol

Yn 2024, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar y rhaglenni dysgu a datblygu ar gyfer panelwyr, yn ogystal ag ar y fframwaith sicrhau ansawdd a oedd yn cefnogi penderfyniadau'r Pwyllgor Statudol.

Derbyniodd y Pwyllgor drosolwg cynhwysfawr hefyd o berfformiad y Gwasanaeth Gwrandawiadau Proffesiynol Deintyddol (DPHS), cynnydd achosion a gwelliannau o ran rheoli achosion.

Darparodd y Pwyllgor waith craffu ar y dull o asesu perfformiad panelwyr unigol a derbyniodd ddiweddariadau rheolaidd ar recriwtio carfan o gynghorwyr cyfreithiol a phroffesiynol. Cymeradwyodd y Pwyllgor ailbenodi nifer o banelwyr a phenodi cadeiryddion paneli ac estyn eu tymhorau.

## Aelodaeth

| Aelod | Lleyg/Cofrestredig | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Syr Ross Cranston FBA (Cadeirydd) | Lleyg | 4 o 4 |
| Carol Ashton | Lleyg | 2 o 4 |
| Ei Anrhydedd y Barnwr Philip Sycamore | Aelod Lleyg | 4 o 4 |
| Jasvinder Matharoo | Aelod Cofrestredig | 4 o 4 |
| Sarah Ramage* | Aelod Cofrestredig | 1 o 1 |

* Ymunodd â'r SPC ar 1 Hydref 2024.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Deintyddion 1984 rhaid i ni baratoi cyfrifon blynyddol ar fformat a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Paratoir y Cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o'r GDC a'i incwm a'i wariant, y newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn a'r llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu'r GDC. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n bennaf gyfrifol i'r Cyfrin Gyngor a'r Senedd yn San Steffan am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid y GDC, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau'r GDC.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu:

- Dalu sylw i'r penderfyniad cyfrifon a gyhoeddir gan y Cyfrin Gyngor, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgan perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas gyda chysondeb.
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol.
- Datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yn y Penderfyniad Cyfrifon, wedi cael eu dilyn, gan ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau pwysig yn y cyfrifon.
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny.
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, cytbwys a dealladwy a derbyn cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd angen eu gwneud i benderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi ystyried y gofynion uchod ac o'r farn bod y cyfrifon, lle bo'n berthnasol i'r GDC, wedi cydymffurfio â hwy dan bob amgylchiad pwysig, gydag unrhyw faterion arwyddocaol wedi'u nodi yn y Datganiad Llywodraethu sy'n dilyn.

# Datganiad llywodraethu

**"Yn fy rôl fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal llywodraethiant effeithiol a sicrhau bod system rheoli mewnol gadarn ar waith i gefnogi polisïau, nodau ac amcanion y GDC, ac i ddiogelu asedau'r sefydliad, yr wyf yn bersonol atebol amdanynt."**

Wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu rwy'n ystyried - er nad wyf wedi fy nghyfyngu gan - y canllawiau yn Rheoli Arian Cyhoeddus.[12]

Wrth wneud fy asesiad, defnyddiais wybodaeth o adroddiadau gan archwilwyr mewnol, a thrafodaethau gyda nhw, a thrwy fonitro ein cofrestri risg yn barhaus. Hefyd, cefais sicrwydd drwy'r flwyddyn gan Dîm Arwain Gweithredol y GDC, gwybodaeth am berfformiad a rheolaeth ariannol a gynhyrchir gan y sefydliad a gwaith y Cyngor a'i bwyllgorau.

Gan nad yw'r GDC wedi'i ddosbarthu fel corff hyd braich, nid oes angen iddo gydymffurfio â'r ddogfen Corporate Governance in Central Government Departments: Code of Practice 2017. Serch hynny, rydym yn ystyried yr egwyddorion ymarfer da a fynegir yn y ddogfen honno wrth ddatblygu ac adrodd ar ein trefniadau llywodraethu. Cyflwynir ein harferion i sicrhau llywodraethiant effeithiol, tryloyw ac atebol yn yr adran ar Effeithlonrwydd y Bwrdd.

12. https://www.gov.uk/government/publications/managing-public-money

## Effeithiolrwydd y Bwrdd

Cynhaliwyd adolygiad allanol diwethaf y GDC o effeithiolrwydd y bwrdd ym mis Hydref 2019. Ym mis Hydref 2024, penododd y Cyngor Campbell Tickell i gynnal adolygiad newydd o'i effeithiolrwydd. Nododd y Cyngor stiwardiaeth effeithiol, gwneud penderfyniadau ar y cyd a her adeiladol fel y prif feysydd ffocws ar gyfer yr adolygiad. Yn ogystal, roedd y Cyngor yn awyddus i'r adolygiad ystyried diwylliant y Cyngor a'i effaith ar ymddygiadau a diwylliant sefydliadol.

Wrth gynnal yr adolygiad, cynhaliodd Campbell Tickell adolygiad desg o drefniadau llywodraethu GDC, arolwg ar-lein ar gyfer y Cyngor a'r Tîm Arwain Gweithredol, cyfweliadau un i un, a hwyluso gweithdai gyda'r Cyngor a'r Uwch-dîm Rheoli ac arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor. Adroddwyd am Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd i'r Cyngor yn ei gyfarfod cyhoeddus ar 28 Chwefror 2025, gyda'r argymhellion wedi'u derbyn a chynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i weithredu'r newidiadau.

Cynhaliodd y Cyngor drafodaethau mewn dau o'i gyfarfodydd ar ddatblygiad y Bwrdd yn ystod 2024. Roedd hyn yn rhan o raglen datblygu dreigl tair blynedd i sicrhau bod y Cyngor, a'i iteriadau yn y dyfodol, yn parhau i feddu ar y sgiliau Bwrdd angenrheidiol i sicrhau arweinyddiaeth effeithiol. Yn ogystal, cynhaliwyd gweithdai ym mis Gorffennaf a Rhagfyr 2024, a bydd y rhaglen hon yn parhau yn 2025. Ar lefel unigol, ac yn unol ag arferion gorau derbyniol, cymerodd Aelodau'r Cyngor ran mewn cyfarfodydd arfarnu blynyddol. Wrth baratoi ar gyfer y trafodaethau hynny, anogwyd unigolion i fyfyrio ar eu perfformiad eu hunain ac i nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cafodd y Cyngor sicrwydd am effeithiolrwydd ei bwyllgorau anstatudol drwy dderbyn adroddiadau sicrwydd ysgrifenedig ym mhob un o'i gyfarfodydd Cyngor gan Gadeiryddion y Pwyllgorau ar y gwaith a wnaed ar ran y Cyngor ers ei gyfarfod diwethaf, ac adroddiadau blynyddol gan bob pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn.

## Tîm Arwain Gweithredol

Cefnogir y Cyngor gan staff, a arweinir gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, a'r aelodau eraill o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.

Y Cyngor sy'n penderfynu ar y strategaeth a pholisi ynghyd â chanlyniadau ac allbynnau'r GDC er mwyn cyflawni ei bwrpas a'i werthoedd. Mater i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arwain Strategol yw sut y cyflawnir y canlyniadau a'r allbynnau hynny. Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn gyfrifol am:

- Arwain a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gweithrediadau'r GDC, a gwella eu hansawdd a'u heffeithlonrwydd.
- Gweithredu'r strategaeth gorfforaethol a gymeradwyir gan y Cyngor.
- Cyllidebu a chynllunio busnes.
- Cyflwyno adroddiadau rheoli rheolaidd i'r Cyngor a sicrhau bod adroddiadau priodol yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau'r Cyngor ar faterion o fewn eu cylchoedd gwaith.
- Nodi ac adrodd ar risgiau strategol i'r Cyngor a sicrhau bod perchnogaeth pob risg yn cael ei dyrannu ar y lefel iawn gydag atebolrwydd clir.

Yn ystod 2024, fe wnaeth y Tîm Arwain Gweithredol gyfarfod yn ffurfiol o leiaf unwaith y mis.

Dyma feysydd cyfrifoldeb aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol yn ystod 2024:

**Prif Weithredwr a Chofrestrydd: Tom Whiting** (o 3 Mehefin 2024)

**Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro: Gurvinder Soomal**
(o 7 Tachwedd 2023 i 2 Mehefin 2024)

**Prif Swyddog Gweithredu: Gurvinder Soomal**
(ailddechrau rôl barhaol fel Prif Swyddog Gweithredu o 3 Mehefin 2024):

Gweithrediadau Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyllid a Chaffael, Prosiectau Corfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Prosiectau (PMO), TG, Rheoli Risg ac Archwilio Mewnol, Cyfleusterau, Pobl a Datblygu Sefydliadol.

**Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro: Samantha Bache**
(o 13 Tachwedd 2023 i 31 Mai 2024)

Gweithrediadau Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyllid a Chaffael, Prosiectau Corfforaethol a PMO, TG, Rheoli Risg ac Archwilio Mewnol a Chyfleusterau.

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio: Theresa Thorp**

Cofrestru, Addasrwydd i Ymarfer, Archwilwyr Achosion a Sicrwydd Ansawdd, Gwasanaeth Gwrandawiadau Gweithwyr Proffesiynol Deintyddol a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth: Stefan Czerniawski**

Polisi ac Ymchwil, Ymgysylltu a Chyfathrebu Allanol, a Sicrhau Ansawdd Addysg.

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyfreithiol a Llywodraethu: Lisa Marie Williams**
(hyd at 1 Mawrth 2024)

Gwasanaethau Cyflwyniad Cyfreithiol, Gwasanaethau Cynghori Cyfreithiol Mewnol, Llywodraethu, a Llywodraethu Gwybodaeth.

**Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Cyfreithiol a Llywodraethu: Clare Paget** (o 4 Mawrth 2024)

Gwasanaethau Cyflwyniad Cyfreithiol, Gwasanaethau Cynghori Cyfreithiol Mewnol, Llywodraethu, a Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae Cyfarwyddwyr Cyswllt, a elwir yn Uwch Dîm Rheoli, yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni blaenoriaethau sefydliadol GDC ac arwain timau staff.

## Gwrthdaro buddiannau

Ar gyfer pob corff cyhoeddus, mae'n hanfodol cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y sefydliad a'r unigolion sy'n gysylltiedig ag ef. Pan fydd achos o wrthdaro buddiannau yn codi, mae'r egwyddorion tryloywder ac uniondeb yn berthnasol, ac mae'r GDC yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwrthdaro o'r fath i ganiatáu i'r sefydliad reoli'r gwrthdaro yn unol â hynny.

Nod y GDC yw sicrhau bod achosion o wrthdaro buddiannau yn cael eu rheoli'n gyson i ddiogelu uniondeb y broses o wneud penderfyniadau yn y sefydliad a sicrhau bod Aelodau'r Cyngor a Swyddogion Cyswllt Llywodraethu Annibynnol yn gallu gweithredu'n gyson â'u cyfrifoldeb i weithredu er budd y cyhoedd.

Mae trefniadau clir ar waith ar gyfer rheoli unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau. Rydym yn cynnal Cofrestr o fuddiannau ar gyfer y Tîm Arwain Gweithredol[13] a Chofrestr o fuddiannau ar gyfer y Cyngor[14], sydd i'w gweld ar dudalen proffil unigol pob aelod. Mae'n cael ei hadolygu'n rheolaidd ac mae'n gofnod cyfredol o ddiddordebau a gwybodaeth berthnasol.

## Trosolwg o risgiau strategol

Rydym yn cadw at fethodoleg Rheoli Risg Menter (ERM) ar gyfer Rheoli Risg ac yn cynnal Cofrestr Risg Strategol (SRR) fyw, y mae ein Tîm Arwain Gweithredol yn gyfrifol amdani. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei barodrwydd i dderbyn risg.

Mae'r SRR yn destun adolygu, craffu a chymeradwyo gan y Tîm Arwain Gweithredol, a chaiff ei chyflwyno ar gyfer adolygu a chraffu i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhob un o'i gyfarfodydd, a'i chyflwyno'n flynyddol i'r Cyngor. Cynhelir sesiynau sganio'r gorwel am risg ledled y GDC, gan gynnwys gyda'r Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Er mwyn sicrhau bod yr SRR yn gyflawn a bod yr holl risgiau ynddi'n rhai strategol, islaw'r SRR mae Cofrestri Risg Weithredol ar lefel cyfarwyddiaeth. Mae'r Cofrestri hyn yn cael eu his-gategoreiddio yn ôl tîm ac yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n fisol. Darperir sesiynau hyfforddi Rheoli Risg i'r holl staff newydd a darperir gweithdai gloywi rheoli risg i dimau lle bo angen.

Mae goruchwylio a monitro'r Gofrestr Risg Weithredol gan y Tîm Arwain Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Cyngor yn caniatáu asesiad o'r graddau y mae risgiau strategol yn cael eu lliniaru drwy reolaethau effeithiol. Mae hyn yn cynnwys nodi'r risgiau sydd y tu allan i barodrwydd i dderbyn risg y Cyngor ac mae'n helpu i benderfynu sut mae'r sefydliad yn perfformio yn erbyn y trothwyon amlygrwydd i risg a osodir gan y Cyngor.

Mae'r dogfennau risg hyn yn rhoi gwybodaeth i gynorthwyo a llywio penderfyniadau, monitro cynnydd yn erbyn strategaeth gorfforaethol y Cyngor a helpu i ddwyn y Tîm Gweithredol i gyfrif am berfformiad a chyflawniad y sefydliad.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg strategol yn flynyddol. Mae pob risg weithredol a strategol wedi'i halinio'n briodol â'r parodrwydd i dderbyn risg.

13. https://www.gdc-uk.org/about-us/who-we-are/the-executive-team

14. https://www.gdc-uk.org/about-us/who-we-are/the-gdc-council/council-members

## Datgelu'r prif risgiau, materion ac elfennau ansicr

Mae achosion a chanlyniadau posibl yr holl risgiau a nodwyd yn cael eu hystyried yn ffurfiol, yn ogystal â'r fframwaith rheoli i'w lliniaru ac unrhyw fesurau lliniaru risg sydd yn yr arfaeth a fydd yn lleihau amlygiad ymhellach. Rydym hefyd yn ystyried ac yn monitro pa mor hir y disgwylir i risgiau fod yn risgiau.

Rydym yn gweithredu model amddiffyn tair elfen ac yn ei ddefnyddio i ystyried y sicrwydd sydd ar gael i gefnogi'r ffordd y mae risg yn cael ei reoli a pha mor effeithiol yw ein fframwaith rheoli. Mae'r holl risgiau wedi'u halinio â blaenoriaethau CCP er mwyn sicrhau y gellir gwerthuso'r cysylltiad rhwng y risgiau, perfformiad a chyflawni amcanion strategol.

Mae risgiau SRR yn cael eu nodi oherwydd natur strategol canlyniadau posibl y risgiau, ac nid o reidrwydd oherwydd bod y GDC yn agored i lefel sylweddol o risg.

Mae gennym risgiau strategol o ran bod GDC yn rheoleiddiwr effeithiol, sy'n cynnwys cyflawni'r ORE a chyflawni a chynnal safonau ASP. Rydym hefyd wedi nodi bod risgiau wedi'u halinio â swyddogaethau corfforaethol y GDC hefyd, gan gynnwys risgiau sy'n cwmpasu bygythiadau seiberddiogelwch sy'n newid yn barhaus: cael prosesau priodol wedi'u nodi ac ar waith i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Strategaeth EDI; gwytnwch ariannol; ein gallu i weithredu newid mewn modd effeithiol ac amserol; creu a chynnal gweithle gwydn sy'n ystyriol o les staff; a llywodraethu data. Rydym yn ystyried risg o ran datblygiad proffesiynol parhaus i gynhyrchu a chynnal gweithwyr proffesiynol deintyddol da hefyd.

Mae risgiau lle mae'r rhesymau y tu hwnt i reolaeth y GDC. Rydym yn cadw'r rhain mewn cof bob amser, er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa i leihau risgiau cyn gynted â phosibl ac i'r graddau y bo hynny'n bosibl. Mae enghreifftiau o'r risgiau hyn yn cynnwys: ein gallu i raddio ymatebion yn addas neu'n ddigon cyflym i ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd mewnol ac allanol; potensial diwygio strwythurol; newidiadau deddfwriaethol sy'n effeithio ar ein defnydd o Swyddogion Cyswllt; a chyflenwad deintyddion y GIG.

Yn unol â phrosiectau sefydliadol sylweddol sy'n canolbwyntio ar unigolion, mae gennym ystyriaethau risg strategol hefyd ynghylch creu a chynnal gweithle gwydn sy'n ystyriol o les staff.

## Chwythu'r Chwiban

Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn atebol a chynnal safonau moesegol uchel ym mhopeth a wnawn. Mae gan holl staff a swyddogion cyswllt y GDC rolau pwysig wrth gyflawni'r nod hwn a rhan o'r cyfrifoldeb hwn yw codi pryderon pan fydd pethau'n mynd o'i le ac ymateb i bryderon a gyflwynir i ni fel rheoleiddiwr.

Rydym yn adrodd yn flynyddol ar gyflawni dyletswyddau rhagnodedig ein corff lle mae datgeliadau yn cael eu gwneud i ni gan chwythwyr chwiban. Mae'r data hwn yn cael ei gasglu mewn adroddiad datgeliadau chwythu'r chwiban ar y cyd a gyhoeddir gan yr holl reoleiddwyr proffesiynau iechyd i dynnu sylw at ein hymdrechion cydgysylltiedig i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r materion difrifol a godir gyda ni. Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cawsom 79 o ddatgeliadau o wybodaeth.

Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaethom adolygu a diwygio ein proses a'n gweithdrefnau ar gyfer adnabod chwythwyr chwiban. Roedd hyn yn ein galluogi i gynnal adolygiad cyfreithiol cynnar o'r holl achosion i helpu i adnabod chwythwyr chwiban a rhoi gwell amddiffyniad a chefnogaeth iddynt. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiwygio ein ffurflen we ar gyfer adrodd pryderon cychwynnol er mwyn caniatáu i unigolion sy'n codi pryderon hunan-adnabod fel chwythwyr chwiban.

O gymharu â rheoleiddwyr eraill, rydym yn parhau i gael cyfran uwch o ddatgeliadau o ystyried maint y gofrestr. Fodd bynnag, mae'n werth tynnu sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o ddeintyddiaeth yn cael ei darparu mewn lleoliad gofal sylfaenol a thu allan i'r fframwaith llywodraethu clinigol mwy cadarn sy'n nodweddu rhai mathau eraill o ofal iechyd.

Rydym yn gweithredu polisi chwythu'r chwiban mewnol hefyd ar gyfer ein gweithwyr, contractwyr, aelodau o'r Cyngor a phartneriaid.

## Gwasanaethau Archwilwyr Mewnol

Mae gan y GDC dîm archwilio mewnol a gefnogir gan RSM, a ddarparodd wasanaeth archwilio mewnol annibynnol allanol i'r Cyngor yn ystod 2024. Yn dilyn dadansoddiad bwlch sicrwydd o'r cofrestri risg strategol a gweithredol, cafodd cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2024 ei ddatblygu gyda RSM a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Yn dilyn pob aseiniad archwilio mewnol, lle bo angen, gwneir argymhellion i wella naill ai dyluniad y fframwaith rheoli neu'r ffordd mae'n cael ei gymhwyso. Gellir categoreiddio'r rhain fel argymhellion blaenoriaeth 'uchel', 'canolig' neu 'isel'. Ar ôl cytuno ar yr argymhellion hyn, pennir swyddog i fod yn gyfrifol am weithredu pob argymhelliad a chytunir ar ddyddiad gweithredu. Mae sgoriau sicrwydd archwilio yn amrywio rhwng pedair lefel sicrwydd bosibl – sicrwydd sylweddol, sicrwydd rhesymol, sicrwydd rhannol a sicrwydd lleiaf.

Ar gyfer 2024, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ystyried a derbyn adroddiadau Archwilio Mewnol RSM ar y canlynol:

- Pennu'r Gyllideb a Chynllun Corfforaethol wedi'i Gostio.
- Proses Sefydlu.
- Dysgu a Datblygu.
- Cysylltiadau Allanol.
- Rheolaethau Ariannol Allweddol.

Yn dilyn yr archwiliadau hyn, gwnaed un argymhelliad blaenoriaeth uchel (yn ymwneud ag adolygu'r Broses Sefydlu), deg argymhelliad blaenoriaeth ganolig a saith o argymhellion blaenoriaeth isel.

Derbyniodd un adolygiad sicrwydd rhannol, sef adolygiad o'r Broses Sefydlu. Er bod yr argymhelliad lefel uchel yn ymwneud â chwblhau rhestrau gwirio sefydlu a chyfnodau prawf, nid oedd unrhyw fethiannau neu dueddiadau sylfaenol eraill a arweiniodd at yr adolygiad hwn yn derbyn sicrwydd rhannol.

Roedd yr holl argymhellion yn manylu ar y camau gweithredu a'r amserlenni y cytunwyd arnynt, er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd ac i wella dyluniad/cymhwysiad y fframwaith rheoli yn foddhaol.

Barn archwilio mewnol gyffredinol yr RSM, ar sail gwaith a wnaed yn 2024, oedd bod gan y GDC fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, mae eu gwaith wedi nodi gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli mewnol i sicrhau ei fod yn parhau'n ddigonol ac yn effeithiol. Mae hon yn lefel gadarnhaol o sicrwydd a dyma'r ail ddyfarniad uchaf sydd ar gael gan RSM.

Mae gennym system ganolog ar gyfer olrhain gweithredu argymhellion archwilio mewnol. Mae'r argymhellion yn cael eu holrhain, a rhaid i berchnogion yr argymhellion gadarnhau a dilysu eu statws adeg eu dyddiad gweithredu. Adroddir ar berfformiad gweithredu'r argymhellion i'r Uwch-dîm Arwain a'r Pwyllgor Archwilio a Risg gydol y flwyddyn.

## Gwybodaeth Reoli ac Adrodd ar Berfformiad

Datblygwyd y Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio 2025–2027 yn 2024 a'i gysoni â strategaeth gorfforaethol a blaenoriaethau'r Tîm Arwain Gweithredol. Mae'r GDC yn ailymweld â'i Gynllun Corfforaethol wedi'i Gostio yn flynyddol.

Yn 2024, gwnaed gwaith cynllunio manwl i bennu'r cynlluniau a'r gyllideb a ragwelir ar gyfer y cyfnod 2025-2027. Ym mis Hydref 2024, fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio a'r gyllideb a ragwelir ar gyfer 2025-2027.

Cafodd y gwaith o gyflawni yn erbyn y Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio ar gyfer 2024 a pherfformiad y sefydliad ei fonitro gydol y flwyddyn gan uwch reolwyr gan ddefnyddio adroddiadau gwybodaeth reoli a'i oruchwylio gan y Tîm Arwain Gweithredol, gan ddefnyddio adroddiadau cynnydd portffolio a Dangosyddion Perfformiad Allweddol a mewnwelediadau ar gerdyn sgorio cytbwys, gyda chynnydd hefyd yn cael ei adrodd bob chwarter i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hefyd.

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn craffu ar y data a'r adroddiadau hyn ac yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar berfformiad y sefydliad. Bydd y Pwyllgor yn uwchgyfeirio unrhyw feysydd o bryder penodol sydd angen eu hystyried gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad perfformiad sefydliadol blynyddol ar ôl diwedd pob blwyddyn.

Yn 2024, adolygwyd statws rhaglenni a phrosiectau'r GDC yn rheolaidd hefyd, ac roedd yr adroddiad hwn ynghyd ag adroddiadau am reoli risg, yn llywio prosesau cynllunio busnes gweithredol.

## Llywodraethu Gwybodaeth

Yn 2024 asesodd y timau Llywodraethu Gwybodaeth ac Archwilio Mewnol berfformiad y GDC yn erbyn Fframwaith Atebolrwydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys deg modiwl sy'n cwmpasu pynciau fel adrodd am doriadau, polisïau a gweithdrefnau a hawliau unigolion. Er bod perfformiad cyffredinol y GDC yn dda, tynnodd yr adolygiad sylw at feysydd i'w gwella y byddwn yn gweithio tuag atynt yn 2025.

## Ceisiadau am wybodaeth

Yn ystod 2024, cawsom 332 o geisiadau am wybodaeth (2023: 324), ac fe wnaethom ymateb i 317 ohonynt. Roedd hyn yn cynnwys 181 cais am wybodaeth gorfforaethol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a 136 am ddata personol o dan y Ddeddf Diogelu Data, sef ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun. Roedd y 317 o geisiadau yr ymatebwyd iddynt yn 2024 yn cynnwys nifer fach o geisiadau a dderbyniwyd yn 2023.

Parhawyd i gofnodi ceisiadau cymhleth, sef ceisiadau a oedd yn cynnwys sawl tîm gwahanol, gwybodaeth wahanol neu eithriadau technegol heriol rhag datgelu. Yn 2024, cofnodwyd 60 o geisiadau cymhleth, cynnydd o 66% (2023: 36).

Roedd y 317 o geisiadau yr ymatebwyd iddynt yn 2024 yn gynnydd o 5% (2023: 303), a oedd yn cynnwys 181 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a 136 o geisiadau am fynediad at ddata gan y testun. Arhosodd niferoedd ceisiadau yn sefydlog trwy gydol y flwyddyn, gyda gostyngiad bach mewn ceisiadau tua mis Awst a mis Medi.

Ymatebwyd i 99% o'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (179) o fewn yr amserlen statudol (20 diwrnod gwaith) neu hawliwyd estyniad priodol er mwyn gallu gwneud prawf budd y cyhoedd. Ymatebwyd i 98% o'r ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun (133) o fewn yr amserlen statudol (un mis) neu hawliwyd estyniad priodol.

Cawsom 10 cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) (2023:10). Codwyd dwy gŵyn oherwydd bod y sawl a wnaeth y cais o'r farn ein bod yn dal gwybodaeth pan oeddem wedi dweud nad oeddem yn gwneud hynny. Codwyd un gŵyn gan fod y sawl a wnaeth gais am i ni wneud datganiad y tu allan i gwmpas y cais Rhyddid Gwybodaeth.

Tynnwyd un gŵyn yn ôl a chadarnhaodd yr ICO fod ein hymateb cychwynnol wedi cydymffurfio mewn cwyn arall. Ar gyfer y drydedd gŵyn, fe wnaethom gynnal chwiliadau pellach a nodi gwybodaeth o fewn cwmpas y cais nad oeddem wedi'i nodi yn yr ymateb Rhyddid Gwybodaeth gwreiddiol. Fe wnaethom hysbysu'r ICO o hyn a darparu'r wybodaeth ychwanegol i'r ceisydd, ac ar ôl hynny fe wnaeth yr ICO gau'r gŵyn.

.

## Digwyddiadau diogelwch data

Yn 2024 rydym wedi parhau i gofnodi, rheoli ac adrodd yn ganolog ar ddigwyddiadau diogelwch data. Hefyd, rhannwyd negeseuon mewnol gennym er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau diogelwch data, gan gynnwys sesiynau hyfforddi staff i gyflwyno ar ddigwyddiadau o'r fath.

Rydym wedi cofnodi digwyddiadau am ddefnyddio, cyrchu, cyhoeddi a dinistrio data personol gan y GDC, a thrydydd partïon lle mae'n effeithio ar wybodaeth y GDC. Fe wnaethom gofnodi 'digwyddiadau fu bron â digwydd' lle bu achos o dor diogelwch data bron â digwydd, er mwyn dysgu o'r digwyddiadau hyn. Nid yw'r holl ddigwyddiadau diogelwch data a gofnodir yn achosion o dor diogelwch data personol.

Fe wnaethom gofnodi 152 o ddigwyddiadau diogelwch data yn 2024 (2023:124). Pan nodir achos o dor diogelwch data personol, rydym yn cymryd camau i sicrhau bod unrhyw wybodaeth a gollwyd neu a ddatgelwyd yn amhriodol drwy ddamwain neu gamgymeriad yn cael ei hadfer neu ei dinistrio lle bynnag y bo modd. Yn ogystal, rydym yn sicrhau bod unrhyw risgiau yn destun asesiad ac ymateb, a bod unrhyw wersi a ddysgir yn cael eu cofnodi i'w hatal rhag digwydd eto ac i wella ein gwasanaeth.

Roedd dau ddigwyddiad diogelwch data yn achos o dor diogelwch data personol, a aseswyd ac a adroddwyd gennym i'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth (2023: pedwar). Roedd hyn oherwydd sensitifrwydd y wybodaeth dan sylw. Penderfynodd y Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd ar gyfer pob un o'r adroddiadau hyn.

Yn 2023 fe wnaethom ddefnyddio arbenigwr adfer trydydd parti er mwyn helpu i adfer rhywfaint o'r data a oedd wedi mynd yn llygredig. Ar ôl sawl ymgais adfer, roedd y cofnodion yn parhau i fod yn anhygyrch, ac ym mis Medi daeth y Tîm Arwain Gweithredol i'r casgliad nad oedd unrhyw fudd cynnal unrhyw ymdrechion adfer pellach. Ar ddiwedd 2024, dim ond dau fater Addasrwydd i Ymarfer parhaus a oedd yn weddill a oedd wedi'u heffeithio'n rhannol gan y mater hwn. Ni chafodd unrhyw achosion eu cau oherwydd y digwyddiad data, ac mae rheoli unrhyw risg weithredol sy'n parhau yn digwydd fesul achos.

## Casgliad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, ar ôl ystyried yr holl adroddiadau oedd ar gael i mi, gan gynnwys sylwadau gan y Swyddog Cyfrifyddu blaenorol a chyngor allanol, rwy'n parhau'n ffyddiog bod system rheoli risg a mesurau rheoli mewnol y Cyngor yn effeithiol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol ac i barhau i gefnogi polisïau, nodau ac amcanion GDC.

**Tom Whiting**,
Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu

4 Gorffennaf 2025

# Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a staff

Mae ein harchwilwyr allanol, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), wedi archwilio'r adrannau sydd wedi'u marcio fel 'yn destun archwiliad' yn y pennawd.

## Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol

### Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau'r Cyngor

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu yn craffu ar gydnabyddiaeth ariannol Aelodau'r Cyngor a'r Cadeirydd. Pennir cydnabyddiaeth ariannol gan ddefnyddio data sydd ar gael o bob marchnad gymharol ar gyfer y cyfraddau presennol ar gyfer swyddi tebyg ac ymrwymiadau amser i gyflawni'r rôl.

Cafodd tâl Aelodau'r Cyngor ei adolygu ddiwethaf gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu ym mis Chwefror 2022 a chafwyd adolygiad llai manwl ym mis Mehefin 2023 hefyd. Cytunodd y pwyllgor i gadw lefel bresennol cydnabyddiaeth ariannol Aelodau'r Cyngor, a chefnogwyd y penderfyniad hwn gan y Cyngor ym mis Medi 2023. Bydd Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau'r Cyngor yn cael ei adolygu nesaf yn 2025.

Mae tâl y Cadeirydd wedi'i bennu ar gyfradd o £55,000 y flwyddyn ar sail ymrwymiad o 2.5 diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd.

Mae aelodau'r Cyngor yn derbyn tâl blynyddol o £15,000, ar sail ymrwymiad o 35 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae tâl ychwanegol blynyddol o £3,000 yn cael ei dalu i gadeiryddion y pwyllgorau.

### Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol y Tîm Arwain Gweithredol

Nid yw'r polisïau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu a'r cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer taliadau perfformiad. Cafodd y polisïau hyn eu hadolygu a'u cymeradwyo ddiwethaf gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu ym mis Tachwedd 2022.

Mae codiadau cyflog i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn dibynnu ar berfformiad yr unigolyn a meincnodi tâl allanol ar gyfer rolau tebyg. Er bod y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu yn cytuno ar y tâl ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu yn craffu ar unrhyw gynnydd mewn cyflog, neu mewn taliadau eraill.

Mae unrhyw gynnydd yng nghyflog y Prif Weithredwr (fel a phan fo'n briodol) yn cael ei argymell gan Gadeirydd y Cyngor a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu, a'i gymeradwyo gan y Cyngor yn unol â'r polisi cydnabyddiaeth ariannol.

Dyfarnwyd dyfarniad cyflog o 5% i holl aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol o 1 Ebrill 2024.

O dan gontractau cyflogaeth y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu a'r Prif Swyddog Gweithredu, rhaid rhoi chwe mis o rybudd o derfynu contract gan y cyflogai neu'r cyflogwr. O dan gontractau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol eraill, mae angen i'r cyflogwr neu'r cyflogai roi rhybudd o dri mis ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.

Mae'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol yn gymwys i fod yn aelodau o'r cynllun pensiwn ymddiriedolaeth meistr.

## Polisi cydnabyddiaeth ariannol staff

Mae'r polisi cydnabyddiaeth ariannol staff yn cael ei ddatblygu gan y Cyfarwyddwr Cyswllt, Pobl a Datblygiad Sefydliadol, ar y cyd â'r Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Mae'r polisi'n cael ei ddatblygu drwy ystyried sefyllfa'r GDC i ddarparu ymagwedd dryloyw, gynaliadwy a theg at ein fframwaith gwobrwyo er mwyn denu a chadw pobl o'r radd flaenaf fel bo'r GDC yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau strategol a chyflawni ei gylch gwaith a'i gyfrifoldebau statudol.

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o dalu cyflogau cyfartal am waith o werth cyfartal i'n holl weithwyr gyda'r nod o sicrhau bod ein systemau tâl yn deg a diduedd. Mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb rhyw a chynnal adolygiadau cyflog cyfartal i ddileu unrhyw fwlch cyflog na ellir ei egluro ar seiliau gwrthrychol, ac rydym yn adrodd yn gyhoeddus am hyn bob blwyddyn.

Dyfarnwyd dyfarniad cyflog o 5% i bob aelod o staff o 1 Ebrill 2024.



# Ffioedd a threuliau Aelodau'r Cyngor (yn destun archwiliad)

| | Ffioedd i'r £1,000 agosaf | | Buddion mewn nwyddau i'r £100 agosaf | | Buddion pensiwn i'r £1000 agosaf | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024 | 2023 | 2024 | 2023 | 2024 | 2023 | 2024 | 2023 |
| **Yr Arglwydd Toby Harris**<br>Cadeirydd y Cyngor | 55 | 55 | 200 | 200 | - | - | 55 | 55 |
| **Reshard Auladin**<br>O 1 Hydref 2024<br>(cyfwerth â blwyddyn lawn) | 7<br><br>(15) | - | - | - | - | - | 7<br><br>(15) | - |
| **Ilona Blue*** | 16 | 15 | 600 | 700 | - | - | 16 | 16 |
| **Donald Burden** | 15 | 15 | 5,000 | 9,100 | - | - | 20 | 24 |
| **Anne Heal** | 18 | 18 | 100 | 800 | - | - | 18 | 19 |
| **Angela Heilmann** | 15 | 15 | 1,500 | 1,300 | - | - | 17 | 16 |
| **Serbjit Kaur**<br>O 1 Hydref 2023<br>(cyfwerth â blwyddyn lawn) | 15 | 4<br><br>(15) | 1,100 | 1,600 | - | - | 16 | 6<br><br>(17) |
| **Shelia Kumar** | 18 | 18 | 200 | - | - | - | 18 | 18 |
| **Michael Lewis** | 15 | 15 | 2,000 | 2,600 | - | - | 17 | 18 |
| **Timea Milovecz**<br>O 1 Hydref 2023<br>(cyfwerth â blwyddyn lawn) | 15 | 4<br><br>(15) | 300 | 400 | - | - | 15 | 4<br><br>(15) |
| **Simon Morrow** | 15 | 15 | 4,800 | 4,100 | - | - | 20 | 19 |
| **Laura Simons** | 15 | 15 | 300 | 600 | - | - | 15 | 16 |
| **Terry Babbs**<br>Aelod Lleyg o'r Cyngor<br>Hyd at 30 Medi 2024<br>(cyfwerth â blwyddyn lawn) | 14<br><br><br>(18) | 18 | 1,300 | 1,700 | - | - | 15<br><br><br>(19) | 19 |
| **Jeyanthi John**<br>Aelod Cofrestredig o'r Cyngor<br>Hyd at 30 Medi 2023<br>(cyfwerth â blwyddyn lawn) | - | 11<br><br><br>(15) | - | 1,100 | - | - | - | 12<br><br><br>(16) |
| **Caroline Logan**<br>Aelod Cofrestredig o'r Cyngor<br>Hyd at 30 Medi 2023<br>(cyfwerth â blwyddyn lawn) | - | 11<br><br><br>(15) | - | 2,600 | - | - | - | 14<br><br><br>(18) |

* Penodwyd Ilona Blue yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar 1 Hydref 2024.

## Buddion a threuliau mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion a threuliau mewn nwyddau yn cwmpasu treuliau teithio ar fusnes y Cyngor a ddarperir gennym ni ac sy’n cael eu trin fel enillion trethadwy gan Gyllid a Thollau EF. Roedd y taliadau a amlinellir uchod yn cynnwys treth, a thelir y symiau treth i Gyllid a Thollau EF.



## Cydnabyddiaeth ariannol y Tîm Arwain Gweithredol (yn destun archwiliad)

Mae'r manylion am gydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu ac aelodau'r Tîm Gweithredol ar gael isod. Mae'r tabl hefyd yn datgelu enillion trethadwy, taliadau eraill (ac eithrio unrhyw daliadau digolledu lle'r oeddent yn ddyledus) a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr, mewn bandiau cyflog ar gyfer aelodau eraill y Tîm Arwain Gweithredol a wasanaethodd yn 2024 (a gwybodaeth gymharol ar gyfer 2023).

| | Cyflog £000 | | Buddion mewn nwyddau i'r £100 agosaf | | Buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024 | 2023 | 2024 | 2023 | 2024 | 2023 | 2024 | 2023 |
| **Tom Whiting**<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd<br>O 3 Mehefin 2024<br>(Cyfwerth â blwyddyn lawn) | 95-100<br>(175-180) | - | 3,000 | - | 6<br>(11) | - | 105-110<br>(185-190) | - |
| **Gurvinder Soomal**<br>Prif Swyddog Gweithredu<br>(Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro hyd at 2 Mehefin 2024) | 160-165 | 145-150 | 2,500 | 7,400 | 16 | 15 | 180-185 | 170-175 |
| **Theresa Thorp**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio<br>(Cyfwerth â blwyddyn lawn) | 120-125 | 35-40<br>(125-130) | 3,000 | 2,900 | 3 | 2 | 130-135 | 40-45<br>(125-130) |
| **Stefan Czerniawski**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth | 140-145 | 130-135 | 1,800 | 3,100 | 14 | 13 | 155-160 | 150-155 |
| **Clare Paget***<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Cyfreithiol a Llywodraethu<br>O 21 Chwefror 2024<br>(Cyfwerth â blwyddyn lawn) | 105-110<br>(130-135) | - | - | - | 11<br>(14) | - | 120-125<br>(150-155) | - |

| | Cyflog £000 | | Buddion mewn nwyddau i'r £100 agosaf | | Buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024 | 2023 | 2024 | 2023 | 2024 | 2023 | 2024 | 2023 |
| **Lisa Marie Williams** Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyfreithiol a Llywodraethu Hyd at 29 Mawrth 2024 (Cyfwerth â blwyddyn lawn) | 35-40 (135-140) | 130-135 | 100 | 2,900 | 3 (14) | 13 | 35-40 (150-155) | 150-155 |
| **Samantha Bache**** Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro Hyd at 31 Mai 2024 (Cyfwerth â blwyddyn lawn) | 45-50 (115-120) | 15-20 (120-125) | 3,200 | 900 | 5 (12) | 2 | 50-55 (130-135) | 15-20 (120-125) |
| **Ian Brack***** Prif Weithredwr a Chofrestrydd Hyd at 7 Tachwedd 2023 (Cyfwerth â blwyddyn lawn) Colli swydd | 55-60 (155-160) 73 | 155-160 | - | - | 7 (16) | 16 | 60-65 | 170 -175 |
| **John Cullinane** Cyfarwyddwr Gweithredol, Addasrwydd i Ymarfer Hyd at 31 Hydref 2023 (Cyfwerth â blwyddyn lawn) | - | 90-95 (115-120) | - | - | - | 9 | - | 100-105 (115-120) |

* Cymerodd Clare Paget rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Cyfreithiol a Llywodraethu o 21 Chwefror 2024. Cyn hyn, roedd hi'n dal swydd Uwch Gwnsler a Chyfarwyddwr Cyswllt, Cyfreithiol.

** Ymgymerodd Samantha Bache â rôl y Prif Swyddog Gweithredol hyd at 30 Gorffennaf 2024. Yn dilyn hyn, dychwelodd i'w swydd barhaol fel Cyfarwyddwr Cyswllt, Cyllid.

*** Gadawodd Ian Brack fel Prif Weithredwr ar 6 Tachwedd 2023 ond parhaodd i fod yn gyflogai i'r GDC tan ddiwedd ei gyfnod rhybudd contractiol, 2 Mai 2024. Ar ôl derbyn cyngor annibynnol, cytunodd Cyngor y byddai – fel y Prif Weithredwr sy'n gadael – yn derbyn taliad colli swydd ar ddiwedd y cyfnod yn ogystal â'r cyflog a barhaodd i gael ei dalu'n fisol yn ystod y cyfnod rhybudd am yr hyn a gronnwyd yn 2023.

Ni dderbyniodd yr un o'r Tîm Arwain Gweithredol unrhyw fonws perfformiad yn 2024.

## Buddion a threuliau mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion a threuliau mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gennym ni ac y mae Cyllid a Thollau EF yn eu trin fel enillion trethadwy. Roedd y taliadau a amlinellir uchod yn cynnwys treth, a thelir y symiau treth i Gyllid a Thollau EF. Roedd eitemau yn y categori hwn yn cynnwys costau teithio a wariwyd ar fusnes y Cyngor.

## Taliadau trydydd parti (yn destun archwiliad)

Ni wnaed unrhyw daliadau trydydd parti yn ystod 2024 (2023: dim).

## Lluosrifau cyflog (Yn destun archwiliad)

Er mwyn atal unrhyw gamliwio canlyniadau a galluogi cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn, mae mesur cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol wedi'i safoni ar draws y sefydliad i gynnwys cyflog, lwfansau, taliadau bonws perfformiad a buddion mewn nwyddau ar sail cyfwerth ag amser llawn, ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol sy'n ymwneud â'r cyfnod cyfrifyddu presennol. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr, taliadau adleoli nac unrhyw addasiadau i gydnabyddiaeth ariannol mewn perthynas â chyfnodau cyfrifyddu blaenorol.

Rydym yn paratoi'r datgeliad hwn yn unol â chanllawiau Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnwys cydnabyddiaeth ariannol Aelodau'r Cyngor wrth gyfrifo lluosrifau cyflog.

Roedd cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn amrywio o £15,000 i £178,274 yn 2024 (2023: £15,000 i £159,050). Y tâl isaf ac eithrio Aelodau'r Cyngor yw £21,065 (2023: £20,062).

Cydnabyddiaeth ariannol band y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf, y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, ar 31 Rhagfyr oedd £175,000 i 180,000 (2023: £165,000 i £170,000). Yn 2024, nid oedd cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol unrhyw gyflogeion (2023: dim) yn fwy na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.

| Newid canrannol yng nghydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| % y newid o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol yng nghydnabyddiaeth ariannol band y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf | 6.0% | 17.5% |
| % y newid o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran canolrif cydnabyddiaeth ariannol gweithlu'r sefydliad | 5.3% | 2.3% |

Cynyddodd canolrif cydnabyddiaeth ariannol y gweithlu 5.3% yn 2024, yn sgil dyfarniad cyflog blynyddol o 5.0% a wnaed i'r holl staff ym mis Ionawr 2024, ac mae'n adlewyrchu ailbenodi'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf ar gyfradd gystadleuol yn y farchnad ar gyfer y rôl honno.

Cynyddodd y newid canrannol yng nghydnabyddiaeth band y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf 6.0% yn 2024. Mae hyn yn adlewyrchu cyfradd gystadleuol y farchnad sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon yn dilyn ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu, gan adfer y swydd i gyfradd gystadleuol yn y farchnad fel y bwriadwyd gan y Cyngor.

Mae'r tabl isod yn datgelu'r berthynas rhwng cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn erbyn 25ain canradd, canolrif a 75ain canradd cydnabyddiaeth ariannol ein gweithlu. Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol cyflogeion yn y 25ain canradd, y canolrif a"r 75ain canradd yn cael ei ddadansoddi ymhellach i ddatgelu'r elfen gyflog. Ar gyfer 2023, mae canol cydnabyddiaeth ariannol band y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r gymhareb. Mae datgeliad 2022 wedi'i ddiweddaru at ddibenion cymharu.

| Gwybodaeth am y gymhareb cyflog | 25ain canradd | Canolrif | 75ain canradd |
|---|---|---|---|
| **2024** | | | |
| Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol (£) | 34,735 | 40,989 | 56,990 |
| Elfen gyflog cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol (£) | 34,735 | 40,864 | 56,990 |
| Cymhareb (yn erbyn y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf) | 5.1 | 4.3 | 3.1 |
| **2023** | | | |
| Cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol (£) | 32,404 | 38,928 | 54,127 |
| Elfen gyflog cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol (£) | 32,404 | 38,928 | 53,877 |
| Cymhareb (yn erbyn y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf) | 5.4 | 4.5 | 3.2 |



## Pensiynau

Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig drwy ymddiriedolaeth gan The People's Pension yw ein prif gynllun pensiwn. Mae'n bodloni ac yn rhagori ar y gofynion awto-gofrestru. Mae cyflogeion yn cyfrannu 3% o'u cyflog ac mae'r GDC yn cyfrannu 6% (2023: 6%). Mae'r GDC yn cyfrannu'r un faint ag unrhyw gyfraniadau ychwanegol gan gyflogeion hyd at uchafswm cyfraniad cyflogwr o 10%.
Ar 31 Rhagfyr 2024, roedd 392 o weithwyr (90%) yn aelodau o'r cynllun cyfraniadau diffiniedig ar sail ymddiriedolaeth (31 Rhagfyr 2023: 372, 92%).

Roedd cyflogeion a ymunodd â'r GDC cyn mis Ionawr 2015 yn gallu ymuno â chynllun pensiwn buddion diffiniedig, ond roedd yn rhaid iddynt wneud hynny cyn mis Gorffennaf 2016. Caewyd y cynllun i aelodau newydd ar 1 Gorffennaf 2016 ac, ar ôl ymgynghori ag aelodau yr effeithiwyd arnynt, ym mis Mawrth 2021 penderfynodd y Cyngor gau'r cynllun pensiwn budd diffiniedig i groniadau yn y dyfodol o 31 Mawrth 2021.

Roedd aelodau'r cynllun buddion diffiniedig hyd at adeg cau'r cynllun yn cyfrannu 8% o'u cyflog. Cyfraniad y cyflogwr tan 31 Mawrth 2021 oedd 20.3%. Nid oes unrhyw weithwyr yn parhau i fod yn aelodau gweithredol o'r cynllun buddion diffiniedig.

Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol a phensiynau yn nodyn 3 a nodyn 16 y cyfrifon.

# Adroddiad staff

## Niferoedd staff (yn destun archwiliad)

Y nifer cyfartalog o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, y rhai ar gyfnod mamolaeth a gweithwyr asiantaeth, yn ystod y flwyddyn ac yn ôl swyddogaeth oedd:

| Swyddogaeth* | Staff a gyflogir yn barhaol (Cyfwerth ag Amser Llawn – FTE) | Eraill (FTE) | Cyfanswm FTE 2024 | Cyfanswm FTE 2023 |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio | 149.3 | 15.4 | 164.6 | 154.5 |
| Cyfreithiol a Llywodraethu | 57.4 | 5.6 | 63.0 | 61.2 |
| Strategaeth | 36.8 | 9.3 | 46.1 | 39.9 |
| Adnoddau Corfforaethol | 122.5 | 8.3 | 130.8 | 121.6 |
| **Cyfanswm** | **366.0** | **38.6** | **404.5** | **377.2** |

## Cyfansoddiad staff

Menywod yw 64% o'r gweithlu (2023: 63%). Mae pobl 50+ oed yn cynrychioli 23% o'r gweithlu (2023: 23%).

Fe wnaeth 90% o'n gweithlu ddarparu data cydraddoldeb ac amrywiaeth o'u gwirfodd yn ystod 2024 (2023: 90%). O'r staff a ymatebodd, mae 50% (2023: 51%) o gefndir gwyn a 50% (2023: 49%) o gefndir ethnig lleiafrifol.

## Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau fis Ebrill 2024 (dyddiad ciplun Ebrill 2023) ar gyfartaledd yn 13.6% (canolrif 17.9%) o blaid dynion.

Nid yw'r GDC yn talu taliadau bonws ond mae taliadau fel ein taliadau cydnabyddiaeth, a ddyfernir i gydweithwyr i gydnabod rhai sydd wedi gweithio y tu hwnt i'r safonau arferol a ddisgwylir, yn cael eu categoreiddio fel taliadau bonws at ddibenion adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Derbyniodd 9.5% o fenywod ac 16.2% o ddynion daliadau o'r fath rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 (dyddiad ciplun Ebrill 2023).

## Absenoldeb staff

Ein nod yw trin staff sy'n sâl gyda chydymdeimlad a thegwch, a lle bo hynny'n bosibl, rhoi cymorth i'w helpu i adfer eu hiechyd a mynychu'r gwaith yn rheolaidd. Rydym yn dibynnu ar ymyrraeth gynnar ein rheolwyr llinell i gynnal cyfweliad dychwelyd i'r gwaith ar ôl pob cyfnod o absenoldeb er mwyn rheoli hyn yn effeithiol.

Collwyd cyfanswm o 3,718 o ddiwrnodau oherwydd salwch yn 2024 (2023: 2,681 o ddiwrnodau). Mae hyn yn gynnydd o 28% mewn absenoldeb oherwydd salwch. Collwyd 8.7 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd oherwydd salwch yn 2024 (2023: 6.6 diwrnod fesul cyflogai).

Mae'n werth cymharu'r lefelau absenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf, sy'n rhoi darlun gwell o'r newidiadau cyffredinol mewn lefelau absenoldeb.

| Blwyddyn | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd | 3,052 | 3,161 | 2,681 | 3,718 |
| Diwrnodau cyfartalog a gollwyd fesul cyflogai | 8.6 | 8.5 | 6.6 | 8.7 |

Mae ein diwrnodau absenoldeb a gollwyd fesul gweithiwr, sef 8.7, yn is na'r 10.6 diwrnod fesul gweithiwr a adroddwyd gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) ar gyfer y sector cyhoeddus.

Mae cyfradd absenoldeb salwch cyfartalog GDC 2024, sef 3.5%, ychydig yn uwch na'r 3.4% a adroddwyd gan y CIPD ar draws holl sectorau'r DU yn eu hadroddiad diweddaraf ar Iechyd a lles yn y gwaith Medi 2023.[15] Rydym yn parhau i fonitro a meincnodi ein data absenoldeb pan gyhoeddir diweddariadau.

## Trosiant staff

Cyfanswm trosiant staff 2024 oedd 14.4%, (2023: 19%). Mae hyn yn cynnwys trosiant gwirfoddol, diswyddiadau, diwedd contractau cyfnod penodol, ymddeoliadau ac unrhyw ddiswyddiadau y cytunwyd arnynt. Roedd trosiant staff gwirfoddol 2024 yn 76% o gyfanswm y trosiant staff. Mae hyn yn parhau i fod yn arwydd o farchnad gyflogaeth ehangach gystadleuol ar gyfer recriwtio a chadw.

Ysgogir hyn gan nifer o ffactorau gan gynnwys newidiadau yn y farchnad lafur a phwysau chwyddiant ar gyflogau oherwydd yr argyfwng costau byw.

I gefnogi recriwtio a chadw staff, mae sawl prosiect ar waith gan gynnwys Newid Diwylliant, Holl Fuddion a Datblygu'r Gweithlu.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein gweledigaeth ar gyfer EDI, sef hyrwyddo cynhwysiant a dangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnawn, yn ei gwneud yn ofynnol i ni fynegi amcanion sy'n cwmpasu'r swyddogaethau hynny. Rydym wedi datblygu rhaglen helaeth o weithgareddau sydd â'r nod o gyflawni'r amcanion hynny ac yn y pen draw ein galluogi i wireddu ein gweledigaeth.

Mae manylion ein hamcanion EDI ar gyfer 2024–2025 i'w gweld ar dudalen 9.

## Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Rydym yn croesawu gweithwyr o bob rhan o gymdeithas. O dan y Cynllun Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd[16], rydym wedi ymrwymo i gynnig cyfweliadau i bobl ag anableddau, cyn belled â'u bod yn bodloni meini prawf gofynnol y swydd.

## Proffil EDI y Cyngor

O'r 13 aelod a wasanaethodd ar y Cyngor yn 2024, mae 54% yn fenywod a 46% yn ddynion.

Mae 23% o'r Cyngor yn datgan eu bod yn lleiafrif ethnig.

## Proffil EDI staff GDC

Mae 64% o'n staff yn fenywod a 36% yn ddynion.

Mae 45% o'n gweithlu yn datgan eu bod yn lleiafrif ethnig. O'r staff hynny sy'n nodi eu bod yn lleiafrif ethnig, mae 70% yn fenywod a 30% yn ddynion.

Mae 60% o'n Tîm Arwain Gweithredol yn fenywod a 40% yn ddynion.

Mae 62.5% o'r Uwch Dîm Rheoli yn fenywod a 37.5% yn ddynion.

## Proffil EDI Swyddogion Cyswllt GDC

Mae 50% o'n swyddogion cyswllt yn fenywod a 43% yn ddynion, gyda 7% yn dweud bod yn well ganddynt beidio â dweud/anhysbys.

Mae 22% o'n swyddogion cyswllt yn ystyried eu hunain yn lleiafrif ethnig, gydag 19% yn nodi bod yn well ganddynt beidio â dweud/anhysbys.

15. https://www.cipd.org/uk/knowledge/reports/health-well-being-work/
16. https://www.gov.uk/government/collections/disability-confident-campaign

## Rhwydweithiau Gweithwyr

Mae meithrin amgylchedd gwaith cynhwysol yn hanfodol i wneud y GDC yn lle gwych i weithio, ac mae ein rhwydweithiau gweithwyr yn allweddol i gyflawni hyn. Mae gennym bum Grŵp Rhwydwaith Gweithwyr sefydledig:

### Enable

Hyrwyddo cynhwysiant ar gyfer cydweithwyr ag anableddau neu gydweithwyr a all fod yn wynebu rhwystrau oherwydd cyflyrau corfforol ac anghorfforol hirdymor.

### PACT (Parents and Carers Together)

Mae PACT, a ffurfiwyd yn 2024, yn cefnogi cydweithwyr sy'n cael eu heffeithio gan yr heriau o reoli eu rôl yn y GDC gyda'u cyfrifoldebau gofalu. Roedd y pynciau trafod yn cynnwys cyfrifoldebau gofalu am blant, rhieni oedrannus, partneriaid ac aelodau ehangach o'r teulu.

### Rainbow

Wedi'i ffurfio yn 2023, mae'r rhwydwaith hwn yn codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo cynhwysiant gweithwyr LHDTC+. Roedd pynciau trafod allweddol yn cynnwys hyrwyddo gofod diogel, mynd i'r afael ag aflonyddu ac ailbennu rhywedd.

### REACH (Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol)

Ffurfiwyd yn 2020 fel casgliad o gydweithwyr Du, Asiaidd, ethnig amrywiol, a'u cynghreiriaid, ac mae'n darparu gofod diogel i gydweithwyr ethnig amrywiol rannu eu profiadau bywyd. Nod REACH yw hybu cynhwysiant a pharch at amrywiaeth a galluogi cydweithwyr i gyrraedd eu llawn botensial yn y gwaith.



### Rhwydwaith Menywod

Nod y Rhwydwaith yw deall yn well y materion yn y gweithle sy'n effeithio ar fenywod, mewn meysydd fel cyflog a chynnydd, aflonyddu a gweithio hyblyg.

## Ymgysylltu â staff

Ar ddiwedd 2023, fe wnaethom sefydlu rhaglen waith Pobl a Diwylliant i ddod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan werthoedd ac i sicrhau bod ein pobl a'n diwylliant mor effeithiol â phosibl. Mae cwmpas y gwaith hwn yn cynnwys newid diwylliannol, cyflog a buddion, a datblygu gyrfa a sgiliau i alluogi'r GDC i ddenu a chadw'r dalent i gyflawni ein strategaeth gorfforaethol. Bydd y rhaglen hon yn parhau hyd at 2026.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws staff yn haf 2024 i gael cipolwg ar farn gweithwyr ar bob lefel, ynglŷn â'n gwerthoedd. Lansiwyd y gwerthoedd diwygiedig yn ein cynhadledd ar gyfer yr holl staff ym mis Tachwedd 2024 ac maen nhw wedi'u manylu ar dudalen 8. Rydym wedi lansio rhaglen helaeth o ddatblygu arweinwyr a rheolwyr er mwyn galluogi arweinwyr a rheolwyr pobl i fod yn fwy effeithiol yn eu rolau yn ogystal â modelau rôl ar gyfer ein gwerthoedd a'n hymddygiadau newydd.

Crëwyd cynlluniau gweithredu'r gyfarwyddiaeth yn dilyn yr arolwg ymgysylltu â gweithwyr a gynhaliwyd yn 2023. Mae'r rhain wedi'u gweithredu trwy gydol 2024, ac mae cynlluniau ar waith i fonitro cynnydd yn 2025.

Fe wnaethom barhau i wella'r dull o gynefino staff newydd trwy wella cynnwys ein rhaglen sefydlu yn ystod 2024. Lansiwyd cynllun Sefydlu Corfforaethol newydd ar gyfer yr holl ddechreuwyr newydd gan gynnwys adnoddau cynefino, gan sicrhau profiad cyson i'r holl ddechreuwyr newydd.

Hefyd, aethom ati i adolygu ein polisïau staff a pharhau i redeg rhaglenni i gefnogi arferion lles cadarnhaol. Mae lles yn bwysig i ni, ac rydym wedi datblygu cynllun lles blynyddol sy'n cynnwys mentrau fel cadeiriau tylino, gweminarau hunaniaeth rhywedd a gweminarau straen a galar. Mynychwyd y rhain gan bron i 200 o bobl.

Mae gwaith yn parhau i wella ein systemau AD mewnol gan gynnwys lansio System Rheoli Dysgu (LMS) newydd sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu cynnig dysgu cyfunol a hyfforddiant cydymffurfio i'n holl staff, gan gynnwys adnoddau newydd a deunyddiau hyfforddi er mwyn sicrhau bod ein pobl yn cydymffurfio ac yn ddiogel.

Lansiwyd ein rhaglen Arwain y Ffordd yn Hydref 2024, ac mae ein cynnig datblygu arweinwyr yn mynd yn fyw yn 2025. Bydd hyn yn golygu y bydd yr holl reolwyr pobl yn cael eu gwahodd naill ai i raglen Hanfodion (Essentials) neu Ysbrydoli (Inspire) ar gyfer uwch arweinwyr.

Lansiwyd Managing the GDC Way, yn dilyn cynllun peilot ym mis Tachwedd 2024, i ddarparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ein holl reolwyr pobl i reoli eu timau'n effeithiol. Unwaith y bydd y gwaith o gyflwyno'r cynllun wedi'i gwblhau, bydd yn dod yn rhan o raglen sefydlu rheolwyr llinell newydd. Mae rheolwyr bellach yn hyderus wrth ddefnyddio ein systemau pobl mewnol a darparu dull cyson wrth ymdrin â senarios rheoli pobl cyffredin.

## Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Roedd iechyd a diogelwch yn y gwaith yn parhau i gael ei fonitro, gyda chyfarfodydd pwyllgorau iechyd a diogelwch lleol chwarterol yn ogystal â phwyllgor chwarterol.

Cynhaliwyd ymweliadau ag adeiladau bob mis, ac fe wnaeth damweiniau fu bron â digwydd a damweiniau barhau i gael eu cofnodi, gyda chamau unioni'n cael eu cymryd os oedd hynny'n briodol. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau yr oedd angen adrodd i'r HSE amdanynt yn ystod 2024.

Roedd rhaglen o waith cynnal a chadw ataliol wedi'i chynllunio ar gyfer y ddwy swyddfa, a oedd yn sicrhau bod y cyfarpar/peiriannau a oedd yn gwasanaethu'r adeilad yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn addas i'r diben. Roedd y rhestr yn cynnwys asesiadau risg tân ac archwiliadau iechyd a diogelwch hefyd a chafodd unrhyw argymhellion a ddeilliodd o'r rhain eu gweithredu o fewn yr amserlen a gynghorwyd.

Mae iechyd a diogelwch wedi'i gynnwys mewn hyfforddiant a chyrsiau ar-lein i ddechreuwyr newydd e.e. mae diogelwch tân yn rhan o'n rhaglen hyfforddi staff.

## Cymryd ymlaen oddi ar y gyflogres

Rydym o'r farn bod gan bob aelod o'r Cyngor a'r Tîm Gweithredol gyfrifoldeb ariannol sylweddol ac rydym yn eu had-dalu trwy gyflogres. Ni chafodd unrhyw rôl cyngor/rôl weithredol a oedd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol eu cymryd ymlaen oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn. (2023: dim).

| Gweithwyr wedi'u cymryd ymlaen yn ôl categori | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| Nifer yr aelodau'r cyngor/tîm gweithredol sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol a gafodd eu cymryd ymlaen oddi ar y gyflogres | - | - |
| Nifer yr unigolion yr ystyrir eu bod yn aelodau o'r cyngor/tîm gweithredol sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn cynnwys y rhai sydd wedi eu cymryd ymlaen oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres. | 20 | 21 |

Roedd dau weithiwr oddi ar y gyflogres ar gyflog mawr (yn ennill mwy na £244 y dydd) wedi eu cymryd ymlaen gennym ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024 (2023: dim).

| Gweithwyr cyflog uchel wedi'u cymryd ymlaen oddi ar y gyflogres ar 31 Rhagfyr, yn ennill £245 y dydd neu ragor. | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| Nifer y trefniadau ar 31 Rhagfyr | 1 | - |
| **O'r rhain, nifer a oedd yn bodoli:** | | - |
| Llai na blwyddyn | 1 | |

| Holl weithwyr cyflog uchel wedi'u cymryd ymlaen oddi ar y gyflogres ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr, yn ennill £245 y dydd neu ragor | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr dros dro wedi'u cymryd ymlaen oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr | 2 | - |
| **O'r rhain:** | | - |
| darostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres | 2 | - |
| ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres | - | - |

Mae pob swydd arall wedi eu llenwi naill ai gan gyflogeion parhaol, cyfnod penodol neu ar secondiad, neu (ar gyfer anghenion tymor byr llai na 6 mis) gan weithwyr o asiantaethau cyflogaeth.

## Gwariant ar ymgynghorwyr

Gwariant y GDC ar wasanaethau ymgynghori eraill yn 2024 oedd £264k (2023: £269k). Mae gwariant ymgynghori yn ymwneud â chontractau gwasanaeth proffesiynol trydydd parti, lle nad yw'r sgiliau a'r profiad ar gael yn fewnol.

## Digolledu am golli swydd (Yn destun archwiliad)

Gadawodd tri gweithiwr dan delerau diswyddo gorfodol yn 2024. Talwyd pecynnau digolledu gwerth rhwng £13,562 a £69,457 iddynt.

Gadawodd 10 o weithwyr dan delerau ymadael gwirfoddol yn 2024. Talwyd pecynnau digolledu gwerth rhwng £1,593 a £76,628 iddynt.

| Blwyddyn<br>Cost bandiau ymadael | 2023<br>Nifer yr ymadawiadau | 2022<br>Nifer yr ymadawiadau |
|---|---|---|
| <£10,000 | 6 | 3 |
| £10,000 - £25,000 | 3 | 3 |
| £25,000 - £50,000 | 1 | - |
| £50,000 - £75,000 | 2 | - |
| £75,000 - £100,000 | 1 | - |
| £150,000 - £175,000 | - | 1 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | 13 | 7 |
| **Cyfanswm cost** | **£329,445** | **£231,287** |

**Tom Whiting,**
Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu

4 Gorffennaf 2025

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ Senedd y DU a Senedd yr Alban

## Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (ail haen) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024, o dan adran 5 o Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o Sefyllfa Ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2024;
- Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad Llifau Arian Parod a Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben; a'r
- Nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2024, ac o'r gwarged sydd dros ben ar ôl trethiant; ac
- wedi'u paratoi'n briodol, yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Fe gynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024)*. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi eu disgrifio ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol* yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024*. y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill, yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chasglu yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau, a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw, yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF, sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm tystysgrif i fel eu harchwilydd. Mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac oni nodir yn wahanol yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth rwyf wedi'i chael yn yr archwiliad, neu sy'n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall.

Os byddaf yn canfod anghysondebau o bwys neu gamddatganiadau o bwys amlwg o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad pwysig o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â phenderfyniadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Deintyddion 1984.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- Mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â phenderfyniadau'r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Deintyddion 1984; ac
- Mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

O ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi gweld camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i mi roi gwybod i chi os wyf yn credu:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nid yw rhai o'r datganiadau o gydnabyddiaeth ariannol, sy'n ofynnol o dan y gyfraith, wedi'u gwneud, neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad â phenderfyniadau'r Cyfrin Gyngor.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni ac sy'n berthnasol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol, e.e. cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi'r wybodaeth ac esboniadau ychwanegol sydd eu hangen ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at y rhai hynny o fewn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y fath reolaethau mewnol ar waith fel yr ystyrir sy'n angenrheidiol er mwyn hwyluso paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg, yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Deintyddion 1984
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff a'r Datganiad Llywodraethu, yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
- asesu gallu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw, oni bai fod y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Deintyddion 1984.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn dod i hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu dod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

## Canfod ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiadau o bwys ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, fe wnes i'r canlynol:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar:
  - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - o canfod ac ymateb i risgiau twyll; ac
  - o y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ymwneud â chydymffurfiad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol â Deddf Deintyddion 1984;
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a oeddent:
  - o yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - o yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu a'r arbenigwyr perthnasol, gan gynnwys arbenigwyr ym maes pensiynau, treth ac offerynnau ariannol, ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer twyll, a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Fel pob archwiliad o dan ISA (DU), mae'n ofynnol i mi ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gweithredu yn unol â hwy. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Deintyddion 1984, cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth pensiynau, deddfwriaeth treth a phenderfyniad y Cyfrin Gyngor.

## Ymateb yr archwiliad i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a'r profion i ddogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- Holais y rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a rhai posibl;
- Adolygais gofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, adroddiadau'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- Rhoddais sylw i'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, trwy brofi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; gan asesu a yw'r penderfyniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg busnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol; ac

Fe wnes i gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd, a'r risgiau posibl o ran twyll, i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys ein harbenigwyr pensiynau allanol a'n harbenigwyr archwilio treth allanol, ac roeddwn yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth archwilio briodol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys o ran rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddiol. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (ail haen) yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn.

**Gareth Davies**
Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

10 Gorffennaf 2025

Y Swyddfa Archwilio Gyffredinol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Adroddiad archwilydd annibynnol

## *Barn am y datganiadau ariannol*

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (ail haen) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024, o dan adran 2 o Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o Sefyllfa Ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2024;
- Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad Llifau Arian Parod a Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben; a'r
- Nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2024, ac o'r gwarged sydd dros ben ar ôl trethiant; ac
- wedi'u paratoi'n briodol, yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a phenderfyniad y Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Sail y farn

Fe gynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10, *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024).* Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi eu disgrifio ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol of the financial statements* yn fy adroddiad.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024*. y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill, yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chasglu yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau, a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw, yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF, sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm tystysgrif i fel eu harchwilydd. Mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac oni nodir yn wahanol yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth rwyf wedi'i chael yn yr archwiliad, neu sy'n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall.

Os byddaf yn canfod anghysondebau o bwys neu gamddatganiadau o bwys amlwg o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad pwysig o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â phenderfyniad y Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Deintyddion 1984.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- Mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â phenderfyniadau'r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Deintyddion 1984; ac
- Mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

O ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi gweld camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i mi roi gwybod i chi os wyf yn credu:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nid yw rhai o'r datganiadau o gydnabyddiaeth ariannol, sy'n ofynnol o dan y gyfraith, wedi'u gwneud, neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad â phenderfyniadau'r Cyfrin Gyngor.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni ac sy'n berthnasol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol, e.e. cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi'r wybodaeth ac esboniadau ychwanegol sydd eu hangen ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at y rhai hynny o fewn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y fath reolaethau mewnol ar waith fel yr ystyrir sy'n angenrheidiol er mwyn hwyluso paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg, yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Deintyddion 1984
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff a'r Datganiad Llywodraethu, yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
- asesu gallu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw, oni bai fod y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Deintyddion 1984. Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn dod i hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu dod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

## Canfod ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiadau o bwys ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, fe wnes i'r canlynol:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar:
  - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - o canfod ac ymateb i risgiau twyll; ac
  - o y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ymwneud â chydymffurfiad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol â Deddf Deintyddion 1984;
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a oeddent:
  - o yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - o yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu a'r arbenigwyr perthnasol, gan gynnwys arbenigwyr ym maes pensiynau, treth ac offerynnau ariannol, ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer twyll, a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Fel pob archwiliad o dan ISA (DU), mae'n ofynnol i mi ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gweithredu yn unol â hwy. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Deintyddion 1984, cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth pensiynau, deddfwriaeth treth a phenderfyniad y Cyfrin Gyngor.

## Ymateb yr archwiliad i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a'r profion i ddogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- Holais y rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a rhai posibl;
- Adolygais gofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, adroddiadau'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- Rhoddais sylw i'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, trwy brofi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; gan asesu a yw'r penderfyniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg busnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol; ac

Fe wnes i gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd, a'r risgiau posibl o ran twyll, i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys ein harbenigwyr pensiynau allanol a'n harbenigwyr archwilio treth allanol, ac roeddwn yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys o ran rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddiol. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (ail haen) yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn.

**Gareth Davies**
Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

10 Gorffennaf 2025

Y Swyddfa Archwilio Gyffredinol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Adran tri:

# Datganiadau ariannol

# Cyfrifon

## Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2024

| | Nodyn | 2024<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2023<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Ffioedd | 2 | 39,062 | 40,679 |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 2 | 3,004 | 1,807 |
| Amrywiol | 2 | 29 | 11 |
| **Cyfanswm yr Incwm Gweithredu** | | **42,095** | **42,497** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau staff | 3 | 24,456 | 21,230 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 4 | 7,965 | 6,914 |
| Cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau | 5 | 4,300 | 4,481 |
| Gweinyddu | 6 | 6,073 | 4,488 |
| Llety | 6 | 1,483 | 1,452 |
| Cyfathrebu a chyhoeddiadau | 6 | 400 | 445 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **44,677** | **39,010** |
| Cost cyllid | 6 | 197 | 208 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **44,874** | **39,218** |
| **Gwarged ar ôl gwariant gweithredu** | | **(2,779)** | **3,279** |

| | Nodyn | 2024 £'000 | Ailddatganwyd 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| Enillion o werthu asedau | - | 2 | 3 |
| Incwm o fuddsoddi | 2 | 1,290 | 586 |
| Enillion/(colledion) a wireddwyd o werthu buddsoddiadau | 10 | 350 | 48 |
| Enillion/(colledion) na wireddwyd ar fuddsoddiadau | 10 | 1,667 | 1,662 |
| **Gwarged am y flwyddyn ar ôl incwm buddsoddi ac addasiad** | | **530** | **5,578** |
| Trethiant | 7 | (870) | (516) |
| **Gwarged wedi'i gadw ar ôl treth** | | **(340)** | **5,062** |
| **Incwm cynhwysfawr arall** | | | |
| **Eitemau heb eu hailddosbarthu** | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn | 16 | (101) | (2,634) |
| (Colled)/elw oherwydd effaith terfyn uchaf asedau | 16 | 101 | 2,634 |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall** | | **-** | **-** |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **(340)** | **5,062** |

Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r ffigurau a ailddatganwyd i'w gweld yn nodyn 1.13 y datganiadau ariannol hyn, ar dudalen 113.

Mae'r nodiadau i'r cyfrifon ar dudalennau 107 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Rhagfyr 2024

| | Nodyn | 2024<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2023<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>1 Ionawr 2023<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | 9,391 | 9,368 | 9,514 |
| Asedau hawl-i-ddefnyddio | 8 | 3,606 | 4,010 | 4,134 |
| Asedau anniriaethol | 9 | 11 | 15 | 20 |
| Asedau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw neu golled | 10 | 21,041 | 19,544 | 16,731 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **34,049** | **32,937** | **30,399** |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Derbyniadau a rhagdaliadau | 11 | 1,765 | 1,654 | 1,477 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 12 | 58,359 | 60,349 | 56,500 |
| Treth gorfforaethol | 11 | - | - | 26 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **60,124** | **62,003** | **58,003** |
| **Cyfanswm Asedau** | | **94,173** | **94,940** | **88,402** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | |
| Symiau taladwy masnachol ac eraill | 13 | 4,741 | 5,059 | 3,032 |
| Incwm a ohiriwyd | 13 | 29,457 | 30,980 | 32,191 |
| Darpariaethau | 15 | 1,342 | 309 | 190 |
| Treth gorfforaeth | 13 | 297 | 1 | - |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **35,837** | **36,349** | **35,413** |
| **Asedau anghyfredol a/llai asedau/ rhwymedigaethau** | | **58,336** | **58,591** | **52,989** |

| | Nodyn | 2024<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2023<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>1 Ionawr 2023<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | |
| Rhwymedigaethau prydles | 13 | 4,643 | 5,132 | 5,082 |
| Treth a ohiriwyd | 13 | 1,432 | 858 | 368 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **6,075** | **5,990** | **5,450** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **52,261** | **52,601** | **47,539** |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | | |
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | | 45,151 | 47,158 | 43,758 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | | - | - | - |
| Cronfa wrth gefn enillion na wireddwyd o fuddsoddiad | | 7,110 | 5,443 | 3,781 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn** | | **52,261** | **52,601** | **47,539** |

**Tom Whiting**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

**Arglwydd Toby Harris**
Cadeirydd

Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r ffigurau a ailddatganwyd i'w gweld yn nodyn 1.13 y datganiadau ariannol hyn, ar dudalen 113.

Mae'r nodiadau i'r cyfrifon ar dudalennau 107 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2024

| | Nodyn | 2024 £'000 | Ailddatganwyd 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged o weithgareddau gweithredu | Incwm a Gwariant | (2,779) | 3,279 |
| Dibrisio ac amorteiddio | 6 | 1,071 | 880 |
| Colled/(Elw) o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 6 | 1 | - |
| Ailasesu ased hawl-i-ddefnyddio | 6 | - | 107 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y derbyniadau masnachol ac eraill | 11 | (111) | (151) |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn symiau taladwy masnachol a rhwymedigaethau eraill | 13 | (1,373) | 855 |
| Llog a dalwyd | | (41) | (13) |
| Symudiadau cyllido yn y gronfa bensiwn wrth gefn | 16 | 81 | (66) |
| Symudiadau pensiwn sy'n cael eu bodloni'n uniongyrchol gan y cynllun | 16 | (81) | 66 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau | 15 | 1,062 | 309 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 15 | (29) | - |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(2,199)** | **5,266** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | (686) | (32) |
| Prynu asedau anghyffyrddadwy | 9 | - | - |
| Enillion o werthu asedau | | 3 | 3 |
| Enillion o werthu asedau ariannol | 10 | 3,098 | 3,275 |
| Prynu asedau ariannol | 10 | (2,578) | (4,378) |
| Incwm o fuddsoddi | 2 | 1,290 | 586 |
| Treth | 13 | - | (3) |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **1,127** | **(549)** |

| | Nodyn | 2024<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2023<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Elfen gyfalaf rhwymedigaethau prydles | | (918) | (868) |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **(918)** | **(868)** |
| Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod dros y cyfnod | - | (1,990) | 3,849 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 12 | 60,349 | 56,500 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 12 | 58,359 | 60,349 |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | | **(1,990)** | **3,849** |

Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r ffigurau a ailddatganwyd i'w gweld yn nodyn 1.13 y datganiadau ariannol hyn, ar dudalen 113.

Mae'r nodiadau i'r cyfrifon ar dudalennau 107 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn

| | Nodyn | Cronfa gyffredinol wrth gefn £'000 | Y gronfa bensiwn wrth gefn £'000 | Cronfa wrth gefn enillion na wireddwyd o fuddsoddiad £'000 | Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | | **43,571** | **-** | **3,781** | **47,352** |
| Addasiad cyfnod blaenorol | | 187 | - | - | 187 |
| **Balans ar 1 Ionawr 2023** | | **43,758** | **-** | **3,781** | **47,539** |
| **Newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn 2023** | | | | | |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn fel y'i hailddatganwyd | Incwm a Gwariant | 5,062 | - | - | 5,062 |
| Elw actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 16 | 2,568 | (2,568) | - | - |
| Colled oherwydd effaith terfyn uchaf asedau | 16 | (2,634) | 2,634 | - | - |
| Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn | | 66 | (66) | - | - |
| Enillion na wireddwyd ar fuddsoddiadau | 10 | (1,662) | - | 1,662 | - |
| | | **3,587** | **-** | **1,662** | **5,249** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023 fel y'i hailddatganwyd** | | **47,158** | **-** | **5,443** | **52,601** |

| | Nodyn | Cronfa gyffredinol wrth gefn £'000 | Y gronfa bensiwn wrth gefn £'000 | Cronfa wrth gefn enillion na wireddwyd o fuddsoddiad £'000 | Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn 2024** | | | | | |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | Incwm a Gwariant | (340) | - | - | (340) |
| Elw actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 16 | 182 | (182) | - | - |
| Colled oherwydd effaith terfyn uchaf asedau | 16 | (101) | 101 | - | - |
| Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn | | (81) | 81 | - | - |
| Colledion na wireddwyd ar fuddsoddiadau | 10 | (1,667) | - | 1,667 | - |
| | | **(2,007)** | **-** | **1,667** | **(340)** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2024** | | **45,151** | **-** | **7,110** | **52,261** |

Mae rhagor o wybodaeth yn esbonio'r terfyn uchaf asedau pensiwn a sut mae'n effeithio arnom yn adran y gronfa bensiwn ar dudalen 48 yr adroddiad hwn.

Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r ffigurau a ailddatganwyd i'w gweld yn nodyn 1.13 y datganiadau ariannol hyn, ar dudalen 113.

Mae'r nodiadau i'r cyfrifon ar dudalennau 107 i 140 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol (IAS) a fabwysiadwyd gan y DU ac maent yn ystyried egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FreM) 2024–2025. Nodir hyn yn ein Penderfyniad Cyfrifon gan y Cyfrin Gyngor, a atgynhyrchir ar dudalen 142 o'r adroddiad hwn. Rydym yn paratoi ein cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy gynnwys buddsoddiadau ar werth y farchnad.

Paratoir y cyfrifon hyn ar sail busnes hyfyw. Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd i baratoi'r datganiadau ariannol, sydd wedi'u cymhwyso'n gyson, wedi'u disgrifio isod.

Sefydlwyd y GDC gan Ddeddf Seneddol yn 1956 ac mae â'i ddomisil yn y Deyrnas Unedig. Ei brif swyddfa fusnes yw 37 Wimpole St, Llundain W1G 8DQ.

Cyflwynir y datganiadau ariannol yn ein harian cyfred arferol sef punnoedd sterling.

### 1.1 Fformat y cyfrifon

Mae'n ofynnol i ni baratoi ein cyfrifon blynyddol ar ffurf a benderfynir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyfrin Gyngor gyflwyno'r cyfrifon ardystiedig gerbron dau Dŷ Senedd y DU a gerbron Senedd yr Alban. Disgrifir pwrpas statudol y GDC yng nghyflwyniad yr adroddiad blynyddol.

### 1.2 Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd a diwygiedig

Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd newydd eu mabwysiadu ar gyfer cyfnodau o 1 Ionawr 2024.

### 1.3 Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu o bwys

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol ag IAS, rhaid i ni wneud amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau a adroddir yn y cyfrifon blynyddol. Mae amcangyfrifon a dyfarniadau'n seiliedig ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau yn ymwneud â digwyddiadau i ddod y credir eu bod yn rhesymol adeg gwneud yr amcangyfrifon a'r dyfarniadau. Gall y profiad gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Isod trafodir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â'r risg fwyaf sylweddol o achosi addasiad sylweddol i symiau cario asedau a rhwymedigaethau.

**Buddion pensiwn**

Cyfrifwn am bensiynau'n unol ag 'IAS 19 – Buddion Gweithwyr'. Wrth benderfynu ar gostau pensiwn a rhwymedigaethau buddion diffiniedig cynllun pensiwn buddion diffiniedig y GDC, defnyddir nifer o dybiaethau sy'n cynnwys y gyfradd ddisgownt, twf cyflog, chwyddiant prisiau, yr elw disgwyliedig ar fuddsoddiadau'r cynllun a chyfraddau marwolaeth. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu IAS 19 (2011) a ddaeth i rym o 1 Ionawr 2013 ymlaen. Cytunir ar y tybiaethau gyda'r actiwari cymwysedig a defnyddir nhw i gyfrifo'r darpariaethau pensiwn. Rhoddir manylion pellach yn nodyn 16 i'r cyfrifon.

Rydym wedi cymhwyso terfyn uchaf asedau 'IFRIC 14: The Limit on a Defined Benefit Asset, Minimum Funding Requirements and their Interaction' er mwyn lleihau'r gwarged pensiwn yn y cyfrifon gan na allwn sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwarged hwnnw.

Ar 31 Rhagfyr 2024, nid oes gan y cynllun warged (2023: dim) ar sail y tybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd.

**Darpariaethau**

Rydym yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongladwy, ac sydd o amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol, ar sail yr amcan gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth.

**Dibrisio ac amorteiddio**

Cyfrifwn am ddibrisio ac amorteiddio'n unol ag 'IAS 16 – Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar' ac 'IAS 38 – Asedau Anniriaethol'. Mae costau dibrisio ac amorteiddio'n cydnabod y dirywiad yng ngwerth yr ased ac yn dyrannu cost yr ased dros y cyfnod y bydd yr ased yn cael ei defnyddio.

Gwneir dyfarniadau ynghylch beth fydd oes ddefnyddiol dybiedig yr asedau, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu amgylchiadau newidiol.

Rhoddir manylion pellach yn y polisi cyfrifyddu ar ddibrisio ac amorteiddio isod (nodyn 1.6).

## 1.4 Busnes hyfyw

Rydym yn gorff statudol sy'n parhau i ddarparu gwasanaeth. Cynhyrchir ein hincwm ffioedd drwy ffioedd cofrestru gorfodol i ddeintyddion a phroffesiynolion gofal deintyddol sy'n ymarfer yn y DU.

Cwblhawyd y cyfnod casglu ffioedd cadw blynyddol ar gyfer deintyddion ym mis Rhagfyr 2024, gydag 87.3% o ddeintyddion yn dewis talu'n llawn am y flwyddyn a'r gweddill yn talu rhandaliadau chwarterol. Derbyniwyd 92.1% o gyfanswm cyllideb ffioedd cadw blynyddol deintyddion ym mis Rhagfyr 2024.

Cwblhawyd y casgliad ffioedd cadw blynyddol ar gyfer proffesiynolion gofal deintyddol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2025 ym mis Gorffennaf 2024, gyda 60.2% o gyfanswm ein hincwm cadw blynyddol ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol ar gyfer 2025 wedi'i dderbyn ar 31 Rhagfyr 2024.

Roedd cyfanswm o 84.9% o'n hincwm gweithredu wedi'i gyllidebu ar gyfer 2025 wedi'i dderbyn erbyn 31 Rhagfyr 2024.

Er bod rhaid i ni ystyried y cyfnod 12 mis nesaf o leiaf, rydym yn cwblhau dadansoddiad senario manwl drwy brawf straen i fesur effaith unrhyw leihad yn nifer y gweithwyr cofrestredig ar ein hincwm dros y tair blynedd nesaf. Roedd y senarios a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar y wybodaeth ystadegol a oedd ar gael ac yn modelu effaith gwahanol lefelau risg incwm ar ein hylifedd a lefel ddisgwyliedig ein cronfeydd wrth gefn rhydd. Fel rhan o'r gwaith modelu hwn, rydym wedi cwblhau dadansoddiad sensitifrwydd allweddol hefyd i ddeall faint y byddai'n rhaid i nifer y gweithwyr cofrestredig ostwng i'n rhoi mewn sefyllfa arian parod ddybryd.

Mae ein gallu i liniaru unrhyw risg i'n hincwm yn y dyfodol hefyd wedi'i gynorthwyo gan y ffaith y cwblheir ein cynlluniau gweithredol gryn amser ymlaen llaw, gan roi cyfle pellach i ni leihau ein costau i gynnal ein hyfywedd ariannol.

Ar ôl adolygu'r senarios hyn, ystyriwn ei bod yn briodol i ni baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

## 1.5 Eiddo, peiriannau, cyfarpar ac asedau anniriaethol

Mae eitemau o eiddo, peiriannau, cyfarpar ac asedau anniriaethol wedi'u datgan ar werth teg gan ddefnyddio cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi.

Cwblheir ymarfer dilysu blynyddol i sicrhau bod yr asedau'n bresennol, ac yn gweithio. Bydd unrhyw gyfarpar sydd wedi'i ddifrodi sydd y tu hwnt i waith atgyweirio darbodus yn cael ei waredu.

Adroddir Asedau Sefydlog Anghyfredol fel eiddo, peiriannau a chyfarpar o dan IAS 16. Lle bo'n briodol, dosbarthwyd meddalwedd ac asedau datblygu fel Asedau Anniriaethol o dan IAS 38.

Cedwir asedau ar ganol eu creu ar y dyddiad cyfrifyddu ar sail cost tan y daw'r asedau hynny'n weithredol ac y trosglwyddir nhw i'r dosbarth asedau anghyfredol sy'n berthnasol iddynt.

Mae gwariant yn cael ei gyfalafu dim ond lle mae cost yr ased neu'r grŵp o asedau a brynwyd yn fwy na £1,000.

## 1.6 Dibrisio ac amorteiddio

Darperir ar gyfer dibrisio ac amorteiddio er mwyn dileu cost yr asedau anghyfredol yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig. Mae treuliau dibrisio ac amorteiddio wedi eu cynnwys yn y llinell costau gweinyddol yn y cyfrif incwm a gwariant o dan incwm a gwariant cynhwysfawr. Mae oes ddefnyddiol dybiedig asedau fel a ganlyn:

| Dosbarthiad yr ased | Oes yr ased |
|---|---|
| Dodrefn a ffitiadau | Hyd at 10 mlynedd |
| Peiriannau a chyfarpar | Hyd at 25 mlynedd |
| Cyfarpar TG | Hyd at bum mlynedd |
| Meddalwedd TG, trwyddedau a sicrwydd meddalwedd | Hyd at bum mlynedd |
| Asedau hawl-i-ddefnyddio | Dros weddill y brydles |

Adolygir cyfraddau dibrisio'n rheolaidd drwy gymharu oes wirioneddol ased â chyfraddau'r polisïau cyfrifyddu.

## 1.7 Amhariad

Ar ddyddiad pob Datganiad Sefyllfa Ariannol, adolygwn symiau cario ein hasedau i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau wedi dioddef colled drwy amhariad. Os oes arwydd bod hyn wedi digwydd, gwneir amcan o werth adenilladwy'r ased er mwyn mesur maint y golled oherwydd amhariad. Codir colled drwy amhariad ar y datganiad incwm yn syth.

Pan fydd cynnydd wedyn yn swm adenilladwy ased oherwydd newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddir i benderfynu faint yw'r swm adenilladwy, mae'n cael ei ystyried yn wrthdroad o'r golled flaenorol drwy amhariad ac yn cael ei gydnabod fel swm cario'r ased a fyddai wedi cael ei benderfynu (heb gynnwys ddibrisio ac amorteiddio) pe na bai colled drwy amhariad wedi'i chydnabod. Mae'r gwrthdroad yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm a gwariant yn syth.

## 1.8 Gwariant

Cyfrifir am wariant ar sail croniadau pan fydd naill ai'r nwyddau wedi eu derbyn neu'r gwasanaeth wedi'i gyflawni. Mae TAW na ellir ei hadennill yn cael ei chynnwys gyda'r eitem gost y mae'n berthnasol iddi.

## 1.9 Incwm

Cyfrifir am refeniw dros y cyfnod y mae'n rhaid i ni gynnal cofrestriad unigolyn. Rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer deintyddion. Rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer DCPs.

Telir ffioedd cadw naill ai'n flynyddol ymlaen llaw neu bob chwarter ymlaen llaw. Rydym yn cydnabod yr incwm ar sail llinell syth ar draws y cyfnod y mae'r ffi gadw'n berthnasol iddo. Nid oes angen unrhyw ddyfarniadau nac amcangyfrifon allweddol wrth asesu rhwymedigaethau'r GDC, sydd wedi eu gwasgaru'n gyfartal dros y cyfnod cofrestru. Y swm incwm gohiriedig o fewn ein credydwyr yw gwerth y ffioedd rydym wedi'u cael ar ddyddiad y fantolen sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol yn y dyfodol.

Mae ffioedd a dderbynnir mewn perthynas ag Arholiadau Cofrestru Tramor (ORE) yn cael eu derbyn ymlaen llaw ac yn cael eu gohirio nes eu bod yn cael eu cydnabod pan fydd yr arholiadau'n cael eu sefyll.

Mae ffioedd a dderbynnir mewn perthynas â ffioedd cofrestru a ffioedd prosesu ceisiadau ORE yn daladwy ar ôl cyflwyno'r cais ac yn cael eu cydnabod ar ôl iddynt gael eu derbyn ac nid ydynt yn ad-daladwy.

Mae ffioedd a dderbynnir mewn perthynas â ffioedd asesu ceisiadau cofrestru yn daladwy ar ôl cyflwyno'r cais ac yn cael eu cydnabod yn llawn unwaith y bydd gwaith wedi'i wneud i brosesu'r cais yn barod i'w asesu'n derfynol gan nad ydynt wedyn yn ad-daladwy.

Mae ffioedd amrywiol, gwerthiannau eraill ac incwm arall yn cael eu cydnabod pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol. Mae incwm buddsoddi'n cael ei gydnabod pan ddaw'r difidend neu log yn ddyledus, wedi'i ddatgan fel swm crynswth o dreth y gellir ei hadennill.

## 1.10 Prydlesi

Ar gyfer unrhyw gontract newydd a gytunir dros y cyfnod cyfrifyddu, ystyriwn a yw'n brydles neu'n cynnwys prydles. Mae rhwymedigaeth y brydles yn cael ei mesur ar sail gwerth y taliadau prydles heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, wedi'u disgowntio ar sail y gyfradd llog ymhlyg yn y brydles lle bo'r gyfradd honno ar gael yn rhwydd, neu ar sail ein cyfradd fenthyg gynyddrannol; , sy'n cael ei gosod yn unol â Chyfradd Sylfaenol Banc Lloegr, adeg cychwyn y brydles.

Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio'n cael ei fesur ar sail cost, sy'n cynnwys y mesuriad cychwynnol o rwymedigaeth y brydles, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a wariwyd yn sgil defnyddio, amcan o unrhyw gostau i ddatgymalu a symud yr ased ar ddiwedd y brydles, ac unrhyw daliadau prydles a wnaed cyn dyddiad dechrau'r brydles (heb gynnwys unrhyw gymhellion a dderbyniwyd).

Mae asedau hawl-i-ddefnyddio'n cael eu dibrisio ar sail llinell syth o ddyddiad cychwyn y brydles i ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl-i-ddefnyddio, neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sy'n dod gyntaf. Asesir prydlesi ar gyfer amhariad pan fydd arwydd o hynny.

Rydym wedi dewis rhoi cyfrif am brydlesi tymor byr a phrydlesi asedau gwerth isel am resymau ymarferol. Yn lle cydnabod ased hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaeth prydles, mae'r taliadau cysylltiedig yn cael eu cydnabod fel cost o dan elw neu golled, ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Mae'r Cyngor:

- Wedi trin unrhyw brydles ased sylfaenol gwerth llai na £3,000 fel ased gwerth isel.
- Wedi trin unrhyw brydles gyda llai na 12 mis tan y daw i ben fel prydles tymor byr.
- Wedi cydnabod prydlesi tymor byr a gwerth isel ar sail llinell syth fel cost yn y cyfrif incwm a gwariant.

Nid oes gennym unrhyw drefniadau is-brydlesu, gwerthu ac ôl-brydlesu, na threfniadau lle'r ydym yn brydlesydd.

### Prydlesi swyddfeydd

Mae'r asedau prydles ar 31 Rhagfyr 2024 yn cynnwys cytundebau rhent ar gyfer ein swyddfeydd yn Llundain a Birmingham.

Nid yw'r prydlesi'n cynnwys unrhyw opsiynau i adnewyddu am gyfnod ychwanegol. Rhaid i unrhyw addasiadau a wneir i'r swyddfeydd gael eu cytuno ymlaen llaw gyda'r prydlesydd a thrwy roi'r rhybudd contractiol perthnasol.

### Swyddfa Llundain

Darperir y brydles ar gyfer Swyddfa Llundain i ni ar sail rhent hedyn pupur tan fis Ionawr 2057. Mae amodau'r trefniant hwnnw'n pennu bod yr eiddo i'w feddiannu fel pencadlys y GDC. Mae'r brydles yn cynnwys rhandaliad prydles amrywiol ar sail y Mynegai Prisiau Manwerthu, sy'n cael ei ailbrisio bob pum mlynedd.

O dan delerau'r brydles hedyn pupur, rhaid i ni fod ag yswiriant digonol, drwy gwmni yswiriant a benodir gan y prydlesydd, rhag tân a difrod i'r eiddo. Rydym yn gyfrifol hefyd am gynnal a chadw a golwg allanol yr eiddo ar sail cyfnodau a nodir yn y contract. Nid yw'r cyfamodau prydles a nodir gan y brydles hon wedi'u trin fel dadfeiliadau, gan nad oes gofyniad i ddychwelyd yr adeilad i'w gyflwr blaenorol, nac ymrwymiadau ariannol gan ei bod yn anodd amcangyfrif swm dibynadwy.

### Swyddfa Birmingham

O dan delerau'r brydles ar gyfer Swyddfa Birmingham rhaid i ni wneud taliadau i'r prydlesydd am wasanaeth ac yswiriant sy'n cael eu penderfynu'n flynyddol fel rheol. Mae'r rhent yn cael ei adolygu bob pum mlynedd. Mae'r cytundeb prydlesu yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 30 Medi 2033 ac nid yw'n cynnwys opsiwn i derfynu'n gynnar. Os penderfynir gadael y safle'n gynnar, gall risg brydles feichus godi.

Mae'n ofynnol i ni fod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol gyda chwmni yswiriant ag enw da ar gyfer risgiau sy'n ymwneud â'r eiddo.

## 1.11 Trethiant

Mae'r Cyngor yn cael ei drethu fel corff cydfuddiannol ac felly'n cael ei drethu dim ond ar ffynonellau incwm allanol. Yn hanesyddol, incwm buddsoddi yw hyn.

Mae treth a ohiriwyd yn cael ei chydnabod ar bob gwahaniaeth dros dro trethadwy. Fodd bynnag, ni chyfrifir treth a ohiriwyd wrth gydnabod ased neu rwymedigaeth i ddechrau oni bai fod y trafodiad yn effeithio ar dreth neu elw cyfrifyddu. Mae ased treth a ohiriwyd hefyd yn cael ei chydnabod ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro didynadwy yn ôl pa mor debygol fydd yr elw trethadwy ar gael i ddefnyddio'r gwahaniaeth dros dro didynadwy yn ei erbyn. Mesurir rhwymedigaethau ac asedau treth a ohiriwyd ar sail y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i'r cyfnod pan wireddir yr ased neu pan setlir y rhwymedigaeth. Mae mesur hefyd yn seiliedig ar ganlyniadau treth adennill neu setlo swm cario'r asedau a'r rhwymedigaethau. Mae newidiadau mewn rhwymedigaethau neu asedau treth a ohiriwyd yn cael eu cydnabod fel elfen o gost treth yn y cyfrif incwm a gwariant.

## 1.12 Cynlluniau pensiwn

Roedd gan y Cyngor dri chynllun pensiwn yn ystod 2024.

| Cynllun Pensiwn | Ymddiriedolaeth |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Meistr | People's Pension |
| Adran Buddion Diffiniedig | Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |
| Adran cyfraniadau diffiniedig 'atodol' | Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |

Mae gweithwyr a ymunodd â'r GDC ar ôl 31 Rhagfyr 2014 yn dod o dan gynllun Ymddiriedolaeth Meistr y People's Pension. Rydym yn cydnabod cost ddisgwyliedig y cynllun hwn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaeth y gweithiwr, drwy dalu symiau i'r People's Pension wedi eu cyfrifo ar sail gronnus. Mae'r cyfraniadau'n cael eu pennu ar sail canran o gyflog pensiynadwy, gyda chyfraniad y cyflogwr yn isafswm o 6% ac uchafswm o 10% o'r cyflog pensiynadwy. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn dâl a godir ar y People's Pension.

Mae'r ddau gynllun pensiwn arall o fewn yr un ymddiriedolaeth – Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae asedau'r cynlluniau'n cael eu cadw ar wahân i rai'r Cyngor ac yn cael eu buddsoddi fel y disgrifir yn nodyn 16.

### Adran buddion diffiniedig

Caewyd yr adran hon i weithwyr newydd y cynigiwyd cyflogaeth iddynt ar ôl 31 Rhagfyr 2014 ac fe gaeodd i aelodau newydd ar ôl 1 Gorffennaf 2016. Caewyd y cynllun i gronni yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2021, a throsglwyddwyd yr holl aelodau gweithredol i'r pensiwn Ymddiriedolaeth Meistr o 1 Ebrill 2021.

Codir costau gwasanaeth presennol yr adran buddion diffiniedig, heb gynnwys costau llog y cynllun, a'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun am y flwyddyn, ar y cyfrif incwm a gwariant o dan 'costau pensiwn'. Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn syth o dan 'incwm cynhwysfawr arall'.

Mesurir asedau'r adran buddion diffiniedig ar sail eu gwerth teg ar ddyddiad y datganiad sefyllfa ariannol. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun ar sail actiwaraidd ar ddyddiad y datganiad sefyllfa ariannol yn defnyddio'r dull amcanwerth unedol, ac wedi eu disgowntio ar gyfradd cyfwerth â'r elw disgwyliedig ar fond corfforaethol ansawdd uchel gyda chyfnod cyfatebol i gyfnod rhwymedigaethau'r cynllun. Datgelir y rhwymedigaethau neu'r asedau buddion diffiniedig a geir yn sgil hynny ar wahân yn y datganiad sefyllfa ariannol.

O dan ofynion 'IFRIC 14: The Limit on a Defined Benefit Asset, Minimum Funding Requirements and their Interaction', rhaid i ni gyfyngu'r gwarged yn y datganiadau ariannol gan na allwn sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. Mae unrhyw warged (ased pensiwn) o'r cynllun ar adeg y prisiad yn perthyn i'r cynllun, sy'n endid cyfreithiol ar wahân.

Darperir gwybodaeth am brisiad y gronfa bensiwn ar dudalen 132 yr adroddiad hwn.

### Adran cyfraniadau diffiniedig 'atodol'

Caewyd yr adran hon i aelodau newydd o 1 Ebrill 2014 ac mae wedi'i chau i unrhyw gyfraniad yn y dyfodol o 31 Mawrth 2021. Roedd cyfrannu'n wirfoddol a gwnaeth y Cyngor gyfraniad cyfwerth hyd at 5% o'r cyflog pensiynadwy hyd at y dyddiad cau. Codir y cyfraniadau ar y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

## 1.13 Offerynnau ariannol

### Asedau ariannol

Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau fel gwarannau rhestredig, gwarannau llog sefydlog, ecwitïau ynghyd ag ymddiriedolaeth unedau sef cronfa a reolir sy'n cynnwys portffolio cymysg o warannau rhestredig adneuon arian parod. Dosberthir y rhain fel 'gwerth teg drwy elw a cholled' at ddibenion IFRS 9.

Mae asedau ariannol yn cael eu pennu gan yr hierarchaeth gwerth teg canlynol yn ôl eu dosbarthiad IFRS 13:

| Lefel | Sail mesur gwerth teg |
|---|---|
| Lefel 1 | Prisiau a ddyfynnir (sydd heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau yr un fath y gall yr endid gael mynediad iddynt ar y dyddiad mesur |
| Lefel 2 | Mewnbynnau ar wahân i brisiau a ddyfynnir a gynhwysir yn Lefel 1, y gellir eu harsylwi ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol |
| Lefel 3 | Mewnbynnau na ellir eu harsylwi ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth |

Gall y dyfarniad ynghylch a yw marchnad yn weithredol gynnwys, er enghraifft, ystyried ffactorau o'r fath fel maint ac amlder gweithgarwch masnachu, argaeledd prisiau a maint lledaeniadau'r bid/cynnig. Mewn marchnadoedd gweithredol, cael sicrwydd bod pris y trafodiad yn darparu tystiolaeth o werth teg neu benderfynu ar yr addasiadau i brisiau trafodion sy'n angenrheidiol i fesur gwerth teg yr ased neu'r rhwymedigaeth sydd angen gwaith ychwanegol yn ystod y broses brisio.

Gan nad oes gan y Cyngor unrhyw asedau lefel 3 ar 31 Rhagfyr, mae'r technegau prisio yn defnyddio data arsylwadwy yn unig ac felly mae dibynadwyedd y mesuriad gwerth teg yn uchel.

Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y prisiau canol marchnad diwedd dydd ar y dyddiad cyfrifyddu. Mae enillion na wireddwyd a cholledion o newidiadau mewn gwerth marchnadol yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 10.

### Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Cedwir arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar gost wedi'i hamorteiddio ac mae'n cynnwys arian parod mewn llaw a blaendaliadau a gedwir ar alwad gyda banciau. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 12.

### Derbyniadau masnachol ac eraill

Mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna ar sail gwerth anfoneb neu gost wedi'i hamorteiddio. Maent yn deillio'n bennaf o dalu ymlaen llaw am wasanaethau a dderbynnir. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 11.

### Symiau taladwy masnachol ac eraill

Mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna ar sail gwerth anfoneb neu gost wedi'i hamorteiddio. Maen nhw'n deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau. Datgelir gwerth y rhwymedigaethau hyn yn nodyn 13.

## 1.14 Cronfeydd wrth gefn

Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cynnwys y wybodaeth isod.

**Cronfeydd wrth gefn cyffredinol**

Sef y canlyniadau sy'n weddill ar ôl trosglwyddo enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn.

**Y gronfa bensiwn wrth gefn**

Sef yr enillion a'r colledion actiwaraidd ac effaith y terfyn uchaf pensiwn ar asedau cynllun pensiwn sy'n deillio o ailbrisio darpariaeth y GDC ar gyfer rhwymedigaethau/asedau'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig.

## 1.15 Addasiadau Cyfnod Blaenorol

**Asedau ariannol – dosbarthiad asedau a ddelir**

Mae nodyn 10 i'r datganiadau ariannol wedi'i ailddatgan ar gyfer 2023 i ddatgelu lefel yr hierarchaeth gwerth teg y mae'r mesuriadau gwerth teg yn cael eu categoreiddio ynddi. Yn flaenorol, roeddent wedi cael eu categoreiddio yn anghywir lle'r oedd pob un ohonynt yn asedau lefel 1.

Nid oes unrhyw effaith ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol na'r cyfrif Incwm a Gwariant gan fod yr addasiad cyfnod blaenorol hwn yn gyflwyniadol ac nid yw'n effeithio ar y symiau a gydnabuwyd yn flaenorol ar gyfer gwerth teg asedau ariannol a ddelir.

**Asedau hawl-i-ddefnyddio – trin TAW na ellir ei hadennill a darpariaeth dadfeiliadau**

Nododd adolygiad o'n hasedau a'n rhwymedigaethau prydles fod TAW na ellir ei hadennill wedi'i chynnwys yn rhwymedigaeth y brydles a gwerthoedd yr asedau pan fabwysiadwyd safon IFRS16 yn gyntaf ac yn gynnar yn 2019. Roedd TAW wedi'i chynnwys bryd hynny fel yr aseswyd bod cost defnyddio'r asedau hynny i'n haelodau cofrestredig sy'n talu ffioedd. Er bod IFRS 16 yn parhau i fod yn dawel ar y driniaeth briodol o TAW na ellir ei hadennill, mae IFRIC 21 yn darparu canllawiau o ran pryd i gydnabod rhwymedigaeth am ardoll a osodwyd gan y Llywodraeth. Ar y sail hon, rydym wedi penderfynu ei bod bellach yn briodol diwygio ein trefniadau cyfrifyddu drwy eithrio TAW na ellir ei hadennill o'r cyfrifiadau asedau a rhwymedigaeth prydles. Mae hyn yn effeithio ar y prydlesi hynny yn unig lle mae TAW na ellir ei hadennill yn cael ei chodi.

Yn ogystal, wrth adolygu asedau a rhwymedigaethau'r brydles, fe wnaethom nodi darpariaeth ar gyfer yr amcangyfrif o gost dadfeiliadau sy'n debygol o fod yn ddyledus wrth adael Colmore Square ar ddiwedd cyfnod cyfredol y brydles nad oedd yn cael ei chydnabod pan wnaethom ymrwymo i'r brydles. Rydym wedi cydnabod y ddarpariaeth hon a'i hadlewyrchu yn yr ased Hawl-i-ddefnyddio wedi'i addasu.

Mae addasiadau cyfnod blaenorol wedi'u cymhwyso yn unol ag IAS 8. Mae'r symudiad perthnasol ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol a'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn 2023 fel a ganlyn:

# 31 Rhagfyr 2022

## Detholiad o'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

| | Ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol £k | Addasiad ar gyfer TAW na ellir ei hadennill £k | Addasiad ar gyfer darpariaeth wedi'i hepgor £k | Ffigur a ailddatganwyd £k |
|---|---|---|---|---|
| Ased hawl-i-ddefnyddio | 4,980 | (1,036) | 190 | 4,134 |
| Cyfanswm asedau | 89,248 | (1,036) | 190 | 88,402 |
| Symiau taladwy masnachol ac eraill | 3,469 | (437) | - | 3,032 |
| Darpariaethau | - | - | 190 | 190 |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol | 35,660 | (437) | 190 | 35,413 |
| Rhwymedigaethau prydles | 5,868 | (786) | - | 5,082 |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol | 6,236 | (786) | - | 5,450 |
| Cronfa gyffredinol | 43,571 | 187 | - | 43,758 |
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn | 47,352 | 187 | - | 47,539 |

# 31 Rhagfyr 2023

## Detholiad o'r Cyfrif Incwm a Gwariant:

| | Ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol £k | Addasiad ar gyfer TAW na ellir ei hadennill £k | Addasiad ar gyfer darpariaeth wedi'i hepgor £k | Ffigur a ailddatganwyd £k |
|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu | 4,438 | (140) | 190 | 4,488 |
| Cyfanswm y gwariant gweithredu | 38,960 | (140) | 190 | 39,010 |
| Cost cyllid | 298 | (90) | - | 208 |
| Cyfanswm gwariant | 39,258 | (230) | 190 | 39,218 |

## Detholiad o'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

| | Ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol £k | Addasiad ar gyfer TAW na ellir ei hadennill £k | Addasiad ar gyfer darpariaeth wedi'i hepgor £k | Ffigur a ailddatganwyd £k |
|---|---|---|---|---|
| Asedau hawl-i-ddefnyddio | 4,732 | (912) | 190 | 4,010 |
| Cyfanswm asedau | 95,662 | (912) | 190 | 94,940 |
| Symiau taladwy masnachol ac eraill | 5,374 | (315) | - | 5,059 |
| Darpariaethau | 119 | - | 190 | 309 |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol | 36,474 | (315) | 190 | 36,349 |
| Rhwymedigaethau prydles | 5,956 | (824) | - | 5,132 |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol | 6,814 | (824) | - | 5,990 |
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | 46,931 | 227 | - | 47,158 |
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn | 52,374 | 227 | - | 52,601 |

## Detholiad o’r Datganiad llifau arian parod:

| | Ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol<br>£k | Addasiad ar gyfer TAW na ellir ei hadennill<br>£k | Addasiad ar gyfer darpariaeth wedi’i hepgor<br>£k | Ffigur a ailddatganwyd<br>£k |
|---|---|---|---|---|
| Gwarged o weithgareddau gweithredu | 3,239 | 40 | - | 3,279 |
| Dibrisio ac amorteiddio | 816 | 64 | | 880 |
| Ailasesu'r ased hawl-i-ddefnyddio | 193 | (86) | - | 107 |
| Cynnydd mewn symiau taladwy masnachol a rhwymedigaethau eraill | 1,285 | 83 | - | 1,368 |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 119 | - | 190 | 309 |
| (All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 5,489 | 100 | 190 | 5,779 |
| Elfen gyfalaf rhwymedigaethau prydles | (578) | (100) | (190) | (868) |
| (All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau cyllido | (578) | (100) | (190) | (868) |

## Detholiad o’r Datganiad newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn:

| | Ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol<br>£k | Addasiad ar gyfer TAW na ellir ei hadennill<br>£k | Addasiad ar gyfer darpariaeth wedi’i hepgor<br>£k | Ffigur a ailddatganwyd<br>£k |
|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ionawr 2023 | 43,571 | 187 | - | 43,758 |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | 5,022 | 40 | - | 5,062 |
| Balans ar 31 Rhagfyr 2023 | 46,931 | 227 | - | 47,158 |

# 2. Incwm

## 2.1 Incwm o gofrestru

| | 2024 Nifer | £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Deintyddion** | | | |
| Cyfanswm cofrestriadau newydd | 2,164 | 604 | 713 |
| Cofrestru dros dro | 192 | 121 | 66 |
| Nifer a gadwyd | 43,929 | 27,336 | 29,627 |
| Adfer ar ôl tynnu oddi ar y gofrestr | 269 | 116 | 93 |
| **Cyfanswm** | **46,554** | **28,177** | **30,499** |
| **Proffesiynolion Gofal Deintyddol** | | | |
| Cyfanswm cofrestriadau newydd | 7,832 | 413 | 360 |
| Nifer a gadwyd (Awst i Rhagfyr)* | 75,390 | 3,280 | 3,759 |
| Nifer a gadwyd (Ionawr i Gorffennaf)** | - | 4,390 | 4,255 |
| Adfer ar ôl cael gwared | 1,060 | 62 | 88 |
| **Cyfanswm** | **84,282** | **8,145** | **8,462** |
| **Arbenigwyr** | | | |
| Ychwanegiadau at y rhestr o arbenigwyr | 200 | 66 | 54 |
| Nifer yr arbenigwyr a gadwyd yn flynyddol | 4,257 | 310 | 307 |
| Ffi adfer arbenigwyr | 345 | - | - |
| **Cyfanswm** | **4,802** | **376** | **361** |
| **Ffioedd prosesu ceisiadau cofrestru** | | **2,364** | **1,357** |
| **Cyfanswm yr Incwm Cofrestru** | | **39,062** | **40,679** |

*Casglu ffioedd 2024/25 (Gorffennaf 2024)

**Casglu ffioedd 2023/24 (Gorffennaf 2023)

Mae'r ffigurau uchod yn adlewyrchu cofrestreion yn talu ffioedd yn ystod y flwyddyn yn hytrach na nifer y cofrestreion ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2024.

## 2.2 Incwm Arall

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd arholiadau | 3,004 | 1,807 |
| Incwm amrywiol | 29 | 11 |
| Incwm o fuddsoddi | 1,290 | 586 |
| **Cyfanswm Incwm Arall** | **4,323** | **2,404** |

# 3. Costau staff

| | Staff a gyflogir yn barhaol<br>£'000 | Eraill<br>£'000 | 2024<br>Cyfanswm<br>£'000 | 2023<br>Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Costau Staff** | | | | |
| Tâl a chyflogau | 19,269 | - | 19,269 | 16,853 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,244 | - | 2,244 | 1,873 |
| Costau pensiwn | 1,293 | - | 1,293 | 1,137 |
| Taliadau terfynu a dileu swyddi | 235 | - | 235 | 83 |
| Costau staff eraill | 1,240 | - | 1,240 | 1,166 |
| **Is-gyfanswm** | **24,281** | **-** | **24,281** | **21,112** |
| Staff dros dro | - | 175 | 175 | 118 |
| **Cyfanswm** | **24,281** | **175** | **24,456** | **21,230** |

Yn unol â gofynion adrodd IAS19, mae costau staff eraill yn cynnwys cost gwyliau blynyddol gweithwyr heb eu cymryd ar 31 Rhagfyr.

## 4. Gwariant ar wasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol** | | |
| **Tâl a chostau archwilwyr:** | | |
| Archwilio allanol – Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 80 | 12 |
| Archwiliad allanol y flwyddyn flaenorol – Haysmacintyre LLP | 16 | 46 |
| Archwilio mewnol | 155 | 64 |
| Ffioedd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol | 306 | 297 |
| Gwrandawiadau ymddygiad | 1,048 | 1,014 |
| Ffioedd Cwnsleriaid | 1,072 | 1,204 |
| Ffioedd arbenigwyr | 582 | 492 |
| Costau arholiadau | 2,840 | 1,993 |
| Ffioedd a thaliadau eraill | 1,679 | 1,689 |
| Taliadau eraill | 187 | 103 |
| **Cyfanswm** | **7,965** | **6,914** |
| **Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y gwasanaethau di-archwilio canlynol gan ei archwilwyr allanol blaenorol Haysmacintyre LLP:** | | |
| Am gyngor ar dreth gorfforaethol | 5 | 6 |
| **Cyfanswm** | **5** | **6** |

Yn 2024, comisiynwyd archwiliadau mewnol arbenigol ychwanegol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau Addasrwydd i Ymarfer a seiberddiogelwch TG.

## 5. Gwariant ar gyfarfodydd y Cyngor a'r pwyllgorau

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm ffioedd a threuliau'r Cyngor | 514 | 466 |
| **Treuliau cyfarfodydd pwyllgor** | | |
| Ffioedd a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 2,491 | 2,183 |
| Treuliau a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 175 | 119 |
| Treuliau a ffioedd proffesiynol ar gyfer pwyllgorau a phaneli | 786 | 1,285 |
| Treuliau cyfarfodydd pwyllgorau a phaneli | 334 | 428 |
| **Cyfanswm treuliau cyfarfodydd pwyllgor** | **3,786** | **4,015** |
| **Cyfanswm Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau** | **4,300** | **4,481** |

## 6. Gwariant gweinyddol arall

| | 2024<br>£'000 | Ailddatganwyd 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Treuliau gweinyddol** | | |
| Dibrisiant | 1,067 | 875 |
| Amorteiddio | 4 | 5 |
| Ailasesu'r ased hawl-i-ddefnyddio | - | 107 |
| TAW ar ased hawl-i-ddefnyddio | 131 | 74 |
| Colled o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 1 | - |
| Llogi cyfarpar swyddfa | 26 | 13 |
| Prydlesi adeiladau | 358 | 419 |
| Cymorth a chynnal a chadw technoleg gwybodaeth | 2,614 | 2,053 |
| Costau personél | 4 | 9 |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 1,062 | 254 |
| Defnyddio'r ddarpariaeth | (25) | - |
| Costau gweithredu eraill | 831 | 679 |
| **Cyfanswm** | **6,073** | **4,488** |
| **Cost cyllid** | | |
| Taliadau llog ar brydlesi cyllid | 197 | 208 |
| **Cyfanswm** | **197** | **208** |
| **Treuliau llety** | | |
| Ardrethi busnes | 685 | 673 |
| Glanhau | 269 | 224 |
| Cynnal a chadw a thrwsio | 189 | 144 |
| Costau llety eraill | 340 | 411 |
| **Cyfanswm** | **1,483** | **1,452** |
| **Treuliau cyfathrebu a chyhoeddi** | | |
| Cyfathrebu a chyhoeddiadau | 400 | 445 |
| **Cyfanswm** | **400** | **445** |
| **Cyfanswm costau eraill** | **8,153** | **6,593** |

# 7. Trethiant

## 7.1 Dadansoddiad o daliadau treth

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Treth gyfredol** | | |
| Treth Gorfforaethol y DU ar elw'r flwyddyn | 319 | - |
| Addasiad treth blwyddyn flaenorol | (25) | 25 |
| Trethiant tramor | 2 | 1 |
| **Cyfanswm taliadau treth cyfredol** | 296 | 26 |
| **Treth a ohiriwyd** | | |
| Tarddiad a gwrthdroi gwahaniaethau amseru | 574 | 490 |
| Effaith newid cyfraddau treth ar y balans agoriadol | - | - |
| **Cyfanswm y dreth a ohiriwyd** | **574** | **490** |
| **Treth ar elw ar weithgareddau cyffredin** | **870** | **516** |

## 7.2 Ffactorau'n effeithio ar daliadau treth am y cyfnod

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Mae'r Cyngor yn cael ei drethu fel corff cydfuddiannol ac felly'n cael ei drethu dim ond ar ffynonellau incwm allanol. Yn hanesyddol, incwm buddsoddi yw hyn.** | | |
| **Ffactorau'n effeithio ar daliadau treth am y cyfnod** | | |
| Elw am y flwyddyn | 530 | 5,538 |
| Treth ddisgwyliedig o 25.0% (2023: 19.0%) | 132 | 1,302 |
| **Effeithiau:** | | |
| Incwm nad yw'n drethadwy | 148 | (1,178) |
| Addasiad i'r gwerthoedd a gariwyd ymlaen | - | - |
| Symudiad yn y balans treth a ohiriwyd oherwydd newid yn y cyfraddau treth | - | - |
| Treth ar daliadau cydraddoli a buddsoddiadau llog sefydlog sy'n cynyddu yn eu gwerth | 613 | 337 |
| Credydau trethiant tramor | 2 | 1 |
| Ailfesur treth a ohiriwyd ar gyfer newid mewn cyfraddau tr | - | 29 |
| Addasiad treth blwyddyn flaenorol | (25) | 25 |
| **Treth yn y flwyddyn gyfredol** | **870** | **516** |

## 8. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | 2024 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwelliannau lesddaliad | Asedau hawl-i-ddefnyddio | Peiriannau a chyfarpar | Dodrefn a ffitiadau | Technoleg gwybodaeth | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2024 | 10,347 | 6,032 | 724 | 1,203 | 2,147 | 20,453 |
| Ychwanegiadau | - | - | 86 | - | 600 | 686 |
| Gwarediadau | - | - | (42) | (1) | (196) | (239) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2024** | **10,347** | **6,032** | **768** | **1,202** | **2,551** | **20,900** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2024 | 2,223 | 2,022 | 419 | 872 | 1,539 | 7,075 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 310 | 404 | 48 | 40 | 265 | 1,067 |
| Gwarediadau | - | - | (42) | (1) | (196) | (239) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2024** | **2,533** | **2,426** | **425** | **911** | **1,608** | **7,903** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | | | |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2024** | **7,814** | **3,606** | **343** | **291** | **943** | **12,997** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **8,124** | **4,010** | **305** | **331** | **608** | **13,378** |

| 2023 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwelliannau lesddaliad | Asedau hawl-i-ddefnyddio | Peiriannau a chyfarpar | Dodrefn a ffitiadau | Technoleg gwybodaeth | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2023 | 10,347 | 5,644 | 723 | 1,203 | 1,826 | 19,743 |
| Ychwanegiadau | - | (290) | 1 | - | 321 | 32 |
| Ailasesu | - | 678 | - | - | - | 678 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **10,347** | **6,032** | **724** | **1,203** | **2,147** | **20,453** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2023 | 1,913 | 1,510 | 380 | 1,030 | 1,260 | 6,093 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 310 | 405 | 39 | (158) | 279 | 875 |
| Ailasesu | - | 107 | - | - | - | 107 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **2,223** | **2,022** | **419** | **872** | **1,539** | **7,075** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | | | |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **8,124** | **4,010** | **305** | **331** | **608** | **13,378** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **8,434** | **4,134** | **343** | **173** | **566** | **13,650** |

Y GDC sy’n berchen ar yr holl asedau, ac eithrio asedau hawl-i-ddefnyddio, sef prydlesi eiddo Llundain a Birmingham (gweler nodyn 1.10).

## 9. Asedau anniriaethol

| | Meddalwedd £'000 | Trwyddedau £'000 | 2024 Cyfansymiau £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2024 | 1,363 | 244 | 1,607 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2024** | **1,363** | **244** | **1,607** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2024 | 1,363 | 229 | 1,592 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | 4 | 4 |
| Gwaredu | - | - | - |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2024** | **1,363** | **233** | **1,596** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2024** | **-** | **11** | **11** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **-** | **15** | **15** |

| | Meddalwedd £'000 | Trwyddedau £'000 | 2023 Cyfansymiau £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2023 | 1,363 | 244 | 1,607 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **1,363** | **244** | **1,607** |
| **Amorteiddio** | | | |
| Balans ar 1 Ionawr 2023 | 1,363 | 224 | 1,587 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | 5 | 5 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **1,363** | **229** | **1,592** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2023** | **-** | **15** | **15** |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2022** | **-** | **20** | **20** |

Y GDC sy'n berchen ar yr holl asedau.

## 10. Asedau ariannol

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ionawr | 19,544 | 16,731 |
| Ychwanegiadau | 2,578 | 4,378 |
| Gwarediadau | (3,098) | (3,275) |
| Enillion/(Colledion) a wireddwyd ar fuddsoddiadau | 350 | 48 |
| Enillion/(Colledion) na wireddwyd ar fuddsoddiadau | 1,667 | 1,662 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **21,041** | **19,544** |

Incwm a gynhyrchwyd o'r asedau ariannol a ddelir mewn ecwitïau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024: £349k (2023: £378k).

Mae'r tablau isod yn cyflwyno crynodeb o asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar werth teg yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn ôl eu dosbarthiad IFRS 13. (Gweler nodyn 1.13 am ragor o fanylion).

| | | | 2024 |
|---|---|---|---|
| | Lefel 1<br>£'000 | Lefel 2<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
| Ecwitïau | 8,146 | 7,341 | 15,487 |
| Dewisiadau amgen | 81 | 583 | 664 |
| Bondiau | 1,463 | 2,240 | 3,703 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | - | 1,187 | 1,187 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **9,690** | **11,351** | **21,041** |

| | | | Ailddatganwyd 2023 |
|---|---|---|---|
| | Lefel 1<br>£'000 | Lefel 2<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
| Ecwitïau | 7,108 | 6,701 | 13,809 |
| Dewisiadau amgen | 323 | 534 | 857 |
| Bondiau | 1,305 | 2,229 | 3,534 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | - | 1,344 | 1,344 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **8,736** | **10,808** | **19,544** |

Nid oedd gan y GDC unrhyw asedau ariannol lefel 3 ar 31 Rhagfyr 2024 (2023: dim).

Mae dosbarthiad asedau wedi'i ailddatgan ar gyfer 2023 i adlewyrchu'n gywir y rhaniad hwnnw o asedau a ddelir yn ôl eu dosbarthiad hierarchaeth gwerth teg IFRS 13. Nid oes unrhyw newid i gyfanswm gwerth teg asedau ariannol a adroddwyd yn flaenorol.

## 11. Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Derbyniadau eraill | 122 | 132 |
| Treth Gorfforaethol | - | - |
| Rhagdaliadau | 1,643 | 1,522 |
| **Cyfanswm** | **1,765** | **1,654** |

Mae oed yr holl dderbyniadau'n gyfredol a phob swm o fewn ei ddyddiad dyledus, ond heb amhariad. Nid oes darpariaeth ar gyfer dyledion drwg. Nid oes unrhyw asedau ariannol gydag amhariad.

## 12. Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ionawr | 60,349 | 56,500 |
| Newid net mewn balansau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | (1,990) | 3,849 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **58,359** | **60,349** |

| | | |
|---|---|---|
| **Roedd y balansau canlynol ar gadw mewn:** | | |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 36,522 | 39,608 |
| Adneuon banc tymor byr | 21,837 | 20,741 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **58,359** | **60,349** |

## 13. Taliadau masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2024<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Treth gorfforaethol | 297 | 1 |
| Nawdd cymdeithasol a threth arall | 732 | 580 |
| Taliadau masnachol | 1,056 | 844 |
| Symiau taladwy eraill | 136 | 292 |
| Croniadau | 2,310 | 2,837 |
| Incwm a ohiriwyd | 29,457 | 30,980 |
| Rhan gyfredol y rhwymedigaethau prydles | 507 | 507 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | **34,495** | **36,041** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Rhwymedigaethau prydles | 4,643 | 5,132 |
| Treth a ohiriwyd | 1,432 | 858 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | **6,075** | **5,990** |
| **Cyfanswm taliadau masnachol a rhwymedigaethau eraill** | **40,570** | **42,031** |

## 14. Offerynnau ariannol a rheoli risgiau ariannol

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Costau wedi'u hamorteiddio** | | |
| Balansau banc ac arian parod | 58,359 | 60,349 |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 122 | 132 |
| **Cyfanswm** | **58,481** | **60,481** |
| **Gwerth teg drwy elw a cholled** | | |
| Ecwitïau | 21,041 | 19,544 |
| **Cyfanswm** | **21,041** | **19,544** |

Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau mewn gwarannau rhestredig, ecwitïau ac ymddiriedolaeth unedau sef cronfa a reolir sy'n cynnwys portffolio cymysg o warannau rhestredig ac adneuon arian parod.

Dosberthir y rhain fel 'gwerth teg drwy elw a cholled' at ddibenion IFRS 9. Cynhwysir buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu ar sail eu gwerth marchnadol diwedd blwyddyn. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y prisiau canol marchnad diwedd dydd ar y dyddiad cyfrifyddu.

Mae'r buddsoddiadau wedi eu categoreiddio fel rhai lefel un at ddibenion datgelu o dan IFRS 7.

| | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | |
| Symiau taladwy masnachol ac eraill | 4,530 | 4,554 |
| **Cyfanswm** | **4,530** | **4,554** |

Mae'r rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna ar sail gwerth anfoneb neu gost wedi'i hamorteiddio. Maent yn deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau.

### Risg credydd

Risg credyd yw risg bod un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi colled ariannol i'r parti arall. Ni ystyrir bod hyn yn sylweddol. Nid yw'r GDC yn defnyddio offerynnau ariannol sy'n cynyddu ei broffil risg credyd ac nid oes ganddo unrhyw ddyledion allanol. Defnyddiwn amrywiaeth o fesurau lliniaru risg gan gynnwys sgoriau credyd i asesu risg credyd partïon eraill, gan gynnwys cyflenwyr a sefydliadau ariannol.

### Risg hylifedd

Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar ffioedd ar gyfer ei ofynion arian parod. Mae'r balansau arian parod yn gylchol ac ar eu huchaf yn Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst. Mae lefelau arian parod yn isel rhwng y cyfnodau hyn oherwydd bod derbyniadau'r Cyngor ar eu huchaf yn Rhagfyr pan fydd deintyddion yn talu eu ffioedd cadw blynyddol, ac ym mis Gorffennaf pan fydd proffesiynolion gofal deintyddol yn talu eu ffioedd hwythau. Mae gwariant y Cyngor wedi'i wasgaru'n gyfartal drwy'r flwyddyn.

Rydym wedi ymrwymo i wariant yn y dyfodol, yn bennaf ar brydlesi. Oherwydd ein bod yn gorff statudol wedi'i ariannu gan ffioedd cofrestru gorfodol a delir gan ddeintyddion a proffesiynolion gofal deintyddol, credwn fod y risg na allwn fodloni'r rhwymedigaethau hyn yn isel.

Felly mae'r Cyngor o'r farn nad oes posibilrwydd arwyddocaol o risg hylifedd.

### Risg arian cyfred

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau mewn punnoedd sterling felly nid oes risg arian cyfred o ddal buddsoddiadau ecwiti tramor. Fodd bynnag, mae rhai o'r cronfeydd cyfunol wedi eu buddsoddi dramor a gallai rhai cwmnïau ddatgan difidend mewn arian cyfred gwahanol, ond wedyn talu mewn sterling, felly gall fod amrywiadau arian cyfred.

Mae gan y GDC bolisi cronfeydd wrth gefn. Oherwydd cylchoedd adnewyddu cofrestru a dulliau talu ffioedd gweithwyr cofrestredig, mae gan y GDC swm priodol o arian parod mewn cyfrifon cadw tymor byr i ateb y gwariant y disgwylir ei wario dros y cyfnod talu.

### Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Mae gweithwyr proffesiynol deintyddol yn talu ffioedd ymlaen llaw. Mae arian gwarged yn cael ei gadw fel a ganlyn:

- Adnau cyfnod penodol – cedwir y rhan fwyaf o'r arian gwarged yn y farchnad arian tymor byr. Chwiliwn am gyfraddau cystadleuol wrth fuddsoddi yn y farchnad arian.
- Buddsoddiadau – buddsoddir y gweddill mewn portffolio o ecwitïau ac ymddiriedolaethau uned lle mae risg bob amser o ostyngiad yn eu gwerth.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r marchnadoedd ariannol drwy strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg a niwed diangen i gyfrifoldebau rheoleiddio'r GDC. Cymeradwyodd y Cyngor yr adolygiad blynyddol o'n datganiad o egwyddorion buddsoddi ym mis Rhagfyr 2021.

Ni ystyrir bod y risg cyfraddau llog yn arwyddocaol o ran bod y GDC yn dibynnu ar incwm llog i raddau helaeth i ariannu ei waith.

## 15. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Darpariaethau Ymadael £'000 | Darpariaeth audadfeilio £'000 | Darpariaeth au tâl gwyliau £'000 | Arall £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ionawr | (29) | (190) | - | (90) | (309) | (190) |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | - | (1,042) | (20) | (1,062) | (119) |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | 29 | - | - | - | 29 | 0 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **-** | **(190)** | **(1,042)** | **(110)** | **(1,342)** | **(309)** |

## 16. Y Gronfa Bensiwn

Hyd at 31 Mawrth 2021, roedd gan y GDC gynllun buddion diffiniedig wedi'i ariannu'n llwyr drwy gyfraniadau gan y GDC ac aelodau'r cynllun pensiwn. Cafodd prisiad actiwaraidd tair-blynyddol llawn ei wneud ar 1 Ebrill 2024 a chafodd diweddariad ei wneud ar 31 Rhagfyr 2024 gan actiwari cymwys annibynnol.

Ar 31 Rhagfyr 2024, mae gan y cynllun warged o £7.7 miliwn ar sail tybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd. Gwelodd adran buddion diffiniedig y cynllun gynnydd actiwaraidd net yn ei werth o £229 miliwn yn 2024, yn erbyn yr hyn a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd.

O dan ofynion 'IFRIC 14: The Limit on a Defined Benefit Asset, Minimum Funding Requirements and their Interaction', rydym wedi ein cyfyngu rhag dangos gwarged y cynllun yn y datganiadau ariannol gan na allwn sicrhau buddion economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. Ceir rhagor o wybodaeth am derfyn yr asedau pensiwn yn adran y gronfa bensiwn ar dudalen 48 yr adroddiad hwn.

Mae hyd y cynllun oddeutu 30 mlynedd felly disgwylir y byddwn yn talu llifau arian parod yn y dyfodol am fwy na 30 mlynedd. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari ar 31 Rhagfyr 2024 oedd:

| | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| Cyfradd chwyddiant | 3.3% | 3.2% |
| Cyfradd codiadau cyflog | 3.8% | 3.7% |
| Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 5.0% ar y mwyaf | 3.1% | 3.0% |
| Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 3% o leiaf, 5% ar y mwyaf | 3.7% | 3.7% |
| Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 2.5% ar y mwyaf | 2.0% | 2.0% |
| Cyfradd disgownt | 5.4% | 4.5% |
| Cyfran y gweithwyr sy'n dewis ymddeol yn gynnar yn 60 oed | 50.0% | 50.0% |

Disgwyliadau oes tybiedig wrth ymddeol yn 65 oed:

| | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| Ymddeol heddiw - dynion | 22.3 | 22.5 |
| Ymddeol heddiw - menywod | 23.9 | 24.2 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd - dynion | 23.2 | 23.4 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd - menywod | 25.0 | 25.2 |

Mae'r tybiaethau marwolaeth am y cyfnod cyfredol yn dilyn tablau marwolaeth 'Light' S3PMA wedi'u haddasu'n unol â rhagamcaniadau CMI 2023 gyda thuedd tymor hir o 1% y flwyddyn.

Mae prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun fel a ganlyn:

| | Dyraniad (£) 2024 | Dyraniad (%) 2024 | Dyraniad (£) 2023 | Dyraniad (%) 2023 |
|---|---|---|---|---|
| Polisïau blwydd-dal | 3,089 | 11.6% | 3,411 | 11.2% |
| Cronfa ag Elw | 1,717 | 6.4% | 4,004 | 13.1% |
| Arian parod | 2,357 | 8.8% | 20 | 0.1% |
| LDI | 11,143 | 41.7% | 14,129 | 46.3% |
| Bondiau Corfforaethol | 7,206 | 27.0% | 7,409 | 24.3% |
| Eraill | 1,214 | 4.5% | 1,516 | 5.0% |
| **Cyfanswm** | **26,726** | **100.0%** | **30,489** | **100.0%** |

Ni fuddsoddir yr un o asedau'r cynllun pensiwn yn y GDC.

| | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Elw gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn y flwyddyn | **(2,964)** | **(1,194)** |

Dadansoddiad o symiau wedi eu debydu/credydu i'r cyfrifon incwm a gwariant:

| | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm a Gwariant:** | | |
| Treuliau gweinyddol | 253 | 66 |
| Cost llog | 1,012 | 1,054 |
| Incwm llog net ar rwymedigaethau pensiwn net | (1,354) | (1,505) |
| Llog ar effaith terfyn uchaf asedau / IFRIC14 | 330 | 451 |
| Setliad/cwtogi (elw/colled) | (322) | - |
| **Cyfanswm incwm/(costau)** | **(81)** | **66** |

Symiau a gydnabyddir yn y datganiad sefyllfa ariannol:

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:** | | |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau wedi eu hariannu | (19,037) | (23,029) |
| Gwerth teg asedau | 26,726 | 30,489 |
| Effaith Terfyn Uchaf Asedau | (7,689) | (7,460) |
| **Gwarged** | **-** | **-** |

Symiau o incwm cynhwysfawr arall yn y datganiad:

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Incwm Cynhwysfawr arall:** | | |
| (Colled)/elw actiwaraidd ar asedau'r cynllun | (4,318) | (2,699) |
| (Colled)/elw actiwaraidd ar rwymedigaethau buddion diffiniedig | 4,136 | 131 |
| *o'r rhain, oherwydd profiad* | 248 | 111 |
| *o'r rhain, oherwydd tybiaethau demograffig* | 498 | 249 |
| *o'r rhain, oherwydd tybiaethau ariannol* | 3,390 | (229) |
| Elw/(Colled) oherwydd effaith terfyn uchaf asedau | 101 | 2,634 |
| **Cyfanswm (colled)/elw yn y datganiad incwm cynhwysfawr arall** | **(81)** | **66** |

Dadansoddiad sensitifrwydd o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig:

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt - gostyngiad o 0.5% y flwyddyn. | 20,750 | 25,792 |
| Chwyddiant RPI - cynnydd o 0.5% y flwyddyn. | 19,418 | 24,180 |
| Marwoldeb - mae disgwyliad oes pob aelod yn cynyddu i ddisgwyliad oes rhywun blwyddyn yn iau | 19,608 | 23,490 |

Newidiadau yng ngwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig:

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 1 Ionawr** | **23,029** | **22,728** |
| Cost llog | 1,012 | 1,054 |
| Colled/(elw) actiwaraidd | (4,136) | (131) |
| Setliad/cwtogi (elw)/colledion | (322) | - |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun/costau gweinyddol a dalwyd | (546) | (622) |
| **Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 31 Rhagfyr** | **19,037** | **23,029** |

Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun:

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwerth teg ar 1 Ionawr** | **30,489** | **32,371** |
| Incwm llog | 1,354 | 1,505 |
| Elw ar asedau'r cynllun sy'n fwy na'r incwm llog | (4,318) | (2,699) |
| Costau gweinyddol a dalwyd | (253) | (66) |
| Buddion a dalwyd/costau gweinyddol a dalwyd | (546) | (622) |
| **Gwerth teg ar 31 Rhagfyr** | **26,726** | **30,489** |

Newidiadau mewn gwarged adenilladwy ac elfennau o berfformiad y cynllun:

| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ionawr** | **-** | **-** |
| Cyfanswm cost/(elw) gweinyddol | 81 | (66) |
| (Colled)/elw actiwaraidd | (182) | (2,568) |
| Effaith Terfyn Uchaf Asedau | 101 | 2,634 |
| **Balans terfynol** | **-** | **-** |

Symiau am y cyfnodau cyfredol a blaenorol:

| | 2024 £'000 | 2023 £'000 | 2022 £'000 | 2021 £'000 | 2020 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Elw ar asedau'r cynllun sy'n fwy na'r incwm llog | (4,318) | (2,699) | (20,146) | 4,112 | 2,450 |
| Elw/(colledion) profiad ar rwymedigaethau'r cynllun | 4,136 | 131 | (2,037) | 1,002 | (84) |
| Newidiadau mewn tybiaethau am werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | 3,390 | (229) | 22,476 | 1,720 | (7,582) |
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | (19,037) | (23,029) | (22,728) | (38,134) | (40,721) |
| Asedau'r cynllun | 26,726 | 30,489 | 32,371 | 47,293 | 41,094 |
| Elw/(Colled) oherwydd effaith terfyn uchaf asedau | 101 | 2,634 | (319) | (9,159) | - |
| Gwarged/diffyg | - | - | - | - | 373 |

Enillion Asedau:

| Enillion asedau | 2024 | 2023 | 2022 | 2021 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Swm £'000 | (3,763) | (1,882) | (19,818) | 9,018 | 2,450 |
| % o asedau'r cynllun | (14.1)% | (6.2)% | (61.2)% | 17.3% | 6.0% |

Enillion profiad rhwymedigaethau:

| Enillion profiad rhwymedigaethau | 2024 | 2023 | 2022 | 2021 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Swm £'000 | 248 | 111 | (2,037) | 1,002 | (84) |
| % o rwymedigaethau'r cynllun | 1.3% | 0.5% | (9.0)% | 2.3% | (0.2)% |

Mae pawb ar bensiwn yn derbyn cynnydd sicr o 3% y flwyddyn dan delerau'r cynllun am wasanaeth hyd at 6 Ebrill 1997. Ar ôl hynny mae'r gwasanaeth yn cael ei drin yn unol â Deddf Pensiynau 1995. Mae unrhyw iawndal pellach am gynnydd mewn costau byw yn cael ei ystyried yn flynyddol.

Yn 2024, cyfraniad pensiwn blynyddol y cyflogwr oedd £1.3m (2022: £1.1m) i drefniant pensiwn yr ymddiriedolaeth meistr.

Mae'r cynllun wedi'i gyfansoddi fel ymddiriedolaeth ac yn gyfreithiol ac ariannol ar wahân i'r cyflogwr. Mae gan yr ymddiriedolwyr gyfrifoldeb mewn perthynas â'r ymddiriedolaeth a ddisgrifir yn ei gweithred a'i rheolau. Yn fyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am:

- Weinyddu a rheoli'r cynllun at ddibenion Deddf Cyllid 2004.
- Penodi neu ddiswyddo actiwari at ddiben y cynllun, fel y gwêl yr ymddiriedolwyr yn briodol ac addas.
- Penodi neu ddiswyddo actiwari at ddibenion, ac yn unol â, Deddf Pensiynau 1995.
- Sicrhau bod datganiadau ariannol a archwiliwyd ar gael, am bob blwyddyn o'r cynllun, i aelodau'r cynllun, buddiolwyr a phartïon penodol eraill.
- Sicrhau bod gwybodaeth benodol arall am y cynllun ar gael ar ffurf adroddiad blynyddol a pharatoi a chynnal datganiad ysgrifenedig o'r egwyddorion buddsoddi.
- Cytuno gyda'r GDC ynghylch swm ac amseriad cyfraniadau'r aelodau a'r GDC a sicrhau eu bod yn cael eu talu.

Mae'r cynllun, fel y rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig eraill, yn wynebu nifer o risgiau gan gynnwys:

- Y risg na fydd yr enillion ar yr asedau, o fuddsoddi, yn ddigon yn y dyfodol i ateb yr amcan cyllido.
- Y risg y gallai chwyddiant fod yn wahanol i'r hyn a dybiwyd.
- Y risg na fydd gostyngiad yng ngwerth yr asedau'n cael ei adlewyrchu gan ostyngiad tebyg yng ngwerth y rhwymedigaethau, gan leihau lefel gyllido'r cynllun.
- Y risg y bydd newidiadau annisgwyl mewn marwolaethau yn y dyfodol, neu ffactorau eraill, yn cynyddu cost y buddion.
- Y risg bosibl na fydd y Cyngor yn gallu talu cyfraniadau neu wneud iawn am ddiffyg ariannol yn y dyfodol.
- Y risg ynglŷn â'r posibilrwydd bod (aelodau neu eraill) yn ymarfer opsiynau yn erbyn y cynllun.
- Y risg o newidiadau deddfwriaethol andwyol.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

Oherwydd y risgiau hyn, gallai unrhyw brofiad andwyol o ganlyniad iddynt olygu bod angen i'r cyflogwr wneud cyfraniadau ychwanegol yn y dyfodol.

Caewyd y cynllun i gronni yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2021 ac felly ni thrafodwyd unrhyw gyfraniadau cyflogwr gwasanaeth cyfredol rhwng y cyflogwr a'r Ymddiriedolwr. Ni chytunodd y Cyngor ar unrhyw gyfraniadau cyflogwr ychwanegol i'r cynllun ar gyfer 2024 (2023: dim).

Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar asesu rhwymedigaethau'r cynllun ar 31 Rhagfyr 2024. Cyfrifwyd yr ystyriaethau sensitifrwydd gan ddefnyddio'r un fethodoleg.

Mae'r rhain yn seiliedig ar ganlyniadau'r prisiad actiwaraidd tair-blynyddol ffurfiol ar 1 Ebrill 2024, wedi eu rhagamcangyfrif drwy ganiatáu ar gyfer cronni buddion, yr enillion disgwyliedig o fuddsoddi, yr union gyfraniadau a llifau arian, a chwtogi'r cynllun, ac wedi eu haddasu i ganiatáu ar gyfer y tybiaethau IAS 19 a ddisgrifir uchod. Amcangyfrif felly yw'r canlyniadau a'r ystyriaethau sensitifrwydd.

Pe cyfrifwyd rhwymedigaethau ac ystyriaethau sensitifrwydd ar 31 Rhagfyr 2024 ar sail yr union ddata aelodaeth ohiriedig a phensiynwr ar y dyddiad hwnnw, gallai'r canlyniadau fod yn wahanol. Fodd bynnag, ni fyddem yn disgwyl gweld unrhyw wahaniaeth mawr.

Mae rhagor o wybodaeth am gynlluniau pensiwn y Cyngor yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ar dudalen 70.

## 17. Ymrwymiadau o dan brydlesi

Llifau arian parod contractiol heb eu disgowntio:

| | 2024<br>£'000 | Ailddatganwyd 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Tir ac adeiladau** | | |
| Llai na blwyddyn | 686 | 686 |
| Un i bum mlynedd | 2,744 | 2,744 |
| Mwy na phum mlynedd | 2,764 | 2,785 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau prydles heb eu disgowntio ar 31 Rhagfyr** | **6,194** | **6,215** |
| **Rhwymedigaethau prydles wedi eu cynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Rhagfyr** | **5,150** | **5,639** |
| Cyfredol | 507 | 507 |
| Anghyfredol | 4,643 | 5,132 |

Symiau wedi eu cydnabod yn y datganiad incwm:

| | 2024<br>£'000 | Ailddatganwyd 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog ar rwymedigaethau prydles | 197 | 208 |

Symiau wedi eu cydnabod yn y datganiad llif arian parod:

| | 2024<br>£'000 | Ailddatganwyd 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Talu rhwymedigaethau prydles | 918 | 416 |

Datgelir y swm cario, y taliadau adio a dibrisiant sy'n gysylltiedig ag asedau hawl-i-ddefnyddio yn nodyn 8, a datgelir y gost llog sy'n codi ar atebolrwydd y brydles yn nodyn 6 y cyfrifon hyn.

Rhoddir mwy o wybodaeth am brydlesi yn nodyn 1.10 y cyfrifon hyn.

## 18. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd gan y GDC ymrwymiadau cyfalaf contractiol nad oeddent wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn ar 31 Rhagfyr 2024 (2023: dim).

## 19. Trafodion partïon cysylltiedig

Ni nodwyd unrhyw drafodiad parti cysylltiedig gydag aelodau'r Cyngor, ac eithrio iawndal a dalwyd iddynt, a lle mae aelodau'r Cyngor hefyd yn weithwyr deintyddol proffesiynol, y ffi gadw flynyddol safonol y maent yn ei thalu i'r GDC. Mae manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol o'r Cyngor wedi'u nodi yn yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol ar dudalen 72 (2023: dim).

Ni nodwyd unrhyw drafodion parti cysylltiedig gydag uwch reolwyr, ac eithrio cyflog a dalwyd iddynt fel y datgelwyd yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol ar dudalennau 70 i 78 (2023: dim).

Ni nodwyd unrhyw drafodion parti cysylltiedig â'n deiliaid cyllideb, ac eithrio cyflogau a dalwyd iddynt (2023: dim). Nid oedd unrhyw drafodion parti cysylltiedig eraill a nodwyd (2023: dim).

## 20. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Rydym wedi ystyried effaith dyfarniad Somerville v Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), lle dyfarnodd y Tribiwnlys Cyflogaeth fod Mr Somerville yn weithiwr. Rydym wedi nodi bod atebolrwydd posibl i'r GDC mewn perthynas ag:

- Ymrwymiadau cyn 2016, nad oes gan y Cyngor gofnodion ariannol ar eu cyfer mwyach.
- Cyfraniadau pensiwn cyflogwyr ar gyfer y swyddogion cyswllt hynny gyda thâl cydnabyddiaeth a fyddai wedi bodloni trothwyon cofrestru awtomatig. Mae'r atebolrwydd hwn yn amodol ar swyddogion cyswllt yn dewis optio i mewn i'r cynllun a bodloni'r cyfraniad gweithiwr perthnasol sy'n ddyledus.

Mae'r GDC wedi cyfrifo mai 'amcangyfrif gorau' o unrhyw rwymedigaeth bosibl mewn perthynas â'r rhwymedigaethau digwyddiadol hyn yw:

- Cymryd ymlaen cyn 2016 – £203k.
- Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr – £137k.

(2023: Effaith dyfarniad Somerville v Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ar statws gweithiwr cyswllt £853k).

## 21. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn dilyn dyfarniad Somerville v Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), lle dyfarnodd y Tribiwnlys Cyflogaeth fod Mr Somerville yn weithiwr, mae'r GDC wedi bod wrthi'n ystyried statws ein gweithlu cyswllt ein hunain.

Ar 30 Mai 2025, fe wnaeth y Cyngor benderfyniad a oedd yn cydnabod rhai swyddogion cyswllt GDC fel gweithwyr yn unol â'r safonau cyfreithiol cyfredol. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, cytunwyd y dylid eu digolledu am wyliau blynyddol di-dâl a gronnwyd yn ystod eu cyfnod presennol. Mae'r penderfyniad hwn wedi'i adlewyrchu fel darpariaeth gyfrifyddu addasu o £1.0m sydd wedi'i chynnwys yn y datganiadau ariannol hyn. Mae esboniad pellach ar y penderfyniad a wnaed wedi'i gynnwys yn yr adran adolygiad ariannol ar dudalen 46.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol eraill ar ôl 31 Rhagfyr 2024, sy'n gofyn am addasu'r datganiadau ariannol neu'r hyn sy'n cael ei ddatgelu ynddynt.

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu (Prif Weithredwr a Chofrestrydd) gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

# Cynghorwyr

**Bancwyr**

Lloyds Banking Group
Mid Corporates
25 Gresham Street
Llundain
EC2V 7HN

National Westminster Bank PLC
5th Floor
2 St Philips Place
Birmingham
B3 2RB

**Buddsoddiadau**

Evelyn Partners Investment Management LLP
45 Gresham Street
Llundain
EC2V 7BG

**Cyfreithiol**

Capsticks Solicitors LLP
St George's House East
1 St George's Road
Wimbledon
Llundain
SW19 4DR

Kingsley Napley LLP
Knights Quarter
14 St John's Lane
Llundain
EC1M 4AJ

Blake Morgan LLP
6 New Street Square
Llundain
EC4A 3DJ

Mills and Reeve LLP
Botanic House
100 Hills Road
Caergrawnt
CB2 1PH

**Cynghorwyr Treth**

Haysmacintyre LLP
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

**Archwilwyr Allanol**

Y Swyddfa Archwilio Gyffredinol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

**Archwilwyr Mewnol**

RSM UK Assurance Services LLP
25 Farringdon Street
Llundain
EC4A 4AB

**Actiwari a'r Cynllun Pensiwn**

Lane, Clark and Peacock LLP
95 Wigmore Street
Llundain
W1U 1DQ

# Penderfyniad ar y Cyfrifon

**Y Penderfyniad ar y Cyfrifon gan y Cyfrin Gyngor dan adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984.**

Mae'r Arglwyddi'n dyfarnu fel a ganlyn wrth arfer eu pwerau o dan adran 2C(1) o Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae'r penderfyniad hwn mewn grym o 16 Mai 2016 ymlaen:

## Dehongliad

Yn y penderfyniad hwn –

ystyr "y cyfrifon" yw'r datganiad cyfrifon y mae gan y Cyngor ddyletswydd i'w baratoi o dan adran 2C(1)(b) o Ddeddf Deintyddion 1984.

ystyr "y Cyngor" yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

ystyr "y FReM" yw'r argraffiad o Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddir gan Drysorlys EF sydd mewn grym am y flwyddyn galendr berthnasol.

## Dyfarniad

Rhaid i'r Cyngor baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn galendr. Wrth baratoi ei gyfrifon, dylai'r Cyngor ystyried datgeliadau ac egwyddorion cyfrifyddu'r FReM.

Rhaid paratoi'r cyfrifon er mwyn:

- Rhoi darlun cywir a theg o'r busnes ar ddiwedd y flwyddyn ac o incwm a gwariant, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, ac o lif arian parod y Cyngor am y flwyddyn galendr a ddaeth i ben.
- Datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol na wariwyd at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon a gyhoeddir.

Mae'r Penderfyniad ar y Cyfrifon a wnaed ar 22 Rhagfyr 2015 yn cael ei ddiddymu drwy hyn.

Gwiriwch fod eich gweithiwr proffesiynol deintyddol wedi cofrestru: **www.gdc-uk.org**

**Rydym am sicrhau bod ein holl wasanaethau ar gael i bawb.**

**Os hoffech gael copi o'r adroddiad hwn** mewn iaith neu fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print bras neu sain), cysylltwch â ni.

**Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.**

**Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol**
37 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ
**020 7167 6000**
**information@gdc-uk.org**
**www.gdc-uk.org**

HC 1125

ISBN 978-1-5286-5858-4
E03390378